HYFFORDDÏAD I WYBODAETH jachusol O EGWYDDORJON a DYLEDSWYDDAU CREFYDD:

SEF,

HOLÏADAU ac ATTEBÏON Ysgrythurol

Ynghylch yr ATHRAWJAETH a gynhwysir

Yng *Nghatecism yr Eglwys.*

Angenrheidjol i'w dysgu gan HEN a JEUAINGC:

Y RHAN GYNTAF.

Yn traethu ynghylch

Cwymp Dyn trwy Bechod, a'i *Adgyweiriad* trwy GRISTI; Rhagoriaeth, Breintjau, ac Ammodau'r *Cyfammod Gras*; y Manteision mawrjon, y Cyssuron rhagorol, a'r Dyledswyddau Crefyddol, sy'n tarddu oddi wrth y Breintjau hynny: Ynghŷd â Rhwymedigaeth, Natur, a Nodau'r *Hunanymwadiad*; y Ffydd a'r Ufudd-dod a gynhwysir yn *Ammodau'r Cyfammod*; ac amryw bethau buddjol ychwaneg.

Gan y Parchedig Mr *GRIFFITH JONES*,
Gynt Person *Llandowror* yn *Sir Gaerfyrddin.*

DEUT. vi. 6, 7. Bydded y geirjau hyn—yn dy galon. A hysbysa hwynt i'th blant, a chrybwyll am danunt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan gerddych ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i fynu.

Argraphwyd yn *LLUNDAIN* yn y Flwyddyn M.DCC.LXIII.

Egwyddor i'r Anllythyrennog i ddyſgu darllain.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph R S T Th U W Y.

a a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s t th u w y.

Y Llafarjaid, neu'r Bogeiljaid.

a e i o u w y.

Yr holl Lythyrennau eraill a elwïr Cydſeiniaid.

ab eb ib ob ub wb yb	ba be bi bo bu bw by
ac ec ic oc uc wc yc	ca ce ci co cu cw cy
ach ech ich och uch wch ych	cha che chi cho chu chw chy
ad ed id od ud wd yd	da de di do du dw dy
add edd idd odd udd wdd ydd	dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
af ef if of uf wf yf	fa fe fi fo fu fw fy
aff eff iff off uff wff yff	ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ag eg ig og ug wg yg	ga ge gi go gu gw gy
ang eng ing ong ung wng yng	ha he hi ho hu hw hy
al el il ol ul wl yl	ja je ji jo ju jw jy
all ell ill oll ull wll yll	la le li lo lu lw ly
am em im om um wm ym	lla lle lli llo llu llw lly
an en in on un wn yn	ma me mi mo mu mw my
ap ep ip op up wp yp	na ne ni no nu nw ny
aph eph iph oph uph wph yph	pa pe pi po pu pw py
ar er ir or ur wr yr	pha phe phi pho phu phw phy
as es is os us ws ys	ra re ri ro ru rw ry
at et it ot ut wt yt	ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
ath eth ith oth uth wth yth	ta te ti to tu tw ty

HYSBYSIAD.

NID ydys yn meddwl, y dichon neb ddyſgu allan o Lyfr, neu'n gwbl-berffaith ar eu côf, Gateciſm *cyhyd a hwnw eithr fe ddylid ei ddarllain yn* yſtyriol *ac yn* ſynych; *a phennau Teuluoedd, neu ryw un o'r Tŷ, ddarllain yn niwe'dydd y* Sabbathau, *a noſweithiau eraill, pan fyddo yn gyfleus, ddau neu dri o Gweſtiynau, a'u Hattebion, neu ychwaneg, yn ol y bo eu hyd, i bawb o'r Tylwyth. Ac wedi darllain yn bwyllog* Attebion *un Cweſtiwn, fe fydd yn fwy adeiladol i ofyn i bawb o'r Teulu i atteb yr yſtyr o honunt yn fyr yn eu Geiriau eu hunain: Canys felly y deuant i graffu a gwrando yn ofalus ar y peth a ddarllenir, a chynnyddu mewn deall ysbrydol a Gwybodaeth yn fuan; yn enwedig, o's, gyd â hyn, y rhoddant Gweſtiwn neu ddau i'r naill a'r llall o'r Teulu, i'w ddyſgu ar eu Côf erbyn y tro neſaf. Hwy a allant ddewis y Cweſtiynau a fynnont, yn y Rhan a fynnont o'r Llyfr, ag a dybiont ei fod yn fwyaf perthynaſol i'w Teulu: Megis, am* Ddyledſwyddau eu Haddunedau Bedydd; *am* eu Trueni trwy bechod; *am* eu prynedigaeth trwy GRIST; *am* ffydd, *ac* Edifeirwch, *a* Gweddi, *a* Sancteiddiad y Sabboth, *a* Swpper yr Arglwydd, *a* Dyledſwyddau plant a Gwaſanaethwyr, *a'r cyffelyb; fel y barno'r Penteulu fod yn fwyaf buddiol iddunt. A Bendith DUW a fyddo, ac yn ddiammau a fydd, ar y Teuluoedd hynny. Ac o's bydd gwiw gan* Weinidogion *i wneuthur yn gyffelyb i hynny, neu gymmeryd y Drefn a farnont yn fwyaf adeiladol i Gateceiſio ar y* Suliau *yn y* Goſber, *Gobeithiaf y cânt weled y lleſhâd o hono, er cyſur annhraethol iddunt. Ychydig ymarfer a wna'r pwyllog a'r deallus yn fwy medrus, a'r Gwaith yn rhwydd, ac yn eſmwyth; ac yn fwyfwy hoff ganthunt. Byddent hwy au llafurus waith (fel yn ddiau y cânt fod) dan Nodded DUW a'i Fendith!* Amen.

Y Rhagymadrodd.

BRITISH MUSEUM 16 DE 96

Y Rhagymadrodd.

MAE *Gair* Duw (ſy'n mynegi'r pethau a berthyn i'n Jechydwriaeth ni, ac yn ôl pa un y'n bernir yn y dydd olaf) yn tyſtïolaethu i Fawr a Bychain, ac i Hên a Jeuaingc, mor angenrheidjol yw i bob dŷn, a ëwyllyſio fod yn gadwëdig, gael eu haddyſgu yn Egwyddorjon y *Ffydd*, a'r Athrawjaeth a berthyn i *Ddiwjoldeb:* Canys ein *Prynwr* Bendigedig, a *Barnwr* y Byw a'r Meirw, a ddywaid, mai *hyn yw'r Bywyd tragywyddol, iddunt adnabod yr unig wîr DDUW, a'r Hwn a anfonodd Efe JESU GRIST.* Joan xvii. 3.

MAE'n olwg athriſt, amlwg i'r fawl ôll a fynno yſtyrïad, er mawr ofid càlon iddunt, faint cyfeiliorni enbydus, a phob annuwjoldeb digywilydd, ſy'n amlhâu, a chwedi goreſgyn wyneb y tîr, o achos cymmaint anwybodaeth dynjon o DDUW, a Gwirjoneddau jachus y *Grefydd Griſt'nogol:* O herwydd pa ham y *mae llid digofaint a dydd ſorrïant yr ARGLWYDD ymron dyfod, a chelledigaeth myrddiynau yn bryſio ar eu gwarthaf yn ddiaros ac yn ddiarwybod iddunt.* Canys, megis y llefara'r Prophwyd, *Y mae cwyn rhwng yr ARGLWYDD a thrigoljon y wlâd, am nad oes gwirjonedd, na thrugaredd, na gwybodaeth o DDUW yn y wlâd.* Am hynny medd yr ARGLWYDD, *Fy mhobl a ddifethêr o eiſiau gwybodaeth: am i ti ddiyſtyru gwybodaeth, Minnau a'th ddiyſtyraf dithau.* Hoſ. iv. 1, 6.

MEGIS y mae'n ammhoſſibl, ar y naill law, i adrodd faint yw'r Drugaredd, ac mor werthfawr yw'r Rhagorfraint, i gael o honom fwynhâu *Gair* Duw ac *Efengyl* yr Arglwydd JESU, i roddi i ni hyſbyſrwydd angenrheidjol ynghylch Creadigaeth Dŷn mewn Unjondeb, a'i Gwymp trwy Bechod; ac ynghylch

Prynedigaeth Dŷn trwy GRIST, a'i Adgenhedlïad trwy *Râs* DUW; ac ynghylch pob pethau eraill a berthyn i ddŷn fod yn hyddyſg ynddunt tu ag at Jechydwriaeth ei Enaid: ſelly hefyd nid yw boſſibl, ar y tu arall, i adrodd gymmaint yw'r trueni, fod myrddiynau yn parhau o flwyddyn i flwyddyn, dros hôll flynyddoedd eu bywyd, yn niadnabyddiaeth jachuſol o'r pethau hyn, er eu bod yn mwynhau'r *Yſgrythur Lân* yn eu mŷſg, ac, onid antur, yn mynych eiſtedd dan y Weinidogaeth o honi; ac ſelly yn gyfryw drueiniaid deilljon ag y ſonja'r Apoſtol am danunt, megis rhai *yn dyſgu bob amſer, ac heb allu dyfod un amſer i wybodaeth o'r Gwirjonedd*, 2 Dim. iii. 7. Ac fel y lleſara'r un Apoſtol mewn man arall; *Lle dylent fod yn athrawön o ran amſer, y mae arnunt drachefn eiſiau dyſgu iddunt beth ydyw egwyddorjon dechreuad Ymadroddion DUW; ac yn rhaid iddunt wrth laeth, ac nid bwyd cryf*, Heb. v. 12.

A PHA ham, attolwg, y mae'r peth felly? a pha beth yw'r achos o gymmaint tywyllwch a dallineb yng Ngwlâd yr *Eſengyl*, a lle mae'r Pregethïad o honi yn aml? Onid o blegid yr eſgeuluſdra cyffredinol ynghylch cateceiſio a dyſgu pob rhyw ddynjon mewn prŷd yn Egwyddorjon *Crefydd*? O herwydd hyn nid yw'r werinos gyffredin, egwan eu dyall, yn gallu dirnad grym nac yſtyr yr Athrawjaeth ddyſgedig a roddir iddunt mewn Pregethau, mwy nag y medrai neb yn gyfarwydd ddarllain geirjau mewn llyfr, heb iddo erjôed ddyſgu adnabod y llythyrennau yn gyntaf. Ac oddi wrth hyn y mae achos (nid bychan) i lawer o Weinidogjon, ïe'r cyfryw ag ſy'n boenus yn eu gwaith yn pregethu, i achwyn yn ofidus, *eu bod yn llafurïo'n ofer, ac yn treulïo eu nerth am ddim*, pan yw eu hôll aſtudrwydd a'u llafurwaith ynghylch pregethu yn prifio'n ddiadeiladaeth i'r gwrandawyr anhyddyſg yn Egwyddorjon *Crefydd*: canys nid ychydig o honunt ſy'n myned mewn anwybodaeth reſymus allan o'r bŷd, ar ôl bod yn fynych dan arferïad o wrando Pregethau yn amſer eu bywyd; fel yr ymddangoſai, pe holed hwynt ar eu gwelyau angau ynghylch eu gwybodaeth mewn Pethau yſbrydol. O pa faint yw'r toſſuri, fod cynnifer o Eneidjau yn marw, ac yn myned dan loeſion tragywyddol yr ail farwolaeth, o eiſiau Addyſg! Canys babanod a gweinjaid ydynt yn marw o ddiffyg, er goſod digonedd o fwyd cryf o'u blaen, oni chânt dros amſer eu meithrin â llaeth yn gyntaf.

GAN fod yr angenrheidrwydd o holi a dyſgu dynjon ym Mhyngcjau *Crefydd* yn ymddangos fel hyn, nid oes achos wrth reſymmau

reſymmau chwaneg am gynnyg o honof i chwi, yr *Annwyl* GYMRY, yr Eſponiad hyn ar y Rhan gyntaf o *Gatechiſm* yr *Eglwys*: Eſponiad y Rhannau eraill a ganlyn, trwy Gymmorth DUW, mewn amſer cyſaddas, o's gwelaf dderbynniad groeſawus i hyn. Gobeithio'r wyf, na fernwch fod yr Eſponiad yn rhy helaeth; o blegid mae'r diben o hono yw dyſgu, nid y rhai jeuaingc yn unig, eithr dynjon mewn oedran heſyd, y rhai a ddylent fod yn helaeth yn eu gwybodaeth. O herwydd pa ham y ceiſiais gaſglu ynghyd, a chynnwys, cymmaint o fatter mewn cyn lleied o eirjau ag a ellais, heb oſod yn fynych ond un Cweſtiwn i arwain i mewn amryw o Attebion: Eithr ni bydd anhawdd i'r dyallus gymhwyſo a goſyn y Cweſtiwn yn dreſnus o flaen pob un o'r Attebion a berthyn iddo, pan fydder yn holi y rhai fo'n dyſgu'r *Cateciſm*; gan ddywedud, ar ôl iddunt adrodd yr Atteb gyntaf, *Pa beth*, neu *Pa ham, yn ail?* (yn ôl y bo dull a natur y Cweſtiwn.) Ac felly yn y blaen, *Pa ham*, neu *Pa beth, yn drydydd?* &c.

MAE yn ddymunol jawn i *Weinidogjon*, ac *Yſgolfeiſtraid*, a *Phenteuluoedd*, a'r *cyfryw Gyfeilljon y fo'n cyfarfod i adeiladu eu gilydd mewn Cymdeithaſau Crefyddol*, yſtyriaid yn bwyllog, na's gallant, yn unrhyw ffordd arall, wneuthur rhagorach na chyſlelyb Waſanaeth dros DDUW a'u *Prynwr* yr Arglwydd JESU, a thros Eneidjau dynjon, ag yw iddunt, gyd a phob altudrwydd a zêl, holi a chateceiſio yn Egwyddorjon y *Ffydd* y cyfryw ag a allont berſwadio i'w dyſgu; gan eſponio iddunt, cyn belled ag y medront, yn gywraint, Attebion y *Cateciſm*, a'r *Yſgrythurau* ſy'n eu profi, a chymhwyſo'r Athrawjaeth o honunt yn daer wreſog at eu Cydwybodau, fel y byddo'n fudejol ac yn flaſus iddunt.

O PA Weithied garedigol a chymmeradwy ger bron DUW a fyddai, i bawb ag ſy'n caru *Duwjoldeb* eu hunain, gynghori a chymmell, ac annog a dyſgu yn y *Cateciſm*, y nifer fwyaf ag allent o blant a phobl jeuaingc; ac yna eu dwyn at y Gweinidog, i'w holi ar gyhoedd, er adeiladaeth i bawb! Felly y byddech yn Gydweithwyr â CHRIST, ac â'i Weinidogjon ei, i adrywjo Grym *Crefydd* ac Yſbryd *Duwjoldeb* yn y byd drachefn; ac felly y byddech yn offerynnol (trwy Fendith DUW) i ddeffroi amryw ag ſy, trwy anwybodaeth, a dallineb, ac oferymarweddiad, yn myned yn ddigyfro ac yn yſmala yn nefnes beunydd i drueni tragywyddol yn ddiarwybod iddunt, o her-

wydd na ddyſgwyd iddunt Wybodaeth o DDUW, ac na ſedrant yſtyriaid.

NID yw'n rhyſedd ſod cynnifer yn ddiſerch i Ddajoni, yn anoneſt yn eu gorchwyljon a'u galwëdigaethau, yn ammharchus ac yn ranuſudd i'w Rhieni a'u Meiſtriaid, yn ddiyſtyr o Athrawjaeth eu Gweinidogjon, yn dibriſio *Gair* DUW a *Gweddi*, yn hâlogi Sabbothau ac Ordinhadau'r *Eſengyl*, yn wàrſyth, yn boeth, yn llidiog, yn gelwyddog, yn dyngwyr, yn gablwyr, yn aflan, yn feddw, yn barod i ſyned gyd â'r lliaws i bob drygjoni, ac i redeg gyd â'r gwaethaf o ddrwgddynjon i bob rhyw ormod ryſedd; gan na chawſant eu meithrin yn Addyſg ac Ofn yr ARGLWYDD, eithr eu gadael dan lywodraeth Satan, a'u nwydau afreolus eu hunain, ag ſy'n tywys i bob ddwg a diſtryw; ac na laſuriodd neb i blannu Gwybodaeth a Goleuni yſbrydol yn eu Heneidjau, a'u dwyn dan Lywodraeth *Grâs* DUW, fwy nâ phe buaſent blant i'r Cenhedloedd, y rhai nid yw *Gair* DUW yn eu plith, neu eppil anifeiljaid, y rhai nid oes dyall ganddunt.

O ſy Mrodyr! ni ddylai'r pethau hyn fod felly. DUW a ddûg hyn ôll i'r Farn. Ac nid yw'r hyn ôll a enwyd ond rhan fechan o'r ffrwythau gwenwynig ſy'n tarddu oddi wrth eſgeuluſo dyſgu i ddynjon Wybodaeth ſanylaidd o Ffyrdd DUW a gwîr *Ddduwjoldeb*: Canys o blegid yr unrhyw achos, gan mwyaf, y mae cynnifer o ddynjon yn cyfeiliorni mewn *Grefydd*; yn pwyſo ar *ffurf Duwjoldeb, heb ei grym hi; yn ymddiried ynddunt eu hunain eu bod yn gyfiawn, ac yn diyſtyru eraill; yn ymchwyddo o rwâgogoniaul, gan ymannog eu gilydd, gan ymgynfigunu yn erbyn eu gilydd*; ac yn barod i gynhennu ynghylch amrywjoliniynau, athrawjaethau dieithr, a chweſtiynau anſuddjol; o'r rhai'y mae cynfigen, ymryſonau, cableddau, drwgdybïau yn dyfod, a llawer yn gwyro oddi wrth y Gwirjonedd, ac yn taeru pethau nid ydynt yn eu dyall; eu hymadroddion yn yſtu fel cancr, gan dywallt allan eirjau poethïon a chwerw, ag ſy'n cynhyddu mwy o annuwjoldeb; yn rhwygo *Eglwyſydd* CRIST, a Chymmundeb y Seintjau; yn diſtrywio Cariad, ac yn gofod dynjon i amraſaelio y naill yn erbyn y llall, ag y ddylent fod yn cydſiwrio, dan Faner CRIST, yn erbyn eu gelynjon yſbrydol.

Ac yn awr, *Ha Wyr, Frodyr, a Thadau!* attolygaf i chwi yſtyriaid, pa Feddyginiaeth well i ragflaenu'r canlyniadau

'ſgeler

'sgeler hyn, sy'n tysu oddi wrth anwybodaeth diras a chyfeiliorni dynjon dan Weinidogaeth yr *Efengyl*, nag i chwi ôll wneuthur eich rhan i hysforddi'ch Perthynasau, a dysgu iddunt Wybodaeth jachus mewn prŷd: Canys pa fodd y byddant jachus yn Egwyddorjon y *Ffydd*, ac yn gysarwydd yn Nirgelwch *Duwjoldeb*, heb eu hysforddi? Pa fodd y gellwch ddisgwil am gyssur oddi wrthunt, naill ai yn y bŷd hwn, neu pan gysarsyddoch â hwynt yn y Farn olaf, neu edrych ar iddunt fod yn gydwybodol yn eu Dyledswydd i Chwi, i DDUW, ac i Ddynjon eraill, oddigerth i chwi ddysgu eu Dyledswyddau iddunt? A pha fodd y gellwch obeithïo'n wirjoneddus, y'ch bod chwi eich hunain ar y jawn Ffordd i *Fywyd tragywyddol*, tra fyddoch yn llwyr esgeuluso'r Ddyledswydd bwysawr ac arbennig ag sydd arnoch i gynhorthwyo yn y blaen (hyd alloch) Jechydwriaeth eich Perthynasau, ynghylch pa rai y gofyn DUW gyfrif gennych, pa gymmaint a wnaethoch dros eu Heneidjau, a pha boen a gymmerasoch i ddysgu iddunt Ffordd y Bywyd, a'u cadw rhag Marwölaeth dragywyddol?

O DEFFRÔWCH, a chymhellwch y naill y llall yn ddioed i adfywjo a gosod i fynu drachefn, ar ôl ei hîr esgeulusо, y Gwaith angenrheidjol o Gateceisio, a Gweddïo DUW, a'i foli ym mhob teulu! *Cynghorwch ac annogwch bawb eu gilydd; a hynny'n fwy, o gymmaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesâu*, pan na fydd i chwi byth mwy ran na chyfran o ddim ôll a wnêir nac a fwynhêir yn y bŷd hwn: Eithr *ffrwythau'ch Hedifeirwch*, a *gweithredoedd eich Ffydd*, a *llafur eich Cariad*, yn tosturïo wrth yr anwybodus, a'u cippïo allan o'r tân, trwy eu cymmell a'u cymmorth i adnabod CRIST a'i *Athrawjaeth*, a'ch canlyn i'r Bŷd tragywyddol, er Gorfoledd annhraethol i chwi. Pa fodd, attolwg, y dichon eich *Hedifeirwch*, a'ch *Ffydd*, a'ch *Cariad*, fod yn gywir ac yn ddiffuant, heb y cyfryw Ffrwythau, a Gweithredoedd, a Llafur, a berthyn yn briodol iddunt? *Canys pob pren* (a phob Proffeswr *Crefydd* hefyd) *nid yw yn dwyn ffrwythau da, a dorrir i lawr ac a lasgir yn y tân.* Ac ym mha ffordd arall y dichon eich Ffrwythau, a'ch Gweithredoedd, a'ch Llafur chwi, fod gymmaint er *Gogoniant* i DDUW, a Lles i *Eneidjau* dynjon, ag y fydd eich Zêl yn tynnu eraill yn y blaen i Adnabyddïaeth o *Ddysgeidiaeth* CRIST, a'u dwyn i'w cateceisio gan ei Genhadon ef, fel y dysger iddunt hwy ac eraill y pethau a ddylent gredu a gwybod; ac y symu-

muder

muder ymmlaith (o's yw boſſibl) yr anwybodaeth ſydd, ſel tywyllwch dudew, yn gorchguddio'r bŷd; ac yr agorer llygaid y deilljon, i'w troi o dywyllwch i Oleuni, ac o feddiant Satan at DDUW?

ER na thyccïa ſy Nghyngor i berſwadio'r annuwjol, ſy'n ddibris am eu Heneidjau eu hunain, wneuthur dim dros Eneidjau eraill; eithr chwychwi, *rai Annwyl!* ſy'n caru'r Arglwydd JESU, ac yn dymuno Llwyddiant ei *Efengyl* a'i *Eglwys* ef ar y ddaear, bydded i *Gariad* CRIST eich cymmell chwi i drugarhau wrth y cyfryw ag ſy mewn anwybodaeth, dros ba rai y bu CRIST farw: *Megis rhai a gawſoch Drugaredd, trugarhêwch wrth y rhai ſydd mewn ddallineb ac amryfuſedd*; yn enwëdig, eich Plant, a'ch Teulu, a'ch Cyfeilljon; fel y bendithïo eu Heneidjau hwy DDUW am danoch chwi, pan gyfarſyddoch hwynt yn y Bŷd nefaf, o blegid eich Cariad eluſengar tu ag attunt yn y pethau mwyaf angenrheidjol tra'r oeddych chwi a hwyntau yn gydbererinjon yn y bŷd hwn.

ANNWYLYD! gadêwch heibio bob dadleuon anfuddjol, ſy'n rhwyſtro *Duwjoldeb*, ac yn magu anghydfod ac ymbleidjau; y rhai ydynt weithredoedd y cnawd, ac a gondemnir yn yr *Ysgrythur Lân* ymmŷſg y pechodau mwyaf (1 *Cor.* iii. 3. *Gal.* v. 19, 20, 21.) *Byddweh ddilynwyr DUW, fel plant annwyl.* Ac wele, *DUW Cariad yw.* Gweithredoedd o Gariad ſydd fwyaf cymmeradwy yn ei olwg; a'r Ffydd honno'n unig ag ſy'n gweithïo trwy Gariad, ſy'n uno'r *Enaid* â CHRIST: A'ch Cariad i Eneidjau dynjon yw'r dyſtjolaeth bennaf o wirjonedd eich Cariad i DDUW a CHRIST JESU; y rhai a garodd Efe, ac a roddodd ei Hun drofdunt. Ac i'r Cariad hwn y bydd y Gwobrau mwyaf yng Ngogoniant y Nefoedd: Canys *y rhai a dröant lawer i Gyfiawnder, a ſyddant fel y sêr, byth yn dragywydd*, Dan. xii. 3.

Ac ym mha wêdd arall y gellwch ddangos allan yn rhagorach eich Diolchgarwch i DDUW, am anchwiliadwy Olud *Grâs* CRIST, a'ch dygodd chwi i feddu Hawl yn Nonjau'r *Prynedigaeth*, nâ thrwy lafur eich Cariad yn ymegnïo i berſwadio eraill, i fod yn Gydgyfrannogjon o honunt, fel y byddo i chwi a hwyntau gydleiſio Mawl dragywyddol i DDUW?

YSTYRÏWCH, faint a wnaeth yr ARGLWYDD eroch. Onid oddi wrtho Ef y mae'ch Bôd a'ch Bywyd, eich Corph a'ch Henaid, a phob aelod a chynneddf waſanaethgar a berthyn iddunt?

iddunt? Onid oddi wrtho Ef y mae'n dyfod eich hôll Drugareddau, a'ch Gwaredigaethau, a'ch Cyffuron, a'ch Meddïannau, a phob rhyw Freintjau a berthyn i chwi yn y bŷd hwn goruwch y truenufaf a'r mwyaf dirmygedig ymmŷfg yr hôll greadurjaid? *Canys pwy a wnaeth ragoriaeth rhyngoth chwi ac eraill? a pha beth fydd gennych onid a dderbynïafoch?*

Either, uwchlaw pob peth, yftyriwch, pwy fydd yn eich cymhwyfo chwi i Ogoniant a Dedwyddwch y Bŷd trag'wyddol. Lle'r oeddych yn *gaethjan dan feddïant Satan, chwi a brynwyd trwy'r Arglwydd* JESU; *chwi a fywhâwyd, pan oeddych feirwön mewn camwedd a phechod; chwi a achubwyd, pan oeddych golledig dan farn o gondemnïad; tynnwyd ymmaith ddallineb eich calon. Lle'r oeddych yn dywyllwch, yr awr hon Goleuni yn yr* ARGLWYDD *ydych. Yr rhai oeddych gynt yn mhell, yr awr hon a wnaethpwyd yn agos. Chwi a heddychwyd â* DUW *trwy'r Arglwydd* JESU, *pan oeddych wrth naturjaeth yn blant digofaint, a gelynjon mewn meddwl trwy weithredoedd drwg: Chwi a olchwyd oddi wrth eich haflendid trwy Waed* CRIST, *ac â Sanctteiddiwyd trwy'r* Yfbryd Glân, *pan oeddych halogedig a ffiaidd; Chwi a ddilladwyd â gwifgoedd fechydwrjaeth, pan oeddych yn noethïon: Chwi a feddyginiaethwyd, pan oeddych gleifion dan filoedd o glefydau marwöl: Chwi a gyfoethogwyd, pan oeddych yn dlawd. Canys* CRIST, *y Perl a'r Tryfor gwerthfawr, a roddwyd gan* DDUW *i chwi; yr hwn, ac Efe yn gyfoethog, a aeth, er eich mwyn chwi, yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef; yr hwn a wnaethpwyd i chwi gan* DDUW *yn Ddoethineb, ac yn Gyfiawnder, ac yn Sanctteiddrwydd, ac yn Brynedigaeth: Trwy'r hwn y maddeuer eich hôll brechedau, fel na chofier mo honunt i'ch herbyn mwy, ac y gwrandawïr eich Gweddïau; gan ei fod Efe bob amfer yn ymddangos ger bron* DUW *ar eich rhan, ac yn byw byth i eirjol drofoch; a thrwy'r hwn y'ch gwnêir yn Etifeddïon yr hôll Addewidjon, a Gogoniant tragywyddol Teyrnas Nefoedd, y rhai oeddych, megis eraill, dan felldithïon y Ddeddf, ac yn bentewynjon y tân anniffoddadwy; a thrwy'r hwn hefyd, fef trwy* GRIST JESU, *y'ch dygwyd dan ofal neillduol Rhagluniaeth* DUW, *a gwiliadwriaeth ei Angyljon ef: canys Yfbrydjon gwafanaethgar ydynt hwy ôll, a ddanfonir gan* DDUW *i wafanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu fechydwrjaeth. Felly y mae pob peth yn eiddo chwi, a chwithau yn eiddo* CRIST: Canys wrth y rhai fydd yn caru Crist, ac yn credu ynddo, yr wyf yn llefaru'r pethau hyn.

Pwy

Pwy o honoch a ddichon feddwl, mor fawr yw Golud yr Etifeddïaeth, mor rhagorol, ac mor aml a rhyfedd, yw'r Breintjau goruchel a roddir i chwi trwy GRIST JESU; fel na welodd llygad, na chlywödd clust, ac ni ddaeth i gàlon dŷn, y pethau a ddarparodd DUW i'r rhai a'i carant, nes i DDUW eu hegluro i ni trwy ei *Ysbryd* yn yr *Efengyl?* Pwy o honoch (meddaf) a yſtyrïo y pethau hyn yn ei gàlon, a ddichon ymattal rhag llefain allan, a dywedud, *Pa beth* (O DDUW) *ydyw dŷn, pan fawrhêit ef* fel hyn, *a phan oſodit dy feddwl arno? Pa beth a dalaf i'r ARGLWYDD, am ei hôll Ddonjau* hyn *i mi?* Job vii. 17. Salm cxvi. 12. Pa beth a wnâf dros DDUW, yr hwn a'm carodd gymmaint! Ac yn awr, *O Bobloedd Anwyl gan DDUW!* pa beth a gais yr ARGLWYDD gennych, ond bod i chwi garu'r ARGLWYDD eich DUW â'ch hôll gàlon, a'i waſanaethu Ef? A pha beth ſydd fwy cymmeradwy ger bron DUW, neu'n fwy buddjol i chwithau, nag i chwi annog a dyſgu y nifer fwyaf ag a alloch (yn ôl eich grâdd a'ch galwäd) i garu a gwaſanaethu DUW gyd â chwi? Ac yn ddiammau, pa fwyaf awyddus a dïwyd y byddoch i dynnu'ch Perthynaſau a'ch Cyfeilljon i lafurïo am *Râs* DUW a Gwybodaeth, mwyaf fydd cynnydd eich Grâs a'ch Gwybodaeth chwi eich hunain: canys yr hwn a ddyfrhâo, a ddyfrhêir yntef hefyd.

CLYWCH gan hynny, *O Bobloedd!* ac edrychwch am wneuthur felly, *fel y byddo'n ddajonus i chwi, ac fel y cynhyddoch yn ddirfawr. Bydded y Ffurf hyn o Ymadroddïon jachus yn eich càlon: hysbyſwch hwynt i'ch Plant a'ch Tylwyth; crybwyllwch am danunt pan eiſteddoch yn eich teïau, a phan gerddoch ar y ffordd, a phan orweddoch i lawr, a phan gyfodoch i ſynu.* A DUW i Neſoedd a'r Ddaear, yr hwn a ddichon wneuthur yn drarhagorol tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno neu yn eu meddwl, a welo'n dda, yn Ymyſgaroedd ei *Garïad* yng NGHRIST JESU, i gyfarwyddo, ac i gynhorthwyo, ac i ſendithïo a gwobrwyo'n helaeth, y ſawl ôll a wnelo felly! *Amen.*

HYF-

HYFFORDDÏAD I WYBODAETH jachuſol O EGWYDDORJON a DYLEDSWYDDAU CREFYDD.

Cweſtiwn.

BETH yw dy enw di?

Att. N. neu M.

Cweſt. A ydyw'n angenrheidjol i chwi ddyſgu'ch Cateciſm?

Att. Ydyw, yn ddiammau:

1. Er mwyn cyrhaeddyd adnabyddïaeth jachuſol o Dduw a Chriſt.

Joan xvii. 3. *A hyn yw'r bywyd tragywyddol, iddunt dy adnabod di yr unig wîr Dduw, a'r hwn a anfonaiſt ti Jeſu Griſt.*

2. O blegid trwy eſgeuluſo hynny y mae cynniſer yn parhâu yn anwybodus dan weinidogaeth Gair Duw.

2 Dim. iii. 7. *Yn dyſgu bôb amſer, ac heb allu dyfod un amſer i wybodaeth y gwirjonedd.*

Heb.

Heb. v. 12. *Canys lle dylech fôd yn athrawön o ran amſer, y mae arnoch drachefn eiſiau dyſgu i chwi beth ydyw egwyddorjon dechreuad ymadroddjon Duw; ac yr ydych yn rhaid i chwi wrth laeth, ac nid bwyd cryf.*

3. O blegid bôd anwybodaeth yn fforffettu trugaredd, ac yn ennyn digllonedd Duw.

Eſay xxvii. 11. *Canys nid pobl ddyallgar ydynt; am hynny yr hwn a'u gwnaeth ni thoſturia wrthunt, a'r hwn a'u llunjodd ni thrugarha wrthunt.*

Hoſ. iv. 6. *Fy mhobl a ddifethir o eiſiau gwybodaeth: am it ddiyſtyru gwybodaeth, minnau a'th ddiyſtyraf dithau.*

2 Theſ. i. 7, 8, 9. *Yr Arglwydd Jeſu a ymddengys o'r nêf, gyd â'i angyljon nerthol, a thân fflamllyd, gan roddi dial i'r ſawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhâu i efengyl ein Harglwydd Jeſu Griſt: Y rhai a ddioddefant yn gasbedigaeth, ddinyſtr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddi wrth ogoniant ei gadernid ef.* Eſay v. 15, 24, 25.

4. Er mwyn dal yn ddianwadal egwyddorjon jachus y ffydd, a gynhwyſir yn y Catecifm, heb droi oddi wrthunt ar ôl gau athrawjaeth.

2 Dim. i. 13. *Bydded gennyt ffurf yr ymadroddjon jachus, y rhai a glywaiſt gennyf fi, yn y ffydd a'r cariad ſydd yng Nghriſt Jeſu.*

Col. ii. 4. *A hyn yr ydwyf yn ei ddywedud, fel na thwyllo néb chwi ag ymadrodd hygoel.*

Eph. iv. 14. *Fel na byddom mwyach yn blantos, yn bŵbwmman ac yn ein cylchdrwain â phôb awel dyſgeidiaeth, trwy bocced dynjon, trwy gyfrwyſdra, i gynllwyn i dwyllo.* Mat. xxiv. 45. Gal. iv. 8, 9. Rhuf. xvi. 17, 18. 1 Joan iv. 1. Heb. xii. 9.

5. Heb i mi gael fy nghateceiſio a'm holi gan fy athrawön, pa fôdd y medraf holi fy hun, fel y mae Duw yn gorchymmyn?

2 Cor. xiii. 5. *Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd: holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, ſef bôd Jeſu Griſt ynnoch, oddieithr i chwi fôd yn anghymmeradwy?*

Gal. vi. 3, 4. *O blegid o's tybja néb ei fôd yn rhyw beth, ac yntef heb fôd yn ddim, y mae efe yn ei dwyllo ei hun: eithr profed pôb un ei waith ei hun; ac yna y caiff orfoledd ynddo ei hun yn unig, ac nid mewn arall.* 1 Cor. xi. 28, 29.

6. Am ſôd gwybodaeth o 'wyddorjon Crefydd yn angenrheidjol i blant: Y mae Duw yn gorchymmyn i athrawön a rhieni i'n dyſgu ni.

Joan xxi. 15. *Yr Jeſu a ddywedodd wrth Simon Pedr, Simon, mâb Jona, a wyt ti yn fy ngharu i yn ſwy nâ'r rhai hyn? Dywedodd yntef wrtho, Ydwyf, Arglwydd; ti a wyddyſt fy mâd yn dy garu di. Dywedodd yntef wrtho, Portha fy ŵyn.*

Eph. vi. 4. *A chwithau dadau, na yrrwch eich plant i ddigjo, ond maethwch hwynt yn addyſg ac athrawjaeth yr Arglwydd.*

Sal. lxxviii. 5, 6. *Canys efe a ſicrhâodd dyſtjolaeth yn Jacob, ac a oſododd gyfraith yn Iſräel, y rhai a orchymmynnodd efe i'n tadau eu dyſgu i'w plant; fel y gwybyddai'r oes a ddêl, ſef y plant a enid; a phan gyfodent, y mynegent hwy i'w plant hwythau.* Diar. xxii. 6. Deut. xi. 18, 19.

7. Dymma fel y dyſgai'r duwjoljon eu tylwyth gynt: Yr oedd gan *Abraham* drychant a deunaw o *byfforddus* weiſion, a aneſid yn ei dŷ ef; ſef, cynnifer a hynny wedi eu *haddyſgu a'u cateceiſio* yn egwyddorjon Crefydd (fel y barna'r dyſgedigjon ſôd yſtyr y gair yn arwyddocâu, *Gen.* xiv. 14.) Ac am *Abraham* y dywedodd Duw ei hun, *Mi a'i hadwaen ef, y gorchymmyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ôl, gadw o honunt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn; fel y dygo'r Arglwydd ar Abraham yr hyn a lefarodd efe am dano.* Gen. xviii. 19.

A'r brenin *Dafydd* a ddywedai, *Deuwch, blant, gwrandêwch arnaf: dyſgaf i chwi ofn yr Arglwydd,* Sal. xxxiv. 11.

A Chriſt ei hun fy'n mynych ddyſgu ei Ddiſgybljon yn yr Eſengyl ar ddull o gateceiſio; ſef, trwy ofyn cweſtiynau iddunt. *Mat.* xxii. 41, 42. Yr Arglwydd a ofynnodd i'r Phariſêaid, gan ddywedud, *Beth a debygwch chwi am Griſt? mâb i bwy ydyw?* — Mat. xvi. 15. Efe a ofynnodd i'r Dyſgybljon, *Ond pwy meddwch chwi ydwyf fi?* — Marc x. 3. Efe a ofynnodd bryd arall, *Beth a orchymmynnodd Moſes i chwi?* — Luc x. 26. *Pa beth ſydd 'ſgrifennedig yn y gyfraith?* — A Chriſt yn ddeuddeg mlwydd oed, oedd yn y deml yn holi'r doctorjaid, ac yn gofyn cweſtiynau iddunt. *Luc* ii. 56. *Mat.* xxii. 51. *Joan* xvi. 31.

Cw. Pa beth yw ſwm y Cateciſm hwn?

Att. Swm y Cateciſm yw, dyſgu i mi garu Duw a dŷn; yr hwn yw ſwm fy nyledſwydd, tu ag at fwynhâu bywyd tragywyddol.

Luc x. 27, 28. *Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw, â'th hôll gàlon, ac â'th hôll enaid, ac â'th hôll nerth, ac â'th hôll feddwl; a'th gymmydog fel ti dy hun. — Gwnâ hyn, a byw fyddi.*

Cw. Pa lûn y mae'r Cateciſm yn dyſgu ì ti garu Duw?

Att. Mae'r Cateciſm yn dyſgu yn drefnus i mi garu Duw;

1. Trwy oſod o'm blaen ragorfreintjau manteiſiol y gwir Griſtjon, yn annogaethau cryfion, i'm cymmell i garu Duw, trwy addaw Criſt yn Ben, a Duw yn Dâd, a theyrnas nefoedd yn etifeddìaeth i mi; ar yr yſtyr hyn y gwnaethpwyd fi yn ſy Medydd yn aelod i Griſt, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd.

2. Fe'm dyſgir yn y Cateciſm i ymwrthod â'r pethau ſy'n rhwyſtro ac yn cau carïad Duw allan o'm henaid; ſef, gweithredoedd y diafol, gorwagedd y bŷd, a chwantau pechadurus y cnawd.

2 Joan ii. 15. *Na cherwch y bŷd, na'r pethau ſy yn y bŷd. O chân nêb y bŷd, nid yw carïad y Tâd ynddo ef.*

Mat. vi. 24. *Ni ddichon nêb waſanaethu dau arglwydd: canys naill ai efe a gasâ y naill, ac a gâr y llall; ai efe a ymlŷn wrth y naill, ac a eſgeuluſa'r llall. Ni ellwch waſanaethu Duw a Mammon.*

3. Fe'm dyſgir yn y Cateciſm i gredu prîf byngcjau'r ffŷdd, ag y fydd, trwy *garïad*, yn effeithjol er jechydwrjaeth i mi.

Gal. v. 6. *Canys yng Nghriſt Jeſu ni all enwaediad ddim, na dienwaediad, ond ffŷdd yn gweithjo trwy garïad.*

Mae'r cythreuljaid yn credu, ac yn crynu, Jago ii. 19. eithr am nad ydynt yn credu ac yn caru Duw, ni allant fôd yn gadwedig.

4. Fe'm dyſgir pa fôdd i ddangos a thyſtjolaethu fy ngharïad i Dduw; ſef, trwy gadw o honof wynfydedig Ewyllys Duw a'i Orchymmynnion, y rhai a gynhwyſir yn y Cateciſm.

Joan xiv. 15, 21, 23. *O cherwch fi, cedwch fy ngorchymmynnion. Yr hwn ſydd â'm gorchymmynnion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw'r hwn ſydd yn fy ngharu i: A'r hwn ſydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhâd i: a minnau a'i caraf ef, ac a'm hegluraf fy hun iddo. Yr Jeſu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, O's câr nêb fi, efe a geidw fy ngair; a'm Tâd a'i câr yntef; a nyni a ddeuwn atto, ac a wnawn ein trigfa gyd ag ef.* 1 Joan v. 3.

5. Fe'm dyſgir pa fôdd i barhâu hyd y diwedd yng ngharïad Duw;

Duw, a chynhyddu ynddo; ſef, trwy weddïo Duw, ac arferïad parchus o'r Sacramentau ag a ordeinjodd Criſt yn ei Eglwys, ynghylch pa rai yr ydys yn ſy nyſgu yn y rhan olaf o'r Catecïſm.

Cw. Pa ſawl rhan ſy'n y Catecïſm hwn?

Att. Pùmp rhan.

1. O'r dechrau hyd y Gredo, ſydd ynghylch breintjau ac ammodau'r Cyſammod Bedydd.

2. Yr ail ran ſydd ynghylch ffŷdd, a'r pethau ſydd i'w eredu; ſef, *Credo'r Apoſtoljon:* yn yr hon y cynhwyſir prîf byngcjau'r Grefydd Griſtjonogol.

3. Ynghylch ufudd-dod, a'r pethau ſydd i'w gwneuthur; ſef, y *Deg Gorehymmyn:* lle cynhwyſir hôll ddyledſwydd dŷn, yng Ngeirjau Duw ei hun.

4. Ynghylch Gweddi, a'r pethau ddylem ddeiſyf gan Dduw yn ôl ei Ewyllys; ſef, *Gweddi yr Arglwydd:* lle'n dyſgir pa fodd i weddïo am y pethau ſydd yn angenrheidjol.

5. A'r rhan olaf, ſy ynghylch athrawjaeth y ddau Sacrament; *Bedydd*, a *Swpper yr Arglwydd.*

Cw. Pa ham y gofynnir eich enw bedydd, yn y cweſtiwn cyntaf o'r Catecïſm?

Att. 1. Nid yn unig i'm harwain yn dreſnus i ddechrau ymddiddan, trwy ofyn ſy enw yn gyntaf; ond, yn

2. Ac yn bennaf, i dywys yn gymmwys i yſtyrjaid Cyſammod ſy Medydd pan ddodwyd yr enw hwn arnaf.

Cw. Pwy a roddes yr enw hwnnw arnat ti?

Att. Fy Nhadau-bedydd a'm Mammau-bedydd wrth ſy medyddjo, pan y'm gwnaethpwyd yn aelod i Griſt, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd.

Cw. Pa ſawl peth a ddylit yſtyrjaid yn yr atteb hwn?

Att. Tri pheth:

1. Pwy a roddes ſy enw arnaf; ſef, ſy Nhadau-bedydd a'm Mammau-bedydd.

2. Pa bryd y derbynjais ſy enw; ſef, pan y'm bedyddjwyd.

3. Pa freintjau a addewïr i mi trwy Gyſammod ſy Medydd; ſef, cael ſy ngwneuthur yn aelod i Griſt, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd.

Cw. Pa beth yw dyledſwydd Tadau a Mammau-bedydd?

Att. Eu dyled yn bennaf yw y pùm peth hyn:

1. Dwyn tyſtjolaeth i eraill, ac i minnau rhag llaw, i gael o honof, trwy Fedydd, fy nerbyn i Eglwys Duw a Theulu'r Ffydd.

Eſay viii. 2, 3. *A chymmerais yn dyſtjolaeth i mi dyſtjon ffyddlon, Uriah yr offeiriad, a Zechariah fâb Jeberechiah: ac mi a neſêais at y brophwydes; a hi a feichjogodd, ac a eſgorodd ar fâb. Yna y dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Galw ei enw ef Maher-ſalal-haſ-baz.*

2. Atteb ar fy rhan, am gydſynniad cydwybodol â'r Cyfammod hwnnw, yn ôl defod y prîf Griſtjonogjon yn y dyddjau gynt; yr hyn a dybja rhai fôd *Pedr* yn ei feddwl yn 1 *Ped.* iii. 21. 'Cyffelybïaeth cyfattebol i'r hwn ſydd yr awr hon yn 'ein hachub ninnau; ſef, Bedydd (nid bwrw ymmaith fud-'reddi'r cnawd, *eithr ymatteb cydwybod dda tu ag at Dduw)* 'trwy Adgyfodïad Jeſu Griſt.'

3. Dyled fy Nhadau a'm Mammau-bedydd yw, meddu ar wîr Ffŷdd, ac i weithredu eu Ffŷdd yn eu Deiſyfiadau at Dduw am rymmus rinwedd ei Fendith ef i wneuthur yr Ordinhâad hon yn effeithjol i mi.

Canys y dŷn clâf o'r parlys a jachäwyd trwy ffŷdd y rhai a'i dygaſant ef at Griſt, *Mat.* ix. 2. Gwâs y canwrjad a jachäwyd trwy ffŷdd ei feiſtr, *Mat.* viii. 5—13. Merch y wrag o Ganaan, a oedd ddrwg ei hwyl gan gythraul, a jachawyd trwy ffŷdd ei mam, *Mat.* xv. 22—28. Y mâb a oedd ag ysbryd mûd ynddo, a jachäwyd trwy ffŷdd ei dâd, *Marc* ix. 27—27.

4. Rhan a dyled fy Nhadau a'm Mammau-bedydd, a phôb gwîr Griſtjon arall, yw, fy annog i bôb dajoni, ac i'm cymmell i ddyfal gyrchu i Addolïad Duw, a hynny yn ebrwydd; o blegid bôd dŷdd angau a barn yn agos.

Heb. x. 24, 25. *A chyd yſtyrjwn bawb ei gilydd, i ymannog i garïad a gweithredoedd da: heb eſgeuluſo ein cydgynhulliad ein hunain, megis y mae arfer rhai; ond annog bawb ei gilydd: a hynny yn fwy, o gymmaint a'ch bôd yn gweled y dŷdd yn neſâu.*

5. Eu dyledſwydd (trwy iddunt gymmeryd y ſwydd garedigol hyn arnunt) yw, gweled o honunt i mi gael fy addyſgu yn gynnar yn Egwyddorjon Crefydd, fel y gallwyf gydſynniaid ag Ammod fy Medydd, ac i'w wneuthur yn weithred o'm heiddo fy hun; canys nid yw addewïd a rhwymedigaeth neilldual Tadau a Mammau-bedydd yn cyrhaedd ym mhellach nag

y

y dêl y plentyn *mewn oedran* i gymmeryd adduned ei Fedydd arno ei hun, ac y dygir at yr Eſgob i'w gonffirmio ganddo, pan fedro ddywedud ei Gateciſm, *Ffurf Bedydd publig.*

Cw. Pa ham y rhoddwyd dy enw arnat wrth dy fedyddjo?

Att. 1. O blegid mai felly yr oedd yn fwyaf cyttunol â rheol yr Yſgrythur: Canys yr *Juddëwon* a enwënt eu plant pan fyddent yn enwaedu arnunt. Pan enwaedwyd *Abram*, y rhoddodd Duw arno ef ei enw newydd, *Abraham*, Gen. xvii. Yr un amſer ag yr enwaedwyd *Joan Fedyddjwr*, y rhoddwyd ei enw arno yntef, *Luc* i. 59, 60. A Chriſt ei hun hefyd, pan gyflawnwyd wyth diwrnod i enwaedu arno, y galwyd ei Enw ef JESU, *Luc* ii. 21.

2. Fe roddwyd fy enw arnaf wrth fy medyddjo, fel achlyſur gwaſtadol i gofio Cyſammod fy Medydd.

Deut. iv. 23, 24. *Ymgedwch arnoch rhag anghofio cyfammod yr Arglwydd eich Duw, yr hwn a ammododd efe â chwi: O blegid yr Arglwydd dy Dduw ſydd dân yſſol, a Duw eiddigus.*— *Cofiwch yn dragywydd ei gyfammod ef.* 1 Cron. xvi. 15. Deut. xxviii. 58, 59.

3. Fe roddwyd fy enw arnaf wrth fy medyddjo, fel na byddai i nêb lyſenwi, na difrïo, yr Enw anrhydeddus ac arwyddol o'm perthynas gyfammodol â Duw, ag a dderbynjais yn yr Ordinhâad gyflegredig honno, pan y'm bedyddjwyd.

1 Cor. vi. 9, 10. *Na thwyller chwi; ni chaiff na godinebwyr, nac eulynaddolwyr, na thorrwyr-priodas, na maſweddwyr, na gwrrywgydwyr, na lladron, na chybyddjon, na meddwön,* na difenwyr, *na chribddeilwyr, etifeddu teyrnas Dduw.*

Jago ii. 7. *Onid ydynt hwy yn cablu'r Enw rhagorol, yr hwn a elwïr arnoch chwi?*

Y neb a ddygai enw drwg ar forwyn o *Iſräel*, a fforffettai gan ſicl o arian, *Deut.* xxii. 19. Dwy arth o'r goedwig a ddrylljodd ddau blentyn a deugain, am alw *Moclyn*, *Moelyn*, ar ŵr Duw, 2 *Bren.* ii. 23. 24.

4. Fe roddwyd fy enw arnaf wrth fy medyddjo, i'm dyſgu na byddwn yn ddigyfrif o'm henw da; na thynnu ammharch a gwradwydd arno, trwy fy ffolineb fy hun.

Diar. xxii. 1. *Mwy dymunol yw enw da nâ chyfoeth lawer.*

Preg. vii. 1. *Gwell yw enw da nag ennaint gwerthfawr.*

Preg. x. 1. *Gwybed meirw a wnânt i ennaint yr apothe-*

cari ddrewï; felly y gwnâ ychydig ffolineb i ŵr ardderchog, o herwydd doethineb ac anrhydedd. Diar. x. 7.

5. Fe roddwyd fy enw arnaf wrth fy medyddjo, er tyſtjolaeth gyſſurus, o's ffyddlon a fyddaf yng Nghyfammod fy Medydd, fod fy enw'n 'ſgrifennedig yn llyfr y bywyd, ac i fôd i mi ran yn yr Enw ardderchog y mae Duw yn ei roddi i'w blant ei hun.

Eſay lvi. 4, 5. *Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth y rhai disbaddedig, y rhai a gadwânt fy ſabbothau, ac a ddëwiſant yr hyn a ëwyllyſiwyf, ac a ymaflant yn fy nghyfammod i; lë, rhoddaf iddunt yn fy nhŷ, ac o fewn fy magwyrydd, le, ac enw gwell nâ meibjon ae nâ merched: Rhoddaf iddunt enw tragywyddol, yr hwn ni thorrir ymmaith.*

Dad. iii. 5. *Yr hwn ſydd yn gorchfygu, hwnnw a wiſgir mewn dillad gwynjon; ac ni ddileaf ei enw ef ger bron fy Nhâd, a cher bron ei angylion ef.* Dad. iii. 12. Luc x. 20. Mal. iii. 16, 17. Heb. xii. 22, 23. Salm lxxxvii. 5, 6.

6. Fe roddwyd fy enw arnaf wrth fy medyddjo, er rhybudd i mi ochelyd annuwjoldeb, rhag i'm henw gael ei ddileu allan o Gyfammod Duw byth bythoedd.

Ecſod. xxxii. 33. *A dywedodd yr Arglwydd wrth Foſes, Pwy bynnag a bechodd i'm herbyn, hwnnw a ddileaf allan o'm llyfr.*

Dad. xx. 15. *A phwy bynnag ni chafwyd wedi ei 'ſgrifennu yn llyfr y bywyd, bwriwyd ef i'r llyn o dân.* Deut. xxix. 19, 20. Dad. iii. 1.—ii. 9.

7. Fe roddwyd fy enw arnaf wrth fy meddyddjo, i'm cofio yn ddibaid i garu a mawrygu Enw'r Arglwydd, trwy ymddwyn a gwneuthur pôb peth er gogoniant iddo; trwy'r hwn y'm cymmerwyd mewn Cyfammod â Duw, pan dderbynjais fy enw fy hun, a chael o honof fy ngalw ar Enw'r Arglwydd, pan y'm bedyddjwyd yn Enw'r Tad, a'r Mâb, a'r Ysbryd Glân.

Sal. lii. 9. *Clodforaf di yn dragywydd, o herwydd i ti wneuthur hyn: a diſgwiljaf wrth dy enw; canys da yw ger bron dy ſainct.*

Mic. iv. 5. *Canys yr hôll bobloedd a rodiant bôb un yn enw ei dduw ei hun; a ninnau a rodiwn yn Enw'r Arglwydd ein Duw byth ac yn dragywydd.* Can. i. 3. Col. iii. 17. Phil. ii. 9, 10, 11. Sal. xxxiv. 3.

Cw. Pa ham yr wyt yn dywedud, Mi a *wnaethpwyd* yn

aelod

aelod i Grift, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd?

Att. Am na aned fi felly; o blegid yr wyf fi, fel eraill o hiljogaeth naturjol *Adda*, wedi fyrthjo gyd ag ef oddi wrth Dduw, i 'ftâd o bechod a thrueni, ac wrth naturjaeth yn blentyn digofaint.

Rhuf. iii. 10, 23. *Megis y mae yn 'fgrifennedig, Nid oes nêb cyfiawn, nac oes un. O blegid pawb a bechafant, ac ydynt yn ôl am ogoniant Duw.*

Eph. ii. 3. *Ac yr oeddym wrth naturjaeth yn blant digofaint, megis eraill.* Preg. vii. 20 Sal. li. 5.

Cw. Pa fodd y crëwyd *Adda*, ac y fyrthjodd efe oddi wrth Dduw?

Att. 1. Duw ei hun a greodd gorph *Adda* o lwch y ddaear, ac a anadlodd enaid anfarwöl ynddo.

Gen. ii. 7. *A'r Arglwydd Dduw a lunjafai y dŷn o brîdd y ddaear, ac a anadlafai yn ei ffroenau ef anadl einioes; a'r dŷn a aeth yn enaid byw.*

2. Duw a wnaeth ymgeledd cymmwys i *Adda*, trwy gymmeryd afen o hono, pan oedd efe yn cyfgu, ac a'i creodd yn wraig iddo.

Gen. ii. 18, 21, 22. *Hefyd yr Arglwydd Dduw a ddywedodd, Nid da bôd y dŷn ei hunan; gwnâf iddo ymgeledd cymmwys. A'r Arglwydd Dduw a wnaeth i drymgwfg fyrthjo ar Adda, ac efe a gyfgodd; ac efe a gymmerodd un o'i afennau ef, ac a gaeodd gîg yn ei lle hi: A'r Arglwydd Dduw a wnaeth yr afen a gymmerafai efe o'r dŷn yn wraig, ac a'i dûg at y dŷn.*

3. Duw a greodd *Adda* ac *Efa* mewn cyflwr perffaith, yn gyffelyb iddo ei hun, mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a fanctteiddrwydd; ac a roddes i'r dŷn arglwyddiaeth ar greadurjaid y ddaear.

Gen. i. 26, 27. *Duw hefyd a ddywedodd, Gwnawn ddŷn ar ein delw ni, wrth ein llûn ein hunain; ac arglwyddiaethant ar byfg y môr, ac ar ehedïaid y nefoedd, ac ar yr hôll ddaear, ac ar bôb ymlufgïad ar y ddaear. Felly Duw a greodd y dŷn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd efe hwynt.*

Eph. iv. 24. *A gwifgo y dŷn newydd, yr hwn yn ôl Duw a grëwyd mewn cyfiawnder, a gwîr fanctteiddrwydd.* Col. iii. 10.

4. Duw a ofododd *Adda* yng ngardd *Eden*, wedi ei phlannu o bôb rhyw ffrwythau da yn fwyd iddo, a phren y bywyd

yng nghanol yr ardd, i'w gadw'n ſyw bŷth; gan wahardd iddo fwyta o bren gwybodaeth da a drwg, dan boen marwolaeth.

Gen. ii. 8, 9, 16, 17. *Hefyd yr Arglwydd Dduw a blannodd ardd yn Eden o du'r dwyrain, ac a oſododd yno y dŷn a lunjaſai efe. A gwnaeth yr Arglwydd Dduw i bôb pren dymunol i'r golwg a dajonus yn fwyd, ac i bren y bywyd yng nghanol yr ardd, ac i bren gwybodaeth da a drwg, dyfu allan o'r ddaear. A'r Arglwydd Dduw a orchymmynnodd i'r dŷn, gan ddywedud, O bôb pren o'r ardd gan fwyta y gelli fwyta: ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwyta o hono; o blegid yn y dŷdd y bwytâi di o hono, gan farw y byddi farw.*

5. Duw a wnaeth fel hyn Gyfammod bywyd ag *Adda* (a elwïr yn gyffredin y *Cyfammod Gweithredoedd*) a thrwyddo ef â'i holl hiljogaeth naturjol, fel pencenedl a thâd cyffredinol hôll ddynolryw; am hynny, pan hudwyd ef gan y wraig, a'r wraig gan y ſarph, i fwyta'r ffrwyth gwaharddedig, efe a'i hôll hiljogaeth yn ei lwynau ef, a dorraſant y Cyfammod bywyd, ac a ſyrthjaſant dan ddigofaint Duw, i gyflwr o bechod a marwölaeth.

Gen. iii. 6. *A phan welodd y wraig mai da oedd ffrwyth y pren yn fwyd, ac mai têg mewn golwg ydoedd, a'i fôd yn bren dymunol i beri dyall, hi a gymmerth o'i ffrwyth ef, ac a roddes i'w gûr hefyd gyd â hi, ac efe a fwytâodd.*

Rhuf. v. 16, 18, 19. *Canys y farn a ddaeth o un camwedd i gondemnïad.——Trwy gamwedd un y daeth barn ar bôb dŷn i gondemnïad——Trwy anufudd-dod un y gwnaethpwyd llawer yn bechadurjaid.*

1 Cor. xv. 22. *Yn Adda mae pawb yn meirw.*

Cw. Beth a ddigwyddodd i *Adda* ar ôl iddo dorri'r Cyfammod?

Att. 1. Ar ôl i *Adda* ac *Eſa* dorri eu Cyfammod, delw Duw arnunt a ymadawödd, a llygredigaeth pechod a ymddangoſodd yn glau ynthunt: Canys ceiſiaſant, dan gywilydd ac ofn, a ffoſineb càlon, ymguddjo oddi wrth Dduw ym mŷſg prennau'r ardd, a dechreuaſant gyhuddo ei gilydd o flaen Duw.

Gen. iii. 7—12. *A'u llygaid hwy ill dau a agorwyd, a hwy a wybuant eu bôd yn noethïon, ac a wnïaſant ddail y ffigysbren, ac a wnaethant iddunt arffedogau. A hwy a glywſant lais yr Arglwydd Dduw yn rhodio yn yr ardd,*

gyd

gyd ag awel y dŷdd, ac ymguddjodd Adda a'i wraig o olwg yr Arglwydd Dduw, ym mŷſg prennau'r ardd. A'r Arglwydd Dduw a alwödd ar Adda, ac a ddywedodd wrtho, Pa le yr wyt ti? Yntef a ddywedodd, Dy lais a glywais yn yr ardd, a mi a ofnais, o blegid noeth oeddwn, ac a ymguddjais. A dywedodd Duw, Pwy a fynegodd i ti dy fôd yn noeth? ai o'r pren y gorchymmynnaſwn i ti na fwytâit o hono, y bwytêaiſt? Ac Adda a ddywedodd, Y wraig a roddaiſt gyd â mi, hi a roddodd i mi o'r pren, a mi a fwytêais.

2. Pan bechodd ein rhieni cyntaf, prydferthwch eu harddercha wgrwydd a drôdd yn warth iddunt hwy a'u hiljogaeth hefyd.

Gen. iii. 21. *A'r Arglwydd Dduw a wnaeth i Adda ac i'w wraig beiſiau crwyn, ac a'u gwiſgodd am danunt hwy.* —Cyfnewidjad ſalw! crwyn anifeiljaid yn lle delw Duw.

Sal. xlix. 20. *Dŷn mewn anrhydedd, ac heb ddyall, ſydd gyffelyb i anifeiljaid a ddifethir.*

Galar. v. 15, 16. *Darfu llawenydd ein câlon: ein dawns a drôdd yn alar. Syrthſodd y goron oddi am ein pen: gwae ni yn awr bechu o honom!* Sal. viii. 5, 6. Preg. iii. 19.

3. Gwedi i *Adda*, trwy anufudd dod, fforffettu'r trugareddau oedd yn ei fwynhâu, Duw a'i ſymmudodd ef oddi wrthunt, ac a'i gyrrodd allan o'r ardd.

Gen. iii. 23, 24. *Am hynny yr Arglwydd Dduw a'i hanfonodd ef allan o ardd Eden, i laſurjo'r ddaear, yr hon y cymmeraſid ef o honi. Felly efe a yrrodd allan y dŷn, ac a oſododd o'r tu dwyrain i ardd Eden y cerubjaid, a chleddyf tanllyd yſgwydedig, i gadw ffordd pren y bywyd.*

4. Pan bechodd *Adda* ac *Efa* yn erbyn Duw, hwy a gollaſant eu heſmwythfyd, ac a ſyrthjaſant i boen a blinder, hwynthwy a'u hiljogaeth hefyd.

Gen. iii. 16, 19. *Wrth y wraig y dywedodd, Gan amlhâu yr amlhâf dy boenau di a'th feichjogi: mewn poen y dygi blant; a'th ddymuniad ſydd at dy ŵr, ac efe a lywodraetha arnat ti. Ac wrth Adda y dywedodd, Trwy chwŷs dy wyneb y bwytâi fara hyd pan ddychwelech i'r ddaear.*

Job vii. 3, 20. *Felly y gwnaethpwyd i mi feddiannu miſoedd o oferedd, a noſweithjau blinjon a oſodwyd i mi.—Myfi a bechais; beth a wnâf i ti, O geidwad dŷn? pa ham y goſodaiſt fi yn nôd i ti, fel yr ydwyf yn faich i mi fy hun?* Preg. ii. 22, 23.

5. Pan droſeddodd *Adda* Orchymmyn Duw, efe a ſyrthjodd dan ddigofaint a melldith Duw, ynghŷd a'i hôll hiljogaeth; a'r ddaear a felldigwyd o'i achos ef.

Gen. iii. 17, 18. *Hefyd wrth Adda y dywedodd, Am wrando o honot ar lais dy wraig, a bwyta o'r pren am yr hwn y gorchymmynnaſwn i ti, gan ddywedud, Na fwyta o hono; melldigedig fydd y ddaear o'th achos di: trwy lafur y bwytâi o honi hôll ddyddjau dy einioes. Drain hefyd ac yſgall a ddûg hi i ti; a llyſiau'r maes a fwytâi di.*

Gall. iii. 10. *Canys cynnifer ag y ſy o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent: canys 'ſgrifennwyd, Melldigedig yw pôb un nid yw yn aros yn yr hôll bethau a 'ſgrifennir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt.*

6. Pan bechodd *Adda* yn erbyn Duw, a thorri'r Cyſammod, efe a aeth dan farn a gondemniad a marwölaeth, a'i hiljogaeth gyd ag ef.

Gen. ii. 17. *Ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwyta o hono; o blegid yn y dŷdd y bwytâi di o hono, gan farw y byddi farw.*—Ac ar ôl i *Adda* ſyrthjo, Duw a ddywedodd wrtho (*Gen.* iii. 19.) *Prîdd wyt ti, ac i'r prîdd y dychweli.*

Rhuf. v. 12. *Am hynny, megis trwy un dŷn y daeth pechod i'r bŷd, a marwölaeth trwy bechod; ac felly yr aeth marwölaeth ar hôb dŷn, yn gymmaint a phechu o hawb.*—*Wers* 16. Trwy gamwedd un y bu feirw llawer.

Cw. Ym mhwy yſtyr yr ydwyt ti a hôll ddynolryw yn gyfrannog o bechod *Adda*, a elwïr yn gyffredin yn *bechod gwreiddjol?*

Att. 1. Yn y diffyg o gyfiawnder gwreiddjol; ſef, y cyfjawnder a'r perffeithrwydd a oedd gan *Adda*, cyn pechu, tra y parhâodd ar lûn a delw Duw; yr hyn, trwy bechu, a gollodd efe, a phôb dŷn yntho ef; fel nad oes nêb felly yn gyfiawn yr awr hon ar wyneb y ddaear.

Preg. vii. 20. *Canys nid oes dŷn cyfiawn ar y ddaear, a wnâ ddajoni, ac ni phecha.*

Diar. xx. 9. *Pwy a ddichon ddywedud, Mi a lanhêais fy nghâlon; glân wyf oddi wrth fy mhechod?*

Rhuf. iii. 23. *O blegid pawb a bechaſant, ac ydynt yn ôl am ogoniant Duw.* Gal. iii. 22. Sal. xiv. 3. Eſay lxiv. 6.

2. Yn llygredigaeth hôll nàtur dynolryw, oddi fewn ac oddi allan.

Rhuf. iii. 11—18. *Nid oes nêb yn dyall; nid oes nêb yn*

ceiſio

ceiſio Duw. Gŵyroſant ôll; aethant i gŷd yn anſuddjol: nid oes un yn gwneuthur dajoni, nac oes un. Bêdd agored yw eu cêg; a'u tafodau y gwnaethant ddichell; gwenwyn aſpjaid ſydd dan eu gwefuſau: Yrhai y mae en genau yn llawn melldith a chwerwëdd. Buan yw eu traed i dywallt gwaed. Diſtryw ac aflwydd ſydd yn eu ffyrdd: A ffordd tangnefedd nid adnabuant. Nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid.

Gen. vi. 5, 6. *A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygjoni dŷn ar y ddaear, a bôd hôll fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygjonus bôb amſer. Ac ediſarhâodd ar yr Arglwydd wneuthur a hono ef ddŷn ar y ddaear, ac eſe a ymofidjodd yn ei gàlon.* Rhuf. vii. 14, 18, 21, 22, 23. Mat. xv. 19, 20.

3. Trwy fôd yn gydgyfrannog â hwynt o'r côsb a'r trueni tymhorol a thragywyddol ag fy'n dyfod am bechod.

Jôb xiv. 1 *Dŷn a aned o wraig ſydd fyr o ddyddjau, a llawn o helbul.*

Eph. ii. 3. *Yr oeddym ni wrth naturjaeth yn blant digofaint, megis eraill.*

Sal. ix. 17. *Yrhai drygjonus a ymchwelant i uffern, a'r hôll genhedloedd a anghofiant Dduw.*

Cw. Pa lûn yr ymddengys fôd dynolryw, trwy genhedlïad naturjol, yn gyfrannog o bechod a llygredd *Adda?*

Att. 1. Yr oeddym ni yn lwynau *Adda* pan y ſyrthjodd eſe, fel canghennau heb dorri allan, y rhai ni allent ſefyll pan oedd y pren yn cwympo.

Act. xvii. 26. *Canys Duw a wnaeth o un gwaed* (ſef *Adda*) *bôb cenedl o ddynjon, i breſwylio ar wyneb y ddaear.*

Eſay lxiv. 6. *Megis deilen y ſyrthjaſom ni ôll.*

2. Ni allai dynjon halogedig genhedlu hâd dihalog; gan fôd pôb pren yn dwyn ffrwythau, a phôb creadur yn hiljo, yn ôl ei ryw a'i nàtur. Nid yw ſeirph yn dwyn colommennod, na bleiddiaid ŵyn.

Job xiv. 4. *Pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan? Nêb.*

Gen. v. 3. *Ac Adda a genhedlodd fâb ar ei ddelw ei hun.*

3. Mynych y gwelir plant bychain, cyn cyrhaedd oedran i bechu'n weithredol, yn dioddef poen, clefydon, ac angau; yr hyn yw ffrwyth pechod: Ac ni ddichon fôd y ffrwyth, lle ni bo y gwraidd o hono; nac yn gyfiawn i gôsbi, lle ni bo bai.

Rhuf. xi. 23. *Canys cyflog pechod yw marwŏlaeth.*

4. Pe

4. Pe buasai dynolryw yn ddilygredd yn eu genedigaeth naturjol, ni buasai raid wrth ailenedigaeth ysbrydol.

Joan iii. 3. *Jesu a attebodd ac a ddywedodd wrtho, Yn wîr, yn wîr, meddaf i ti, Oddieithr geni dŷn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.*

5. Darsu i'r Seintjau pennaf brofi ac addef llygredigaeth gwreiddjol ynddunt.

Sal. li. 5. *Wele, mewn anwiredd y'm llunjwyd; ac mewn pechod y beichjogodd fy mam arnaf.*

Rhuf. vii. 24. *Ys truan o ddŷn wyf fi: pwy a'm gwared i oddi wrth gorph y farwölaeth hon?*

6. Pe bae dynolryw yn lân oddi wrth bechod gwreiddjol, yna gallasai plant bychain fôd yn gadwëdig heb Grist: Canys efe a ddaeth i'r bŷd i gadw pechadurjaid, ac i geisio'r rhai a gollasid; eithr ni ddichon nac jeuaingc na hên fyned i'r nefoedd ond trwyddo ef.

Act. iv. 12. *Nid oes jechydwrjaeth yn nêb arall; canys nid oes enw arall dan y nêf, wedi ei roddi ym mhlith dynjon, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fôd yn gadwëdig.*

Joan xiv. 6. *Yr Jesu a ddywedodd wrtho ef, Myfi yw'r ffordd, a'r gwirjonedd, a'r bywyd: nid yw nêb yn dyfod at y Tâd, ond trwof fi.*

7. O herwydd y llygredigaeth pechadurus, a drosglwyddir trwy genhedlïad naturjol, y dëwisodd Crist gael ei ddyndod, a'i ddyfodïad i'r bŷd, trwy genhedlïad goruwch naturjol.

Luc i. 35. *A'r angel a attebodd ac a ddywedodd wrthi, Yr Ysbryd Glân a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di: am hynny hefyd y peth sanctaidd a aner o honot ti a elwïr yn Fâb Duw.*

Cw. Ym mha fôdd y trefnodd Duw ymwared i ddŷn allan o'r cyflwr pechadurus a thruenus hwnnw ag y mae dynolryw yntho trwy gwymp *Adda?*

Att. 1. Ar ôl i'n rhieni cyntaf dorri'r Cyfammod Gweithredoedd, efe a amlygodd Duw iddunt y Cyfammod Gras, i achub dŷn oddi wrth ei bechod a'i drueni, *trwy Jesu Grist*; yr hyn a hysbysodd Duw iddunt hwy ar ôl eu cwymp, gan ddywedud, *y byddai i hâd y wraig*, yr hwn yw Crist, *yssigo pen y sarph* a'u twyllasai hwy; sef, y diafol.

Gen. iii. 15. *Gelynjaeth hefyd a osodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy hâd di a'i hâd hithau; efe a yssiga dy ben di, a thithau a yssigi ei sawdl ef.*

Gal.

Gal. iii. 16. *Nid yw yn dywedud, Ac i'w hadau, megis am lawer; ond megis am un, Ac i'th hâd di, yr hwn yw Criſt.*

2. Yn ôl llaw ſe amlygodd Duw yn eglurach ei ëwyllys da, i gymmeryd ei bobl i gyfammod ag ef trwy Jeſu Griſt, ac i roddi Criſt yn Ben cyfammodol, i'w gwaredu hwynt.

Eſay xlii. 6, 7. *Myfi'r Arglwydd a'th elwais* (di, ſef Criſt) *mewn cyfiawnder, ac ymaflaf yn dy law; cadwäf di hefyd, a rhoddaf di yn gyfammod pobl, ac yn oleuni cenhedloedd; i agoryd llygaid y deilljon, i ddwyn allan y carcharor o'r carchar, a'r rhai a eiſteddant mewn tywyllwch o'r carchardy.*

Sal. lxxxix. 19, 27, 28, 29. *Yna'r ymddiddenaiſt mewn gweledigaeth â'th ſainct, ac a ddywedaiſt, Goſodais gymmorth ar un cadarn; dyrchefais un etholedig o'r bobl. Minnau a'i gwnâf yntef yn gynfab, goruwch brenhinoedd y ddaear. Cadwäf iddo fy nhrugaredd yn dragywydd; a'm cyfammod ſydd ſicr iddo. Goſodaf hefyd ei hâd yn dragywydd; a'i orſeddfainc fel dyddjau'r nefoedd.* Eſay xlix. 8, 9. Zech. vi. 12, 13.

3. Ar ôl amlygu Criſt i ffŷdd y Seintjau, trwy gyſgodau a phrophwydoljaethau dan yr Hên Deſtament, pan ddaeth y prŷd pwyntjedig, yr anfonodd Duw ei Fâb i'r bŷd i ddwyn ein gwaredigaeth i ben.

Rhuf. v. 6. *Canys Criſt, pan oeddym ni eto yn weinjaid, mewn prŷd a fu farw dros yr annuwjol.*

Gal. iv. 4, 5. *Pan ddaeth cyflawnder yr amſer, y danfonodd Duw ei Fâb, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf; fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbynjem y mabwyſiad,* 1 Joan iii. 8.—iv. 9, 10. Joan iii. 16.

Cw. Pwy ragorïaeth ſydd rhwng y Cyfammod Grâs a'r Cyfammod Gweithredoedd?

Att. 1. Nid yw anhawdd i'n dyall naturjol ni amgyffred cynhwyſiad y Cyfammod Gweithredoedd, ſef ein dyledſwydd i adnabod Duw, a'i addoli fel y byddai'n dda i ni; eithr y pethau a gynhwyſir yn y Cyfammod Grâs, ynghylch Cariad Duw yng Nghriſt, mewn cyflwr o bechod a thrueni, a'n gwynfyd tragywyddol trwy Griſt yn y bŷd a ddaw, ydynt mor rhyfeddol, mor fawr, ac mor uchel, na's gallaſid eu gwybod, heb i Dduw, trwy ei Ysbryd, eu hamlygu i ni.

1 Cor. ii. 9, 10. *Fel y mae yn 'ſgrifennedig, Ni welodd llygad, ac ni chlywŏdd clûſt, ac ni ddaeth i galon dŷn, y pethau a ddar-*

ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef. Eithr Duw a'u heglurodd i ni trwy ei Ysbryd: Canys yr Ysbryd ſydd yn chwilio pôb peth; ïe, dyſnjon bethau Duw hefyd.

Col. i. 26. *Sef y dirgelwch oedd guddjedig er oeſoedd, ac er cenhedlaethau, ond yr awr hon a eglurwyd i'w ſaint ef.* 1 Dim. iii. 16. 1 Ped. i. 10, 12.

2. *Adda*'r cyntaf yw'n pen cyſammodol ni yn y Cyſammod Gweithredoedd; trwy'r hwn y ſyrthjodd ei hôll hâd naturjol ef dan farn marwölaeth: Eithr Criſt, yr ail *Adda*, yw ein Pen cyſammodol ni yn y Cyſammod Grâs; oddi wrth yr hwn y mae ei hôll hâd ysbrydol ef yn derbyn rhyddhâad a bywyd.

1 Cor. xv. 22, 45. *O blegid megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng Nghriſt y bywhêir pawb. Felly hefyd y mae yn'ſgrifennedig, Y dyn cyntaf Adda a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf yn Ysbryd yn bywhâu.*

Rhuf. v. 17. 18. *Canys o's trwy gamwedd un y teyrnaſodd marwölaeth trwy un, mwy o lawer y caiff y rhai ſydd yn derbyn llioſogrwydd o râs, ac o ddawn cyfiawnder, deyrnaſu mewn bywyd trwy un, Jeſu Griſt. Felly gan hynny, megis trwy gamwedd un y daeth barn ar bôb dyn i gondemniad; felly hefyd trwy gyfiawnder un y daeth y dawn ar bôb dyn i gyfiawnhâad bywyd.*

3. Trwy droſeddïad y Cyſammod Gweithredoedd y daeth dyn dan lygredd pechod, ac anallu i'r hyn ſydd dda; eithr trwy'r Cyſammod Grâs yr adnewyddir dyn i rodio yn ffyrdd Duw.

Ezec. xxxvi. 26, 27. *A rhoddaf i chwi gàlon newydd, yſbryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi; a thynnaf y gàlon garreg o'ch cnawd chwi, ac mi a roddaf i chwi gàlon gig. Rhoddaf hefyd fy Ysbryd o'ch mewn, a gwnâf i chwi rodio yn fy neddfau, a chadw fy marnedigaethau, a'u gwneuthur.*

Joan xv. 5. *O blegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.*

4. Yr oedd y troſedd lleïaf yn taflu dyn dan ddigofaint Duw, a dinyſtr diobaith o ymwared bŷth, yn y Cyſammod Gweithredoedd: eithr yn y Cyfammod Grâs fe wahoddir y pechadurjaid mwyaf i edifarhâu a dychwelyd, tan obaith ſicr o faddeuant a heddwch.

Act. iii. 19. *Edifarhêwch gan hynny, a dychwelwch, fel y dileer eich pechodau.*

Eſay lv. 7. *Gadawëd y drygjonus ei ffordd, a'r gŵr anwir*

wir ei feddyljau; a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arno; ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth.

Eſay i. 18. *Deuwch yr awr hon, ac ymreſymmwn, medd yr Arglwydd: pe byddai eich pechodau fel 'ſgarlad, ânt cyn wynned a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlân.* Joan iii. 16. Mic. vii. 18, 19.

5. Mae Ammod (neu Ofynnïad) y Cyfammod Gweithredoedd, ſef, ufudd-dod perffaith, yn ammhoſſibl i ddŷn yn ei gyflwr llygredig; eithr Ammod (ſef, yr hyn a ofynnir oddi wrthym yn) y Cyfammod Grâs ſydd, trwy Dduw, yn rhâd ac yn eſmwyth: Canys Ffŷdd y mae Duw yn ei ofyn, ac yn addaw ei rhoddi hefyd.

Act. xvi. 31. *A hwy a ddywedaſant, Crêd yn yr Arglwydd Jeſu Griſt, a chadwëdig fyddi.*

Eph. ii. 8. *Canys trwy râs yr ydych yn gadwëdig, trwy ffŷdd; a hynny nid o honoch eich hunain: rhôdd Duw ydyw.*

6. Cyfiawnhâad dŷn ger bron Duw, ſy'n ſefyll ar ei gyfjawnder a'i ufudd-dod ei hun, yn y Cyfammod Gweithredoedd; eithr trwy Gyfryngdod ac Ufudd-dod Criſt yn unig, y cyfiawnhëir pôb dŷn yn y Cyfammod Grâs.

Rhuf. iii. 22, 23, 28. *Sef, cyfiawnder Duw; yr hon ſydd trwy ffŷdd Jeſu Griſt i bawb, ac ar bawb a gredant: canys nid oes gwahanïaeth. O blegid pawb a bechaſant, ac ydynt yn ôl am ogoniant Duw. Yr ydym ni gan hynny yn cyfrif mai trwy ffŷdd y cyfiawnhëir dŷn, heb weithredoedd y ddeddf.*

2 Cor. v. 21. *Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod droſom ni; fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef.* Rhuf. x. 3, 4.—viii. 3, 4. Jer. xxiii. 6. 1 Cor. i. 30.

7. Ar ôl crëu dŷn mewn cyflwr perffaith, ſe adawyd ei barhâad ef, yn y Cyfammod Gweithredoedd, i'w ëwyllys a'i ddëwiſiad ei hun; eithr yn y Cyfammod Grâs ſe roddir ſicrwydd mwy am ein parhâad ni gyd â Duw.

Jer. xxxii. 40. *A mi a wnâf â hwynt gyfammod tragywyddol, na throaf oddi wrthunt heb wneuthur lles iddunt; a mi a oſodaf fy ofn yn eu calonnau, fel na chiljont oddi wrthyf.*

Phil. i. 6. *Gan fôd yn hyderus yn hyn, y bydd i'r hwn a ddechreuodd ynnoch waith da, ei orphen hyd ddŷdd Jeſu Griſt.*

Sal.

Sal. xxxvii. 24. *Er iddo gwympo, ni lwyrfwrir ef i lawr; canys yr Arglwydd ſydd yn ei gynnal ef a'i law.* Joan x. 27, 28, 29. Sal. lxxxix. 23, 31—34. Eſay liv. 8, 9, 10. 1 Joan ii. 19. 2 Dim. ii. 18, 19.

8. Yr oedd dŷn yn unigol, ſef, yn ſefyll wrtho ei hun, yn y Cyfammod Gweithredoedd; eithr yn y Cyfammod Grâs mae Criſt yn rhwym droſom ni, a chyd â ni: Canys trwyddo ef, ac ynddo ef, ac yn gyſſylltedig ag ef, y'n derbynjir ni mewn cyfammod â Duw.

Am hynny y gelwïr ef yn *Angel y Cyfammod*, Mal. iii. 1, *Machnïydd y Cyfammod*, Heb. vii. 22. *Cyfryngwr y Cyfammod*, Heb. ix. 15. a *Phen pôb gŵr*; ſef, Pen cyfammodol pôb un o'r ffyddlonjaid, 1 *Cor.* xi. 3. Ac efe yw'r *Tywyſog mawr, ſy'n ſefyll dros hôll feibjon ei bobl*, Dan. xii. 1. *Pen-tywyſog a Pherffeithydd ein ffŷdd*, ſef, y ffŷdd a ofynnir yn y Cyfammod, yw efe, *Heb.* xii. 2. Ac eſe yw *Michäel*, (ag ſydd, efe) *a'i angyljon, yn rhyfela yn erbyn y ddraig a'i hangyljon*, ym mhlaid pobl y Cyfammod, *Dad.* xii. 7.

Cw. Pa rai yw'r Prif-freintjau y'ch gwnêir chwi yn gyfrannog o honunt trwy'r Cyfammod Grâs, y ſonjaſoch am danunt o'r blaen?

Att. Y tair hyn o Ragorfreintjau mwyaf godidog a rhagorol ag a ddichon fôd; ſef, 1. Cael ſy ngwneuthur *yn aelod i Griſt:* yr hyn yn gyfiawn a enwïr yn flaenaf; o blegid mai'n hundeb ni â Chriſt yw ffynnon a gwraidd yr hôll freintjau eraill.

1 Cor. iii. 22, 23. *Pa un bynnag ai Paul, ai Apôlos, ai Cephas. ai'r bŷd, ai bywyd, ai angau, ai pethau preſennol, ai pethau i ddyfod; y mae pôb peth yn eiddoch chwi; a chwithau yn eiddo Criſt.*

2. Cael ſy ngwneuthur *yn blentyn i Dduw:* Canys plant digofaint ŷm ni wrth nàtur; a thrwy ein hundeb â Chriſt yn unig, y mae ein Mabwyſiad ni.

Joan i. 12. *Ond cynnifer ag a'i derbynjaſant ef, efe a roddes iddunt allu i fôd yn feibjon i Dduw; ſef, i'r ſawl a gredant yn ei Enw ef.* Gal. iii. 26. 1 Joan iii. 1.

3. Cael ſy ngwneuthur *yn etifedd teyrnas nefoedd:* Canys yr Etifeddïaeth ſawr hon ſy'n rhwym wrth Fabwyſiad, ac yn waſtad yn cyd-gerdded.

Rhuf. viii. 17. *O's plant, etifeddïon hefyd; ſef, etifeddo i Dduw, a chyd-etifeddïon â Chriſt; o's ydym yn cyddioddef gyd ag ef, fel y'n cyd-ogonedder hefyd.*

Luc

Luc xii. 32, *Nac ofua, braidd bychan: canys rhyngodd bôdd i'ch Tâd roddi i chwi y deyrnas.*

Cw. A ydyw y fath orchwyl diſtadl ag yw bedyddjo â dwfr, yn fôdd effeithjol i wneuthur dŷn yn gyfrannog o'r Breintjau mawrjon hyn?

Att. 1. Mae'n berygl us jawn i nêb edrych ar Ordinhadau Criſt yn ddiſtadl, neu'n ddirmygus: Canys felly gwnaeth rhai â Chriſt ei hun, er dinyſtr iddunt eu hunain.

1 Cor. i. 23, 24. *Nyni ydym yn pregethu Criſt wedi ei groeſhoeljo, i'r Juddewön yn dramgwydd, ac i'r Groegwyr yn ffolineb. Ond iddunt hwy y rhai a alwyd, Juddewön a Groegwyr, yn Griſt, gallu Duw, a doethineb Duw.*

1 Theſ. iv. 8. *Am hynny y nêb ſydd yn dirmygu, nid dŷn y mae yn ei ddirmygu, ond Duw; yr hwn hefyd a roddes ei Ysbryd Glân ynnom ni.*

2 Pedr ii. 12. *Eithr y rhai hyn, megis anifeiljaid anrheſymmol anjanol, y rhai a wnaed i'w dàl ac i'w difetha, a gablant y pethau ni wyddant oddi wrthunt, ac a ddifethir yn eu llygredigaeth eu hunain.* Jud. 10.

2. Nid trwy'r rhinwedd naturjol, ag ſydd yn y Moddjon a'r Ordinhadau, y maent yn lleſiol i nêb; ond trwy'r Fendith y mae Duw yn ei roddi ar y Moddjon y mae efe yn ordeinjo, ac yn goſod ei Enw arnunt.

Ecſod. xx. 24. *Gwnâ i mi allor brîdd, ac abertha arni.—Ym mhôb man lle y rhoddwyf goffadwrjaeth o'm henw, y deuaf attat, ac y'th fendithjaf.*

2 Cor. x. 4. *Canys arfau ein milwrjaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol, trwy Dduw, i fwrw ceſtyll i'r llawr.*

3. Er diſtadled a fyddo Moddjon Grâs yng ngolwg dŷn, y maent, trwy Fendith Duw, yn effeithjol i'r diben yr ordeinjwyd hwynt, pan jawn-arferir hwynt, yn ôl Ordinhâad Duw.

Edrychïad ar y *ſarph brês* a jachâodd *Iſräel* o loſgfa farwol y *ſeirph tanllyd*, Num. xxi. Udganu â chyrn hyrddod a daflodd i lawr gaerau cryfion *Jericho*, Joſua vi. Trwy biſerau prîdd ac udgyrn, y gyrrwyd byddinoedd mawrjon y *Medianjaid* i ffôi o flaen *Gideon*, Barn vii. A ffôn-daſl, ac ychydig o gerrig llyſnjon, yr achubodd *Dafydd* hôl *Iſräel* o ddwylaw *Goliah* a llû'r *Philiſtiaid*, 1 Sam. xvii. Trwy ymolchi ſeithwaith yn yr *Jorddonen*, mewn ufudd-dod i Air Duw, y glanhäwyd *Naaman* oddi wrth ei wahanglwyf, 2 *Bren.* v.

Trwy

Trwy glai o boeryn y rhoddodd Criſt ei olwg i'r dŷn dall geni, *Joan* ix. Y moddjon a arferir yn ôl Gair yr Arglwydd a fyddant effeithjol, er gwaeled yr olwg arnunt ger bron dynjon, *Sal.* cvii. 20. *Eſay* lv. 11.

4. Anghrediniaeth a chabledd haerllug yw ammau llês Ordinhadau cyſſygredig, pan arferir hwy'n barchus yn ôl Ewyllys Duw; eithr i'r rhai anyſtyrjol, ag a gymmerant Enw'r Arglwydd yn ofer ynddunt, y maent yn ddiles ac yn niweidjol.

2 Cor. ii. 16. *I'r naill yr ydym yn arogl marwölaeth i farwölaeth; ac i'r lleill, yn arogl bywyd i fywyd.*

Dit. i. 15. *Pûr yn ddiau yw pôb peth i'r rhai pûr: eithr i'r rhai halogedig a'r diffydd, nid pûr dim, eithr halogedig yw hyd yn oed eu meddwl a'u cydwybod hwy.*

5. Nid ydys yn dywedud (yn ſy Nghateciſm) mai'r Bedydd a'm gwnaeth *yn aelod i Griſt, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd*; eithr cael ſy nerbyn mewn dull gweledig i hawl o'r Breintjau hyn, ar ſy nerbynjad dan oruwchwiljaeth y Cyfammod Grâs, pan y'm bedyddjwyd; y rhai a arwyddocêir ac a ſeljir i blant y Cyfammod trwy Fedydd, dan rwymedigaeth iddunt hwy i gyflawni'r addunedau a berthyn iddo: Canys arwydd a sêl y Cyfammod, ſy'n cynnwys cyfiawnhâad trwy ffŷdd, yw'r Bedydd yn awr, megis ag oedd yr Enwaedïad gynt.

Rhuf. iv. 11. *Ac efe a gymmerth arwydd yr enwaedïad yn inſel cyfiawnder y ffŷdd.*

6. Pan jawn-arferir Ordinhâad y Bedydd yn barchus yn ôl Ewyllys Duw, mae cyfle i obeithjo y bydd yn fuddjol o'r diwedd, er nad ymddangoſo'r llês o hono yn y man. Mae rhai hadau yn gorwedd yn guddjedig yn y ddaear lawer blwyddyn cyn egino; megis y mae rhai addewïdjon ſicr yng Ngair Duw lawer o amſer cyn eu cyflawni. Mewn môdd dirgelaidd, anhysbys i ni, y mae Grâs Duw, yn yr hedyn o hono, yn uno eneidjau plant ei bobl â Chriſt, ac yn eu cynhyddu ynddo.

Marc iv. 26, 27. *Ac efe a ddywedodd, Felly y mae teyrnas Dduw, fel pe bwrïai ddyn hâd i'r ddaear; a chyſgu, a chodi nôs a dŷdd, a'r hâd yn egino, ac yn tyfu, y môdd nid gŵyr efe.*

1 Ped. i. 23. *Wedi'ch aileni, nid o hâd llygredig, eithr hâd anllygredig.*

Cw. Beth mae eich *gwneuthur yn aelod i Griſt* yn arwyddocâu?

Att.

Att. Mae'n arwyddocâu perthynas ac undeb â Chriſt o ddau fath.

1. Perthynas ac undeb proffeſol â Chriſt; ſef, cael o honof, trwy broffeſiad ſy rhieni o'r Ffŷdd Chriſtjonogol, ſy nerbyn yn aelod i'r Eglwys weledig, a elwïr yn *Gorph Criſt.*

Eph. i. 22, 23. *Duw a'i rhoddes ef yn ben, uwch law ſôb peth i'r eglwys, yr hon yw ei gorph ef.*

1 Cor. xii. 27. *Chwychwi ydych gorph Criſt, ac aelodau o ran.*

2. Perthynas ac undeb ysbrydol â Chriſt; trwy ba un y cyſſylltir ein heneidjau â Chriſt gan ei Ysbryd ef, ac y'n gwneir yn gyfrannog o'r Donjau a bwrcaſodd Criſt, megis y mae'r aelodau yn gyd-gyfrannog â'r corph.

1 Cor. xii. 12, 13. *Canys fel y mae'r corph yn un, ac iddo aelodau lawer, a hôll aelodau'r un corph, cyd bont lawer, ydynt un corph; felly y mae Criſt hefyd. O herwydd trwy un Ysbryd y bedyddjwyd ni ôll yn un corph.* Eph. v. 30. 1 Cor. vi. 15.

Joan xiv. 20. *Y dŷdd hwnnw y gwybyddwch fy môd i yn fy Nhâd, a chwithau ynnof fi, a minnau ynnoch chwithau.* Joan vi. 56. 1 Joan v. 20.

Cw. Beth yw'ch meddwl am fôd *yn aelod i Griſt trwy undeb broffeſol?*

Att. 1. Fy meddwl yw, fôd rhai yn aelodau i Griſt trwy undeb broffeſol oddi allan yn unig, heb berthynas gadwëdigol ac undeb ysbryd â Chriſt oddi mewn: Canys mae'n Harglwydd Jeſu yn cyffelybu'r Efengyl i rwŷd a ſwrïwyd yn y môr, ac a gaſglodd byſgod, drwg a da: A'r Eglwys a gyffelybodd efe i ſaes, lle hauodd y gelyn efrau am ben y gwenith; y rhai a adewïr, trwy Ewyllys Duw, i gyd-dyfu hyd ddïwedd y bŷd. Ac hefyd, lle mae Criſt yn cyffelybu ei hun i winwydden, y mae efe yn ſonjo am ddau fath o ganghennau ynddo; y naill yn ffrwythlon, a'r lleill yn ddiffrwyth, y rhai a dorrir ymmaith. *Joan* xv. 1, 2.

2. Fy meddwl yw, nad yw y rhai ag ſydd yn aelodau i Griſt trwy broffes yn unig, ond megis canghennau mall, neu frigyn wedi ei impjo yn rhîſg pren, heb undeb tyfadwy ag ef; neu lygad gwydr, a choes bren, y rhai nid ydynt yn rhannau bywjol o'r corph: Ac am hynny, fôd y cyfryw ddynjon yn 'ſtâd marwölaeth, heb gael bywyd newydd trwy Griſt.

Dad. iii. 1. *Mae gennyt enw dy fôd yn fyw, a marw ydwyt.*

Dad. ii. 9. *Rhai ſy yn dywedud eu bôd yn Juddewön, ac nid ydynt ond ſynagog Satan.*

Rhuf. ix. 6. *Canys nid Iſräel yw pawb ag ſydd o Iſräel.*

3. Fy meddwl yw, ſôd y cyfryw nad oes ganddunt ond undeb broffeſol yn unig â Chriſt, yn aros dan ddigoſaint Duw, er eu bedyddjo; megis yr *Juddewön* yr enwaedwyd arnunt: Fwytaſant oen y Pâſg, a daenellwyd a gwaed y Cyſammod; a Duw, er hynny, yn anfodlon i'r rhan fwyaf o honunt. 1 *Cor.* x. 1—5.

4. Fy meddwl yw, am y rhai a fedyddjwyd yn unig i undeb broffeſol â Chriſt, y bydd i'r cyfryw, ac i lawer a gyrhaeddaſant i Freintjau uwch nâ Bedydd, ac heb ddyfod i undeb yſbrydol â Chriſt, gael eu rhwygo a'u torri ymmaith oddi wrth ran ac etifeddïaeth plant y Cyſammod, pan ddêl dŷdd y Farn.

Luc xiii. 26, 27. *Yna y dechreüwch ddywedud, Ni a fwytaſom ac a yfaſom yn dy wŷdd di, a thi a ddyſgaiſt yn ein heolydd ni. Ac efe a ddywed, Yr wyf yn dywedud i chwi, Nid adwaen chwi o ba le yr ydych: ewch ymmaith oddi wrthyf, chwi hôll weithredwyr anwiredd.* Mat. vii. 22, 23. Joan xv. 6. Mat. viii. 11, 12.— xxiv. 50, 51.— xiii. 49, 50.

5. Yr wyf yn meddwl, mai arferiad anyſtyrjol ac eſgeulus o Foddjon Grâs a'i gwnâ yn ddiles: Canys am nad ydych yn yſtyrjaid (medd yr Arglwydd) yr *anfonaf felldith arnoch chwi, ac a felldigaf eich bendithjon chwi: ïe, myſi a'u melldigais eiſioes, am nad ydych yn yſtyrjaid,* Mal. ii. 2. Am hynny, gyd â pharch a difrifwch mawr y dylyd bôd ynghylch yr Ordinhâad ſanctaidd honno; gan ddeiſyfu am Râs a Bendith Duw, i weithjo yn yr enaid adnëwydd-deb ysbrydol, heb ba un nid oes ran yng Nghriſt na theyrnas nefoedd.

Joan iii. 5, 6. *Jeſu a attebodd ac a ddywedodd, Yn wîr, yn wîr, meddaf i ti, Oddïeithr geni dŷn o ddwfr ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw. Yr hyn a aned o'r cnawd, ſydd gnawd; a'r hyn a aned o'r Ysbryd, ſydd ysbryd.* 2 Cor. v. 17. Dit. iii. 5.

Cw Pa beth yw'ch meddwl chwi am *undeb ysbrydol â Chriſt*, a arwyddocêir ac y ſeljir i blant Duw trwy gyflawniad parchus o'r Ordinhâad hon?

Att. Mi ddylwn aſtudjo gwybodaeth broſiadol o'm hundeb â Chriſt; o blegid ſy nghyſſur, a'm gobaith, a gwirjonedd ſy mhroffes, ſy'n ſefyll arno. Eithr y mae'r Fraint hon yn fawr ac yn uchel, fel na fedraf ddywedud ond ychydig am dani: Canys,

1. Mae'n

1. Mae'n undeb dirgeledigaethol. Ni fedrwn ni ddyall fath yw'r undeb ſydd rhwng y corph a'r enaid; llai o lawer pa fath yw'r undeb ſydd rhwng yr enaid â Chriſt.

Eph. v. 30, 32. *O blegid aelodau ydym o'i gorph ef, o'i gnawd ef, ac o'i eſgyrn ef. Y dirgelwch hwn ſydd fawr: eithr am Grift, ac am yr eglwys yr wyf fi yn dywedud.*

Col. i. 26, 27. *Sef y dirgelwch oedd guddiedig er oeſoedd, ac er cenhedlaethau, ond yr awr hon a eglurwyd i'w ſaint ef: I'r rhai yr ëwyllyſiodd Duw hysbyſu beth yw golud gogoniant y dirgelwch hyn, ym mhlith y cenhedloedd; yr hwn yw Criſt ynnoch chwi, gobaith y gogoniant.*

2. Mai undeb goruwchnaturiol ydyw; canys Duw ei hun yw'r Awdwr o hono, ſy'n plannu'r enaid yng Nghriſt, a thrwy ei Râs, yn yr adenedigaeth, yn ei uno ag ef.

1 Cor i. 30. *Yr ydych chwi o hono ef* (ſef, o Dduw) *yng Nghriſt Jeſu.*

Mat. xv. 13. *Ac yntef a attebodd ac a ddywedodd, Pôb planhigyn yr hwn ni's plannodd fy Nhâd nefol, a ddïwreiddjir.*

1 Cor. xii. 13. *Trwy un Ysbryd y bedyddjwyd ni oll yn un corph.* 1 Joan iii. 24.—iv. 13.

3. Undeb anrhydeddus ydyw; o blegid trwy'r undeb hyn ein cymmerer yn bobl annwyl ac agos i Dduw.

Deut. iv. 7. *O blegid pa genedl mor fawr, yr hon mae duw iddi yn nesâu atti, fel yr Arglwydd ein Duw ni, ym mhôb dim a'r y galwöm arno?*

1 Pet. ii. 9, 10. *Eithr chwychwi ydych rywogaeth etholedig, brenhinol offeiriadaeth, cenedl ſanctaidd, pobl briodol i Dduw; fel y mynegoch rinweddau yr hwn a'ch galwödd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef: Y rhai gynt nid oeddych bobl, ond yn awr ydych bobl i Dduw: y rhai ni chawſech drugaredd, ond yr awron a gawſoch drugaredd.* Sal. cxlviii. 14.

4. Mae'r undeb hwn yn anddattodol, ac yn parhâu bŷth yn y bywyd hwn, a thrwy angau i'r bŷd a ddaw; na's gall nêb o'n hanfodd ein difuddjo o hono. Er i'n cyrph a'n heneidjau ymddattod oddi wrth ei gilydd ni wahanir y naill na'r llall oddi wrth undeb cyfammodol â'r Arglwydd. Ni phydra rhwymau'r undeb hwn yn y bêdd, ac ni ddeiſyddd yr anhragywyddoldeb. *Duw Abraham, Duw Iſaac, a Duw Jacob, yw'r Arglwydd,* yn awr, filoedd o flynyddoedd ar ôl eu claddu; ac felly y mae, ac y bydd efe, yn Dduw iddunt hwy ac i'w hôll Saint yn dragywydd.

Rhuf. viii. 38, 39. *Canys y mae yn ddiogel gennyf, na all nac angau, nac einioes, nac angyljon, na thywyſogaethau, na meddïannau, na phethau preſennol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw, yr hwn ſydd yng Nghriſt Jeſu ein Harglwydd.*

Eſay liv. 10. *Y mynyddoedd a giliant, a'r brynjau a ſymmudant: eithr fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, a chyfammod fy hêdd ni ſyfl, medd yr Arglwydd ſydd yn trugarhâu wrthyt.* Eſay li. 6. Hoſ. ii. 19, 20.

5. Mae'r undeb ysbrydol hwn â Chriſt yn undeb manteiſiol i ddynjon; o blegid ei ſôd yn rhoddi i ni hawl yng Nghriſt ei hun, trwy'r hwn y mae pôb donjau yn dyfod.

Can. ii. 16. *Fy annwyl'd ſydd eiddof fi, a minnau yn eiddo yntef.*

Cw. Pwy fanteiſion ſy'n dyfod oddi wrth undeb ysbrydol â Chriſt?

Att. Manteiſion mawrjon ac annrhaethol ſy'n dyfod oddi wrth undeb ysbrydol â Chriſt, na's gellir eu cael yn un môdd arall: Canys,

1. Trwy'r undeb hyn ein dygir i gael carennydd a pherthynas fuddjol â Chriſt.

Lle'r ydym wrth naturjaeth yn elynjon mewn meddwl, ac yn blant digofaint, mae Criſt, trwy'r undeb hyn, yn Heddychwr i ni.

Eph. ii. 14. *Canys efe yw ein tangnefedd ni.*

Lle'r ydym yn ddyledwyr i Gyfiawnder Duw, mae Criſt, trwy'r undeb hyn, yn mechnïo droſom; ac am hynny y gweddïa *Dafydd* fel hyn: *Mechnïa dros dy wâs er dajoni,* Sal. cxix 122.

Lle'r ydym trwy bechod yn gleifion truenus i angau, trwy undeb â Chriſt y mae efe yn Feddyg i ni.

Heb. vii. 25. *Efe a ddichon yn gwbl jachâu y rhai trwyddo ef ſy'n dyfod at Dduw.*

Lle'r ydym yn weinjon ac yn wael yn ein Gweddïau, ac yn chwannog i bechu, mae Criſt, trwy'r undeb hyn, yn Eirjolwr droſom.

1 Joan ii. 1, 2. *O pecha nêb, y mae i ni eirjolwr gyd â'r Tâd, Jeſu Griſt y cyfiawn; ac efe yw'r jawn dros ein pechodau ni.*

Lle'r ydym yn y bŷd hwn megis dieithriaid, ac amddifaid, a gweddwon, mae Criſt, trwy'r undeb ymma, yn dyfod yn Gyfaill, yn Frawd, ac yn Briod i ni.

Can.

Can. v. 16. *Dymma fy annwylyd, dymma fy nghyfaill, O ferched Jeruſalem.*

Heb. ii. 11. *Canys yr hwn ſydd yn ſancteiddjo, a'r rhai a ſanctteiddjer, o'r un y maent ôll: am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr.*

Eſay liv. 4, 5. *Nac ofna; canys ni'th gywilyddjir: ac na'th w'radwydder, am na'th wartbruddir: canys ii a angheſſi w'radwydd dy jeuengctid, a gwarthrudd dy weddwdod ni choffi mwyach. Canys dy briod yw'r hwn a'th wnaeth (Arglwydd y lluoedd yw ei enw) dy waredydd hefyd, Sanct Iſrael, Duw'r hôll ddaear y gelwir ef.* Eſay lxii. 3. Jer. iii. 14. Lit. ii. 14.

2. Trwy'r undeb ysbrydol hyn ein derbynjer i gyfrinach garedigol a chymdeithas felus â Chriſt.

1 Joan i. 3. *Yr hyn a welſom ac y glywſom, yr ydym yn ei fynegi i chwi; fel y coffoch chwithau hefyd gymdeithas gyd â ni: a'n cymdeithas ni yn wîr ſydd gyd â'r Tâd, a chyd â'i Fâb ef Jeſu Griſt.*

Can. i. 13. *Fy annwylyd ſydd im' yn bwyſi myrr; rhwng fy mronnau yr erys dros nôs.*

Can ii. 3, 4. *Megis pren afalau ym mŷſg prennau'r coed, felly y mae fy annwylyd ym mhlith y meibjon: bu dda gennyf eiſtedd dan ei gyſgod ef; a'i ffrwyth oedd felus i'm genau. Efe a'm dûg i'r gwindy, a'i faner drofof ydoedd gariad.*

3. Trwy undeb ysbrydol â Chriſt, y'n ſymmudir ni i 'ſtâd a chyflwr newydd a dedwyddol.

Col. i. 13, 21, 22. *Yr hwn a'n gwaredodd ni allan o ſiddiant y tywyllwch, ac a'n ſymmudodd i deyrnas ei annwyl Fâb. A chwithau, y rhai oeddych ddieithrjaid, a gelynjon mewn meddwl, trwy weithredoedd drwg, yr awr hon hefyd a gymmododdefe yng nghorph ei gnawd ef, trwy farwölaeth, i'ch cyflwyno chwi yn ſanctaidd, ac yn ddifeius, ac yn ddiargyoedd ger ei fron ef.* Eph. ii. 4, 5, 6, 12, 13, 19.

4. Megis ag mai trwy nôdd y pren y mae'r gangen yn ffrwythlon, a thrwy gyſſylltïad â'r corph y mae nerth yn yr aelod i weithjo; felly hefyd trwy undeb â Chriſt, y mae Crâs, a gallu i ni, i wneuthur y peth y mae Duw yn ei orchymmyn.

Joan xv. 5. *Myfi yw'r winwydden; chwithau yw'r canghennau. Yr hwn ſydd yn aros ynnof fi, a minnau ynddo yntef, hwnnw ſydd yn dwyn ffrwyth lawer: o blegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.* Rhuf. vii. 4.

5. Trwy undeb â Chriſt, y mae i ni allu i gyd ddioddef ag

ef; fel y'n cyd-ogonedder: Canys y rhai a ragwybu Duw, y rhai hynny hefyd a raglunjodd efe i fôd yn un ffurf a delw ei Fâb (*Rhuf.* viii. 29.) i ddioddef gyd ag ef, i farw gyd ag ef, ac i ddwyn eu croes fel yntef yn y bŷd.

2 Dim. ii. 11, 12. *Gwîr yw'r gair; canys o's buom feirw gyd ag ef, byw fyddwn hefyd gyd ag ef: O's dioddefwn, ni a deyrnafwn gyd ag ef: o's gwadwn ef, yntau hefyd a'n gwâd ninnau.*

6, Trwy undeb â Chrift, y mae magwrjaeth a chynnydd y bywyd ysbrydol yn yr enaid, megis ag y mae meithrin a bywyd yr aelod oddi wrth y corph a'r pen.

Eph. iv. 16. *O'r hwn y mae'r hôll gorph wedi ei gyd-ymgynnull a'i gyd gyffylldu, trwy bôb cymmal cynhaliaeth, yn ôl y nerthol weithrediad ym mefur pôb rhan, yn gwneuthur cynnydd y corph, i'w adeilad ei hun mewn cariad.* Col. ii. 7, 19.

7. Megis y mae'r aelod yn gyfrannog â'r corph, a'r wraig yn gyfrannog â'i phriod; felly, trwy undeb ysbrydol â Chrift, ein dygir i gymmundeb ag ef: fef, i fôd yn gyd-gyfrannog a Chrift o hôll Fendithjon a Donjau'r Prynedigaeth a gynhwyfir yn Addewidjon Duw.

2 Cor. i. 20. *O blegid hôll addewidjon Duw ynddo ef ydynt Ië, ac ynddo ef Amen, er gogoniant i Dduw trwom ni.*

1 Cor. iii. 22, 23. *Y mae pôb peth yn eiddoch chwi; a chwithau yn eiddo Crift; a Chrift yn eiddo Duw.*

Joan i. 16. *Ac o'i gyflawnder ef y derbynjafom ni ôll, a grâs am râs.*

Cw. Pwy Fendithjon a Donjau, neu fanteifion buddjol, yn ychwaneg, y gwnêir chwi yn gyfrannog o honunt trwy undeb â Chrift?

Att. 1. Oddi wrth undeb ysbrydol â Chrift, y mae ein fanctteiddjad ac adnëwydd-deb ein nâtur ni, fel y byddom farw i bechod a byw i gyfiawnder.

Rhuf. xi. 16. *O's fanctaidd y gwreiddyn, y mae'r canghennau hefyd felly.*

Rhuf. vi. 4. *Cladwyd ni gan hynny gyd ag ef trwy fedydd i farwolaeth; fel megis ag y cyfodwyd Crift o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd.* Eph. ii. 10. 2 Ped. i, 4. Gall. ii. 20. Rhuf. viii, 10. 2 Cor. v. 17.

2. Oddi wrth yr undeb hyn y mae maddeuant pechodau, ac ymwared oddi wrth gôsb dragywyddol dyledus am danunt.

Eph. i. 6, 7. *Duw a'n gwnaeth yn gymmeradwy yn yr annwylyd:*

anrhwylyd: yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef; ſef, maddeuant pechodau.

Rhuf. viii. 1. *Nid oes, gan hynny, yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai ſy yng Nghriſt Jeſu, y rhai ſydd yn rhodio, nid yn ôl y cnawd, eithr yn ôl yr ysbryd.* Heb. viii. 10. 1 Theſ. i. 10.

3. Oddi ymma y mae ein cyfiawnhâad ni; canys yr Arglwydd ein cyfiawnder yw Criſt, *Jer.* xxiii. 6.

1 Cor. i. 30. *Yr ydych chwi o hono ef, yng Nghriſt Jeſu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn ſancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth.* Phil. iii. 8, 9. 2 Cor. v. 21. Eſay xlv. 24, 25.

4. Oddi wrth ein hundeb â Chriſt, y mae i ni, ſydd trwy bechod o'n tâd diafol (*Joan* viii. 44.) gael ein mabwyſio yn blant i Dduw.

Gal. iii. 26, 27. *Canys chwi ôll ydych blant i Dduw, trwy ffŷdd yng Nghriſt Jeſu. Canys cynnifer o honoch ac a fedyddiwyd yng Nghriſt, a wiſgaſoch Griſt.* Eph. i. 5.

5. Oddi wrth ein hundeb â Chriſt, y mae i ni gael ei Yſbryd ef, i'n cymmorth a'n cyfarwyddo.

1 Cor. vi. 17. *Ond yr hwn a gyſſylltir â'r Arglwydd, un ysbryd yw.*

Rhuf. viii. 9. *Od oes nêb heb Ysbryd Criſt ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef.* Phil. i. 19. 1 Cor. ii. 12. 1 Joan iv. 13. Eph. iii. 16. 2 Dim. ii. 1.

6. Trwy'n hundeb â Chriſt, y derbyn Duw ein Gweddïau ni, a'n Dyledſwyddau, yn gymmeradwy yn ei olwg.

Joan xv. 7. *O's arhoſwch ynnof fi, ac aros o'm geirjau ynnoch, beth bynnag a ëwyllyſioch, gofynnwch, ac efe a fydd i chwi.* Eph. ii. 18.

7. Oddi wrth ein hundeb â'r Arglwydd Jeſu, y mae angyljon Duw yn gwarchod droſom yn y bŷd peryglus hwn.

Heb. i. 14. *Onid ysbrydjon gwaſanaethgar ydynt hwy ôll, awedi eu danfon i waſanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu jechydwriaeth?*

8. Oddi wrth ein hundeb â Chriſt, y bydd ein cyſſur ni yn nŷdd ein marwölaeth.

Sal. xxiii. 4. *Ië, pe rhodiwn ar hŷd glyn cyſgod angau, nid ofnaf niwaid: canys yr wyt ti gyd â mi; dy wïalen a'th ffŏn a'm cyſſurant.* Heb. ii. 14, 15.

1 Cor. xv. 55—57. *O angau, pa le y mae dy gôlyn? O*

uffern, pa le y mae dy ſuddugoliaeth? Côlyn angau yw pechod, a grym pechod yw'r gyfraith. Ond i Dduw y byddo'r diolch. yr hwn ſydd yn rhoddi i ni ſuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt. 2 Cor. v. 1.

9. Oddi wrth ein hundeb â Chriſt, y bydd i ni adgyfodiad gogoneddus yn niwedd y bŷd; o blegid efe a ddaw i'w ogoneddu yn ei Saint, ac i fôd yn rhyfeddol yn y rhai ôll ſy'n credu yn y dŷdd hwnnw. 2 *Theſ.* i. 10. *Phil.* iii. 21. *Mat.* xiii. 43. 1 *Cor.* xv. 42, 43.

10. Oddi wrth yr undeb hwn â Chriſt, y bydd i ni hyder diofnog yn y Farn.

1 Joan ii. 28. *Ac yr awron, blant bychain, arhoſwch ynddo: fel pan ymddangoſo efe, y byddo hyder gennym, ac na chywilyddjom ger ei fron ef yn ei ddyfodjad.*

11. Oddi wrth undeb ysbrydol â Chriſt, y bydd i ni fynedjad gogoneddus gyd â Chriſt i deyrnas nefoedd; pan ſo eraill yn gorfod myned yn athriſt oddi wrtho.

2 Ped. i. 11. *Canys felly yn helaeth y trefnir i chwi fynedjad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Jeſu Griſt.*

Mat. xxv. 34. *Yna y dywed y Brenin wrth y rhai ar ei ddeheulaw, Deuwch, chwi fendigedigjon fy Nhâd, etifeddwch y deyrnas a barotöwyd i chwi er ſeiljad y bŷd.* Joan xiv. 19. —xvii. 24.

12. Ac yn olaf; y mae ffrwythau melus yr undeb gwynfydedig hwn, yn eu gwerth a'u cyfrif, yn fwy nag y gellir eu hadrodd: Canys megis yr ydym, wrth naturjaeth, yn gyd-gyfrannog ag *Adda*, yn ei gwymp, a'i gôsb; felly y'n gwneir, trwy Râs, yn gyd-gyfrannog â Chriſt, o'r hyn ôll a wnaeth, ac a ddioddefodd, dros ein Jechydwrjaeth: canys drofom ni y cymmerodd efe y gwaith hyn arno.

Joan xvii. 19. *Ac er eu mwyn hwy yr wyf yn fy ſancteiddio fy hun, fel y bônt hwythau wedi eu ſancteiddio yn y gwirionedd.*

Megis yn *Adda* ein halogwyd, y melldithjwyd, ac ein condemnjwyd ni; felly yng Nghriſt y glanhêir, y ſancteiddjer, ac y cyfiawnhêir y pechadurjaid mwyaf, pan ddyger hwy i undeb ag ef.

1 Cor. vi. 11. *A hyn fu rai o honoch chwi eithr chwi a olchwyd; eithr chwi a ſancteiddjwyd; eithr chwi a gyfjawnhäwyd, yn enw yr Arglwydd Jeſu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni.*

Yng

Yng Nghriſt y mae i ni gael drachefn y cwbl a gollaſom yn *Adda*, a llawer ychwaneg; gan fôd Criſt, ein Pen ysbrydol (yn ddigymhariaeth) yn ſwy goludog nag *Adda*, ein pen naturjol, yn ei 'ſtâd orau. Yn ddiammau, y bydd ein hennill, trwy'r undeb hyn â Chriſt, Yn ſwy nâ'n colled yng nghwymp *Adda*.

Joan x 10. *Myfi a ddaethym fel y caent fyuyd, ac y caent ef yn helaethach.*

Rhuf. v. 15. *Eithr nid megis y camwedd, felly y mae y dawn hefyd; canys o's trwy gamwedd un y bu feirw llawer, mwy o lawer yr amlhâodd grâs Duw, a'r dawn trwy râs yr un dŷn Jeſu Griſt, i laweroedd.*

Col. ii. 9, 10. *O blegid ynddo ef y mae hôll gyflawnder y Duwdod yn preſwyljo yn gorphorol: ac yr ydych chwi wedi eich cyflawni ynddo ef, yr hwn yw pen pôb tywyſogaeth ac awdurdod.*

Cw. Yr ydych wedi adrodd llawer o'r Breintjau ſy'n tarddu oddi wrth undeb â Chriſt; attolwg, pwy Ddyledſwyddau y ddylech ddyſgu oddi wrth yr yſtyrjaeth hyn; ſef, eich bôd (o's plant Duw ydych) yn aelodau i Griſt?

Att. 1. Mi ddylwn garu Criſt uwch law pôb peth. Mae'n annaturjol i aelod angharu'r corph neu'r pen: Ac ni's gallaf fôd yn wîr aelod i Griſt, heb ei garu ef â'r carïad mwyaf.

Mat. x. 37. *Yr hwn ſydd yn caru tâd neu fam yn fwy nâ myfi, nid yw deilwng o honof fi: a'r nêb ſydd yn caru mâb neu ferch yn fwy nâ myfi, nid yw deilwng o honof fi.*

1 Cor. xvi. 22. *Od oes nêb nid yw yn caru yr Arglwydd Jeſu Griſt, bydded Anathema Maranatha.* Luc xiv. 26.

2. Mi ddylwn edrych yn ddieſgeulus, nad yw fy ngobaith ar ddim arall am Jechydwriaeth, ond yn unig trwy hawl yng Nghriſt, ac undeb ysbrydol ag ef.

Rhuf. xi. 36. *Canys o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef, y mae pôb peth.*

1 Joan v. 12. *Yr hwn y mae y Mâb ganddo, y mae y bywyd ganddo; a'r hwn nid yw ganddo Fâb Duw, nid oes ganddo fywyd* Act. iv. 12.

3. Mi ddylwn ddwys ymholi, pa un ai mewn gwirjonedd, neu ynteu trwy undeb broffeſol yn unig, yr ydwyf yn aelod i Griſt.

2 Cor. xiii. 5. *Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffŷdd. Holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain; ſef, bôd Jeſu Griſt ynnoch, oddieithr i chwi fôd yn anghymmeradwy?* 1 Joan i. 6, 7.

4. Mi

uffern, pa le y mae dy ſuddugoliaeth? Côlyn angau yw pechod, a grym pechod yw'r gyfraith. Ond i Dduw y byddo'r diolch. yr hwn ſydd yn rhoddi i ni ſuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt. 2 Cor. v. 1.

9. Oddi wrth ein hundeb â Chriſt, y bydd i ni adgyfodiad gogoneddus yn niwedd y bŷd; o blegid efe a ddaw i'w ogoneddu yn ei Saint, ac i fôd yn rhyfeddol yn y rhai ôll ſy'n credu yn y dŷdd hwnnw. 2 *Theſ.* i. 10. *Phil.* iii. 21. *Mat.* xiii. 43. 1 *Cor.* xv. 42, 43.

10. Oddi wrth yr undeb hwn â Chriſt, y bydd i ni hyder diofnog yn y Farn.

1 Joan ii. 28. *Ac yr awron, blant bychain, arhoſwch ynddo: fel pan ymddangoſo efe, y byddo hyder gennym, ac na chywilyddjom ger ei fron ef yn ei ddyfodjad.*

11. Oddi wrth undeb ysbrydol â Chriſt, y bydd i ni fynedjad gogoneddus gyd â Chriſt i deyrnas nefoedd; pan fo eraill yn gorfod myned yn athriſt oddi wrtho.

2 Ped. i. 11. *Canys felly yn helaeth y trefnir i chwi fynedjad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Jeſu Griſt.*

Mat. xxv. 34. *Yna y dywed y Brenin wrth y rhai ar ei ddeheulaw, Deuwch, chwi fendigedigjon fy Nhâd, etifeddwch y deyrnas a barotöwyd i chwi er ſeiljad y bŷd.* Joan xiv. 19. —xvii. 24.

12. Ac yn olaf; y mae ffrwythau melus yr undeb gwynfyddedig hwn, yn eu gwerth a'u cyfrif, yn fwy nag y gellir eu hadrodd: Canys megis yr ydym, wrth naturjaeth, yn gyd-gyfrannog ag *Adda*, yn ei gwymp, a'i gôsb; felly y'n gwneir, trwy Râs, yn gyd-gyfrannog â Chriſt, o'r hyn ôll a wnaeth, ac a ddioddefodd, dros ein Jechydwrjaeth: canys drofom ni y cymmerodd efe y gwaith hyn arno.

Joan xvii. 19. *Ac er eu mwyn hwy yr wyf yn fy ſancteiddio fy hun, fel y bônt hwythau wedi eu ſancteiddio yn y gwirionedd.*

Megis yn *Adda* ein halogwyd, y melldithjwyd, ac ein condemnjwyd ni; felly yng Nghriſt y glanhêir, y ſancteiddjer, ac y cyfiawnhêir y pechadurjaid mwyaf, pan ddyger hwy i undeb ag ef.

1 Cor. vi. 11. *A hyn fu rai o honoch chwi eithr chwi a olchwyd; eithr chwi a ſancteiddjwyd; eithr chwi a gyfjawnhäwyd, yn enw yr Arglwydd Jeſu, a thrwy Yſbryd ein Duw ni.*

Yng

Yng Nghriſt y mae i ni gael drachefn y cwbl a gollaſom yn *Adda*, a llawer ychwaneg; gan fôd Criſt, ein Pen ysbrydol (yn ddigymhariaeth) yn fwy goludog nag *Adda*, ein pen naturjol, yn ei 'ſtâd orau. Yn ddiammau, y bydd ein hennill, trwy'r undeb hyn â Chriſt, Yn fwy nâ'n colled yng nghwymp *Adda*.

Joan x 10. *Myfi a ddaethym fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach.*

Rhuf. v. 15. *Eithr nid megis y camwedd, felly y mae y dawn hefyd; canys o's trwy gamwedd un y bu feirw llawer, mwy o lawer yr amlhâodd grâs Duw, a'r dawn trwy râs yr un dŷn Jeſu Griſt, i laweroedd.*

Col. ii. 9, 10. *O blegid ynddo ef y mae hôll gyflawnder y Duwdod yn preſwyljo yn gorphorol: ac yr ydych chwi wedi eich cyflawni ynddo ef, yr hwn yw pen pôb tywyſogaeth ac awdurdod.*

Cw. Yr ydych wedi adrodd llawer o'r Breintjau ſy'n tarddu oddi wrth undeb â Chriſt; attolwg, pwy Ddyledſwyddau y ddylech ddyſgu oddi wrth yr yſtyrjaeth hyn; ſef, eich bôd (o's plant Duw ydych) yn aelodau i Griſt?

Att. 1. Mi ddylwn garu Criſt uwch law pôb peth. Mae'n annaturjol i aelod angharu'r corph neu'r pen: Ac ni's gallaf fôd yn wîr aelod i Griſt, heb ei garu ef â'r carïad mwyaf.

Mat. x. 37. *Yr hwn ſydd yn caru tâd neu fam yn fwy nâ myfi, nid yw deilwng o honof fi: a'r nêb ſydd yn caru mâb neu ferch yn fwy nâ myfi, nid yw deilwng o honof fi.*

1 Cor. xvi. 22. *Od oes nêb nid yw yn caru yr Arglwydd Jeſu Griſt, bydded Anathema Maranatha.* Luc xiv. 26.

2. Mi ddylwn edrych yn ddieſgeulus, nad yw fy ngobaith ar ddim arall am Jechydwriaeth, ond yn unig trwy hawl yng Nghriſt, ac undeb ysbrydol ag ef.

Rhuf. xi. 36. *Canys o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef, y mae pôb peth.*

1 Joan v. 12. *Yr hwn y mae y Mâb ganddo, y mae y bywyd ganddo; a'r hwn nid yw ganddo Fâb Duw, nid oes ganddo fywyd* Act. iv. 12.

3. Mi ddylwn ddwys ymholi, pa un ai mewn gwirjonedd, neu ynteu trwy undeb broffeſol yn unig, yr ydwyf yn aelod i Griſt.

2 Cor. xiii. 5. *Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffŷdd. Holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain; ſef, bôd Jeſu Griſt ynnoch, oddieithr i chwi fôd yn anghymmeradwy?* 1 Joan i. 6, 7.

4. Mi

4. Mi ddylwn aſtudjo'r gwaſanaethgarwch mwyaf yn ſy ngallu, dros Griſt, a'i Eglwys yn y bŷd. Pa beth na's gwnâ'r aelodau dros y pen a'r corph?

Rhuf. xiv. 7, 8. *Canys nid oes yr un o honom yn byw iddo ei hun, ac nid yw yr un yn marw iddo ei hun. Canys pa un bynnag yr ydym ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw. Am hynny, pa un bynnag yr ydym ai byw ai marw, eiddo yr Arglwydd ydym.* 2 Cor. v, 14, 15.

5. Mi ddylwn ddyſgu byw trwy Ffŷdd ar Griſt, er gwannd a gwaeled ydwyf; ac na wan-obeithjwyf, o blegid nad wyf mor ddonjol ag eraill, ag y welwyf yn llawer rhagorach nâ mi: Canys y mae yng Nghriſt aelodau o amryw raddau; etto i gŷd yn un ag ef: ac ni ddylid diyſtyru y gwannaf o honunt.

1 Cor. xii. 14, 15, 16, 21, 22. *Canys y corph nid yw un aelod, eithr llawer. O's dywed y troed, Am nad wyf law, nid wyf o'r corph; ai am hynny nid yw efe o'r corph? Ac o's dywed y clûſt, Am nad wyf lygad, nid wyf o'r corph; ai am hynny nid yw hi o'r corph? Ac ni all y llygad ddywedud wrth y llaw, Nid rhaid i mi wrthyt; na'r pen 'chwaith wrth y traed, Nid rhaid i mi wrthych. Eithr yn hytrach o lawer, yr aelodau o'r corph y rhai a dybjir eu bôd yn wannaf, ydynt angenrheidjol.*

6. Mi ddylwn ddyſgu adnabod, mor beryglus yw erlid neu ddrygu pobl Dduw; gan mai aelodau Criſt ydynt.

Zech. ii. 8. *Canys fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd; — A gyffyrddo â chwi, ſydd yn cyffwrdd â channwyll ei lygad ef.*

Act. ix. 4, 5. *Ac efe a ſyrthjodd ar y ddaear, ac a glybu lais yn dywedud wrtho, Saul, Saul, pa ham yr wyt yn fy erlid i? Yntef a ddywedodd, Pwy wyt ti, Arglwydd? A'r Arglwydd a ddywedodd, Myfi yw Jeſu, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid. Caled yw i ti wingo yn erbyn y ſymbylau.*

7. Mi ddylwn ddyſgu i fôd, yn ôl fy ngallu, yn gymmwynaſol i bawb o'm cyd-greadurjaid; eithr yn fwy enwedigol i'm cyd-aelodau o Griſt: Canys yr hyn a wnêir iddunt hwy, a wnêir i Griſt ei hun.

Mat. xxv. 34, 35, 40. *Yna y dywed y Brenin wrth y rhai ar ei ddeheulaw, Deuweh, chwi fendigedigjon fy Nhâd, etifeddwch y deyrnas a barotöwyd i chwi er ſeiljad y bŷd.*

Canys

Canys bum newynog, a chwi a roiſoch i mi fwyd: bu arnaf ſyched, a rhoiſoch i mi ddiod: bum ddieithr, a dygoſoch fi gyd â chwi.—Ac efe a ddywed wrthunt, Tn gymmaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch. 1 Cor. xii. 25, 26. Rhuf. xii. 4, 5, 10, 14. Eph. iv. 25. Gal. v. 10.

8. Dyledſwydd proffeſwyr Creſydd yw, byw mewn undeb â'i gilydd; gan ochelyd rhwygo ac archolli corph Criſt, o ba un y maent yn aelodau, ſef, ei Eglwys ef, trwy anghydfod ac ymbleidjau.

Eph. iv. 3—6. *Gan fôd yn ddyfal i gadw undeb yr Yſbryd yng nghwlwm tangneſedd. Un corph ſydd, ac un yſbryd; megis ag y'ch galwyd yn un gobaith eich galwëdigaeth: un Arglwydd, un ffŷdd, un bedydd; un Duw a Thâd ôll, yr hwn ſydd goruwch ôll, a thrwy ôll, ac ynnoch ôll.*

1 Cor. i. 10. *Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, trwy enw ein Harglwydd Jeſu Griſt, ddywedud o bawb o honoch chwi yr un peth, ac na bŷddo ymbleidjo yn eich plith; eithr bôd o honoch wedi eich cyfan-gyſſylltu yn yr un meddwl ac yn yr un farn.*

1 Cor. xi. 16. *Od oes nêb a fyn fôd yn ymryſongar; nid oes gennym ni gyfryw ddefod, na chan eglwyſi Duw.*

Rhuf. xvi. 17. *Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, graffu ar y rhai ſy yn peri anghydfôd a rhwyſtrau, yn erbyn yr athrawiaeth a ddyſgaſoch chwi, a chiljwch oddi wrthunt.* 2 Dim. ii. 16, 17. Joan xvii. 20, 21, 23. Rhuf. xii. 16, 18. 1 Dim. vi. 3, 4, 5. Phil. ii. 2, 3.

9. Mi ddylwn ddyſgu ymgyſſuro yng Nghriſt dan bôb trallodau: Canys megis y mae'r pen a'r corph yn cyd-deimlo a'r aelodau, ac yn goſalu droſtunt; felly hefyd y mae Criſt.

Eſay lxiii 9. *Yn eu hôll gyſtudd hwynt efe a gyſtuddjwyd, ac angel ei gydrychêldeb a'u hachubodd hwynt; yn ei gariad ac yn ei dirgaredd y gwaredodd efe hwynt.*

Heb. iv 15. *Canys nid oes i ni archoffeiriad, heb fedru cyd ddioddef gyd â'n gwendid ni, ond wedi ei demtjo ym mhôb peth yr un ffunyd a ninnau, etto heb bechod.*

10. Mi ddylwn ddyſgu ymddiried yn ddiegwan yng Nghriſt am fywyd tragywyddol: Canys megis mai o'r pen a'r corph mae bywyd yr aelodau; felly hefyd yng Nghriſt y mae bywyd y Criſtjon yn ſicr, pa broſedigaethau neu beryglon bynnag a'i cylchyno.

Col.

Col. iii. 3. *Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddjwyd gyd â Chriſt yn Nuw.*

Joan xiv. 19. *Canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd.* 1 Ped. i. 5.

Gw. Chwi ddywedaſoch, mai'r ajl Ragorfraint a berthyn i chwi trwy Gyſammod eich Bedydd, yw Mabwyſiad; ſef, cael o honoch eich gwneuthur *yn blentyn i Dduw*; pa fath Ragorfraint yw hon?

Att. 1. Rhagorfraint yw hi, ſy'n perthyn i bôb un ag ſydd mewn gwirjonedd yn aelod i Griſt, ac nid i nêb arall; canys trwyddo ef yn unig mae'r Uchel-fraint hyn yn dyfod.

Gal. iii. 26, 27. *Canys chwi ôll ydych blant i Dduw trwy ffŷdd yng Nghriſt Jeſu: canys cynnifer o honoch ag a fedyddjwyd yng Nghriſt, a wiſgaſoch Griſt.*

Joan i. 12. *Cynnifer ag a'i derbynjaſant ef* (ſef, Criſt) *efe a roddes iddunt allu i fôd yn feibjon i Dduw; ſef, i'r ſawl a gredant yn ei enw ef.* Rhuf. ix. 4.

2. Rhagorfraint yw Mabwyſiad, ag ŷ'n tarddu oddi wrth Ewyllys da Duw yn unig.

Eph. i. 5. *Wedi iddo ein rhaglunjaethu ni i fabwyſiad trwy Jeſu Griſt iddo ei hun, yn ôl bodlonrwydd ei ëwyllys ef.*

3. Rhagorfraint uchel ac anrhydeddus yw Mabwyſiad.

1 Joan iii. 1. *Gwelwch pa fath garïad a roes y Tâd arnom, fel y'n gelwïd yn feibjon i Dduw.*

4. Rhagorfraint goſtfawr ydyw, er ei bôd yn dyfod yn rhâd i ni.

Gal. iv. 4, 5. *Danfonodd Duw ei Fâb, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf; fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbynjem y mabwyſiad.* 1 Ped. i. 18, 19.

5. Rhagorfraint yw, na pherthyn i nêb wrth naturjaeth; am hynny y mae Duw yn ein cymhwyſo i'w mwynhâu trwy'r hadgenhedlu.

1 Ped. i. 3. *Yr hwn yn ôl ei fawr drugaredd a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywjol, trwy adgyfodïad Jeſu Griſt oddi wrth y meirw.*

Joan i. 13. *Y rhai ni aned o waed, nac o ëwyllys y cnawd, nac o ëwyllys gûr, eithr o Dduw.* Jago i. 18. 1 Joan v. 1.

6. Rhagorfraint yw, nad ydyw yn diflannu, fel breintjau bŷd hwn; eithr wedi ei ſicrhau trwy Addewïd Duw yn Nyfammod tragywyddol.

2 Cor. vi. 18. *Myfi a fyddaf yn Dâd i chwi, a chwithau*

a fyddwch yn feibjon ac yn ferched i mi, medd yr Arglwydd hollalluog.

7. Mae llawer o freintjau eraill yn cyd gerdded â Mabwyſjad, ac yn perthyn i ddynjon trwyddo.

Cw. Pwy freintjau ſy'n perthyn i ddynjon trwy Fabwyſiad?

Att. 1. Trwy Fabwyſiad ein gwnêir yn gyfrannog o nàtur ac Ysbryd Duw, gan fôd wedi ein hadgenhedlu a'n geni o hono.

2 Ped. i. 4. *Trwy yr hyn y rhoddwyd i ni addewïdjon mawr jawn a gwerthfawr; fel trwy y rhai hyn y byddech gyfrannogjon o'r duwjol anjan.*

2. Trwy Fabwyſiad ein rhyddhêir oddi wrth gaethïwed ac ofn, i nesâu at Dduw yn hyderus, fel plant at eu tâd.

Rhuf. viii. 15, 16. *Canys ni dderbynjaſoch ysbryd caethïwed drachefn i beri ofn; eithr derbynjaſoch Ysbryd mabwyſiad, truy'r hwn yr ydym yn llefain, Abba, Dâd Y mae yr Ysbryd hwn yn cyd-dyſtjolaethu â'n hysbryd ni, ein tôd ni yn blant i Dduw.*

3. Trwy Fabwyſiad y rhoddir Ysbryd Duw, i'n cynhorthwyo a'n cyfarwyddo yn ein Gweddïau.

Rhuf. viii. 26, 27. *A'r un ffunyd y mae'r Ysbryd hefyd yn cynhorthwyo ein gwendid ni. Canys ni wyddom ni beth a weddïom, megis y dylem: eithr y mae'r Ysbryd ei hun yn erfyn drofom ni ag ocheneidjau annbraethadwy. A'r hwn fydd yn chwilio'r calonnau, a ŵyr beth yw meddwl yr Ysbryd; canys y mae efe yn ôl ëwyllys Duw yn erfyn dros y ſaint.*

4. Trwy Fabwyſiad y rhoddir i ni hawl o'r etifeddïaeth fawr y mae Duw yn addaw i'w blant.

Rhuf. viii. 17. *Ac o's plaut, etifeddïon hefyd; fef, etifeddïon i Dduw, a chyd etifeddïon â Chriſt.*

Gal iv. 7. *Felly nid wyt ti mwy yn wâs, ond yn fâb; ac o's mâb, etifedd hefyd i Dduw trwy Griſt.*

5. Trwy Fabwyſiad y mae Duw yn dyfod yn Dâd i ni, ac yn ymddwyn fel Tâd tu ag attom.

Joan xx. 17. *A'r Jeſu a ddywedodd, Yr wyf yn dyrchafu at fy Nhâd i a'ch Tâd chwithau, a'm Duw i a'ch Duw chwithau.*

Cw. Ym mha fôdd y mae Duw yn ymddwyn fel Tâd tu ag at ei bobl?

Att. 1. Mae Duw, fel Tâd, yn diwallu anghenjon ei blant, ac yn gofalu drofdunt.

Mat.

Mat. vi. 31, 32. *Am hynny na ofelwch, gan ddywedud, Beth a fwytäwn, neu beth a yfwn, neu â pha beth yr ymddilladwn? (canys yr hôll bethau hyn y mae'r cenhedloedd yn eu ceisio) o blegid gŵyr eich Tâd nefol fod arnoch eisiau'r hôll bethau hyn.* Sal. lxxxiv. 11.

2. Mae Duw, fel Tâd, yn cynghori ac yn dysgu ei blant.

Sal. xxxii. 8. *Cyfarwyddaf di, a dysgaf di yn y ffordd yr elech: â'm llygad arnat y'th gynghoraf.*

Esay liv. 13. *Dy hôll feibjon hefyd fyddant wedi eu dysgu gan yr Arglwydd; a mawr fydd heddwch dy feibjon.* Esay xlviii. 17. Joan vi. 45. 1 Thes. iv. 9. Hos. xi. 3.

3. Mae Duw, fel Tâd, yn ceryddu ei blant er llês iddunt.

2 Sam. vii. 14. *Myfi a fyddaf iddo ef yn dâd, ac ynt'f fydd i mi yn fâb. O's trosedda efe, mi a'i ceryddaf â gwïalen ddynol, ac â dyrnodjau meibjon dynjon.*

Heb. xii. 6, 7. *Canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu; ac yn fflangellu pôb mâb a dderbynjo. O's goddefwch gerydd, y mae Duw yn ymddwyn tu ag attoch megis tu ag at feibjon: canys pa fâb fydd, yr hwn nid yw ei dâd yn ei geryddu?*

4. Mae Duw, fel Tâd, yn tosturïo wrth ei blant, ac yn eu harbed hwynt.

Sal. ciii. 13. *Fel y tosturïa tâd wrth ei blant, felly y tosturïa'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.*

Mal. iii. 17. *A lyddant eiddo fi, medd Arglwydd y lluoedd, y dŷdd y gwnelwyf briodoledd: arbedaf hwynt hefyd, fel yr arbed gŵr ei fab fydd yn ei wasanaethu.*

5. Mae Duw, fel Tâd, yn diddanu ac yn gwaredu ei blant.

Esay li. 12. *Myfi, myfi yw yr hwn a'ch diddana chwi: pwy wyt ti, fel yr ofnit ddŷn yr hwn fydd marw, a mâb dŷn yr hwn a wnêir fel glaswelldyn?* 2 Cor. i. 4, 5.

6. Mae Duw, fel Tâd, yn gwrando deisyfiadau ei blant, ym mhôb peth da ag a geisiant ganddo.

1 Joan v. 14, 15. *A hyn yw'r hyfder fydd gennym tu og atto ef, ei fod ef yn ein gwrando ni, o's gofynnwn ddim yn ôl ei ewyllys ef. Ac o's gwyddom ei fod ef yn ein gwrando ni, pa beth bynnag a ddeisyfom, ni a wyddom ein bod yn cael y deisyfiadau a ddeisyfiasom ganddo.*

Mat. vii. 7, 8, 11. *Gofynnwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi. Canys pôb un sy'n gofyn, sy'n derbyn; a'r neb sy'n ceisio, sy'n cael;*

ac

ac i'r hwn ſydd yn curo, yr agorir.—O's chwychwi, a chwi yn ddrwg, a fedrwch roddi rhoddïon da i'ch plant, pa faint mwy y rhydd eich Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd bethau da i'r rhai a'i ſynnant iddo?

7. Mae Duw, fel Tâd, yn cofio am ei blant, ac yn eu hamddiffyn hwy.

Eſay xlix. 15. *A anghofia gwraig ei phlentyn ſugno, fel na thoſturïo wrth fâb ei chroth? ïe, hwy a allant anghofio; etto myfi nid anghofiaf di.*

Sal. xci. 9, 10, 11. *Am i ti wneuthur yr Arglwydd fy noddfa, ſef y Goruchaf, yn breſwylfa i ti; ni ddigwydd i ti niwaid, ac ni ddaw plâ yn agos i'th babell: Canys efe a orchymmyn i'w angyljon am danat ti, dy gadw yn dy hôll ffyrdd.* Sal. cxxv. 2. 1 Ped. iii. 13. Mat. xviii. 14.

Cw. Pa rai yw'r dyledſwyddau a ddylech ddyſgu oddi wrth y Rhagorfraint hon o Fabwyſiad; ſef, cael o honot, trwy Griſt, dy wneuthur *yn blentyn i Dduw?*

Att. 1. Fy nyledſwydd yw, diolch i Dduw am dreſnu'r fath Fraint i mi, a oeddwn, wrth nâtur, yn elyn iddo.

Col. i. 21. *A chwithau, y rhai oeddych ddieithrjaid, a gelynjon mewn meddwl, trwy weithredoedd drwg, yr awr hon hefyd a gymmododdd efe.*

2 Cor. ix. 15. *I Dduw y byddo'r diolch, am ei ddawn anrhaethol.* Dad. vii. 11, 12.

2. Fy nyledſwydd yw, ymddwyn yn barchus tu ag at y duwjoljon, gan eu bôd yn blant i Dduw.

Sal. xv. 1, 4. *Arglwydd, pwy a drîg yn dy babell? pwy a breſwylja ym mynydd dy ſanctaiddrwydd?—Yr hwn y mae'r drygjonus yn ddirmygus yn ei olwg; ond a anrhydedda y rhai a ofnant yr Arglwydd.*

3. Fy nyledſwydd yw, dyſgu bod yn gyſſurus ym mhôb cyflwr, gan fôd Duw yn Dâd i mi.

Sal. lxviii. 5. *Tâd yr amddifaid, a Barnwr y gweddwön, yw Duw yn ei breſwylfa ſanctaidd.*

Eſay lxiii. 16. *Canys ti yw ein Tâd ni, er nad edwyn Abraham ni, ac na'n cydnebydd Iſräel: ti, Arglwydd, yw ein Tâd, ein gwaredydd; dy enw ſydd erjôed.*

4. Fy nyledſwydd yw, o's yw Duw yn Dâd i mi, i fyw'n addas i'r Uchelfraint hon, gan ochelyd drwg arferjon plant y byd hwn.

Deut. xiv. 1. *Plant ydych chwi i'r Arglwydd eich Duw,*

na

na thorrwch mo honoch eich hunain, ac na wnewch foelni rhwng eich llygaid, dros y meirw.

Rhuf. xii. 2. *Na chydymffurfiwch â'r bŷd hwn, eithr ymnewidjwch trwy adnëwyddïad eich meddwl; fel y profoch beth yw dajonus, a chymmeradwy, a pherffaith ëwyllys Duw.* 2 Cor. vi. 18.— vii. 1. 1 Pedr i. 14—16.

5. Fy nyledſwydd, o's yw Duw yn Dâd i mi, yw, dangos pôb parch ac anrhydedd iddo.

Mal. i. 6. *Mâb a anrhydedda ei dâd, a gweinidog ei feiſtr: ac o's ydwyf fi dâd, pa le y mae fy anrhydedd? ac o's ydwyf fi feiſtr, pa le y mae fy ofn?* Math. v. 16.—xxiii 9. Deut. xxxii. 6.

6. Fy nyledſwydd, o's yw Duw yn Dâd i mi, yw, derbyn cyngor a dilyn eſampl fy Nhâd.

Diar. i..8. *Fy mâb, gwrando addyſg dy dâd.*

Eph. v. 1. *Byddwch gan hynny ddilynwyr Duw, fel plant annwyl.*

7. Fy nyledſwydd yw, gweddïo yn hyderus (trwy ffŷdd yng Nghriſt) fel plant yn llefain ar eu Tâd, na thawänt nes cael eu gwrando.

Jer. iii. 19. *Ac a ddywedais, Ti a elwï arnaf fi, Fy nhâd, ac ni throi ymmaith oddi ar fy ôl i.*

Math. vi. 9. *Am hynny gweddïwch chwi fel hyn; Ein Tâd, yr hwn wyt yn y nefoedd.* Luc xi. 13.

8. Fy nyledſwydd i, ac eraill ag ſy'n blant i Dduw, yw, byw fel brodyr, yn garedigol ac yn garuaidd i'w gilydd; gan mai plant yr un Tâd ydym.

Act. vii. 26. *Ha wŷr, brodyr ydych chwi; pa ham y gwnewch gam â'i gilydd?*

Mal. ii. 10. *Onid un Tâd ſydd i ni ôll? onid un Duw a'n creodd ni? pa ham y gwnawn yn anffyddlon bôb un yn erbyn ei frawd?* 1 Theſ. iv. 9, 10. Joan iii. 35. 1 Joan iii. 14, 15 —iv. 7, 8, 20, 21. v. 1.

9. Fy nyledſwydd yw, caru Criſt; trwy'r hwn y'm gwnêir yn blentyn i Dduw.

Joan viii 42. *Yna y dywedodd yr Jeſu wrthunt hwy, Pe Duw ſyddai eich Tâd, chwi a'm carech i.*

10. Fy nyledſwydd yw, mynych ymarferu â Gair Duw trwy'r hwn yr adgenhedlir plant Duw, a thrwy'r hwn y maent iddunt gael eu meithrin.

Jago i. 18, 21. *O'i wîr ëwyllys yr ennillodd efe nyni trwy*

air y gwirjonedd, fel y byddem ryw flaenffrwyth o'i greadurjaid ef. O herwydd pa ham rhoddwch heibio bôb budreddi, a helaethrwydd malais, a thrwy addfwynder derbynjwch yr impjedig air, yr hwn a ddichon gadw eich eneidjau.

1 Pedr ii. 2. *Fel rhai bychain newydd eni, chwennychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynhyddoch trwyddo ef.*

11. Fy nyledſwydd yw, ymdrechu'n orcheſtol yn erbyn pôb profedigaethau a ſyddo yn ſy rhwyſtro yng Ngwaſanaeth Duw; fel na byddo i mi bŷth fforffettu'r Uchelfraint hon, o fôd *yn blentyn i Dduw.*

Dad. xxi. 7. *Yr hwn ſydd yn gorchfygu, a etifedda bôb peth: ac mi a fyddaf iddo ef yn Dduw, ac yntef a fydd i minnau yn fâb.*

12. Fy nyledſwydd yw, dilyn Sancteiddrwydd, a chynhyddu ynddo; fel y byddwyf gyffelyb i'm Tâd.

2 Cor. vi. 18. *Mi a fyddaf yn Dâd i chwi, a chwithau a fyddwch yn blant i mi, medd yr Arglwydd hollalluog.*

2 Cor. vii. 1. *Am hynny, gan fod gennym yr addewidjon hyn, annwylyd, ymlanhäwn oddi wrth bôb halogrwydd cnawd ac yſbryd, gan berffeithjo ſanctteiddrwydd yn ofn Duw.*

Math. v. 48. *Byddwch chwi gan hynny yn berffaith, fel y mae eich Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd yn berffaith.*

Cw. Chwi a ddywedaſoch am drydydd Rhagorfraint, a gynhwyſir yn y Cyfammod a arwyddocäwyd yn eich Bedydd, ſef, bod aelodau Criſt, a phlant Duw, yn cael eu gwneuthur hefyd yn etifeddïon teyrnas nefoedd; pa beth yw *Teyrnas Nefoedd?*

Att. Mae *Teyrnas Nefoedd*, neu Deyrnas Dduw, yn yr yſtyr helaethaf, yn arwyddocâu y pedwar peth hyn.

1. *Teyrnas Rhaglunjaeth Duw*; trwy ba un y mae eſe yn teyrnaſu ar bôb peth yn y nefoedd a'r ddaear, ac yn llywodraethu dros bôb un o'r hôll greadurjaid ſydd ynddunt.

Salm ciii. 19. *Yr Arglwydd a barotôdd ei orſeddfa yn y nefoedd; a'i frenhinjaeth ef ſydd yn llywodraethu ar bôb peth.*

Dan. iv. 34, 35. *Ei lywodraeth ef ſy'n llywodraeth dragywyddol, a'i frenhinjaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.—Yn ôl ei ëwyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu'r nefoedd, ac â thrigolion y ddaear; ac nid oes a attaljo ei law ef, neu a ddywedo wrtho, Beth yr wyt yn ei wneuthur?* 1 Cron. xxix. 11, 12.

2. Mae *Teyrnas Nefoedd* yn arwyddocâu *Eglwys weledig Criſt ar y ddaear dan yr Efengyl*; lle cynhwyſir nid yn unig y gwîr dduwjol, ond llawer o rai eraill hefyd, fel efrau ym mŷſg y gwenith.

Math. xiii. 24, 25, 26. Criſt a ddywedodd, *Teyrnas nefoedd ſydd gyffelyb i ddŷn a hauodd hâd da yn ei faes. A thra yr oedd y dynjon yn cyſgu, daeth ei elyn ef, ac a hauodd efrau ym mhlith y gwenith, ac a aeth ymmaith. Ac wedi i'r eginyn dyfu, a dwyn ffrwyth, yna'r ymddangoſodd yr efrau hefyd.* Math. viii. 12.—xxi. 43. Luc ix. 27.

3. Mae *Teyrnas Nefoedd* yn arwyddocâu *Teyrnaſiad Grâs Duw yng nghalonnau ei bobl*; y rhai a elwïr yn gyffredin, *Yr Eglwys anweledig.*

Luc xvii. 21. *Ac ni ddywedant, Wele ymma, neu wele accw: canys wele, teyrnas Dduw, o'ch mewn chwi y mae.*

Rhuf. xiv. 17. *Canys nid yw teyrnas Dduw fwyd a diod, ond cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân.* 1 Cor. iv. 20. Math. vi. 10.

4. Mae *Teyrnas Nefoedd*, yn yr yſtyr uchaf, yn arwyddocâu, *y lle gwynſydedig hwnnw a ddarparodd Duw i obrwyo ei bobl*; lle mae Gogoniant ei Sancteiddrwydd ef yn llewyrchu'n bennaf.

Eſay lxiii. 15. *Edrych o'r nefoedd, a gwêl o annedd dy ſancteiddrwydd a'th ogoniant.*

Math. v. 12. *Byddwch lawen a hyfryd; canys mawr yw eich gwobr yn y nefoedd.*

Cw. Ym mha beth y bydd happuſrwydd plant Duw yn Nheyrnas Nefoedd?

Att. 1. Mae happuſrwydd plant Duw yn Nheyrnas Nefoedd, mewn rhan, yn hyfrydwch gogoneddus y lle hwnnw a ddarparodd eu Tâd iddunt.

Dad. xxi. 10, 11. *Ac efe a'm dûg i ymmaith yn yr ysbryd i fynydd mawr ac uchel, ac a ddangoſodd i mi y ddinas fawr, Jeruſalem ſanctaidd, yn diſgyn allan o'r nêf oddi wrth Dduw, a gogoniant Duw ganddi: a'i golau hi oedd debyg i faen o'r gwerthfawroccaf, megis maen jaſpis, yn loyw fel griſtal.—Nid rhaid yno wrth haul na lleuad i oleuo ynddi; canys gogoniant Duw a'i goleua hi; a'i goleuni hi ydyw'r Oen.* Wers 23.

Salm xvi. 6. *Y llinynnau a ſyrthjodd i mi mewn lleoedd hyfryd; ïe, y mae i mi etifeddiaeth dêg.* Salm lxxxiv. 4, 10.

2. Mae

2. Mae happuſrwydd plant Duw yn Nheyrnas Nefoedd, ym mherffeithrwydd eu cyflwr, wedi eu llwyr waredu oddi wrth eu hôll bechodau, ac oddi wrth eu hôll drallodau gynt.

1 Cor. vi. 11. *Hwy a olchwyd, hwy a ſanctteiddjwyd, hwy a gyfiawnhäwyd yn enw'r Arglwydd Jeſu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni.*

Eph. v. 25—27. *Trwy Griſt, yr hwn a'u carodd hwynt, ac a roddodd ei hun droſtunt, i'w ſanctteiddjo a'u glanhâu; y byddant yn ogoneddus, heb na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw, eithr yn ſanctaidd ac yn ddifeïus.*

Dad. vii. 14, 16, 17. *Y rhai hyn yw y rhai a ddaethant allan o'r cyſtudd mawr, ac a olchaſant eu gynau, ac a'u cannaſant hwy yng ngwaed yr Oen. Ni fydd arnunt na newyn na ſyched mwyach; ac ni ddiſgyn arnunt na'r haul, na dim gwrês. O blegid yr Oen, yr hwn ſydd yng nghanol yr orſeddfaingc, a'u bugeilja hwynt, ac a'u harwain hwynt at ffynhonnau bywjol o ddyfroedd: a Duw a ſŷch ymmaith bôb deigr oddi wrth eu llygaid hwynt.*

Dad. xxi. 4. *A marwölaeth ni bydd mwyach, na thriſtwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach.* Eſay xxv. 8.

3. Mae happuſrwydd plant Duw yn Nheyrnas Nefoedd, yn eu mwynhâad o gymdeithas hôll blant Duw, eu brodyr, yng-hŷd; ïe yn hytrach, yn eu mwynhâad o gymmundeb â Duw mawr ei hun eu Tâd, a'i Fâb yr Arglwydd Jeſu, a'i hôll Angyljon gogoneddus.

Heb. xii. 22—24. *Chwi a ddaethoch i fynydd Sïon, ac i ddinas y Duw byw, y Jeruſalem nefol, ac at fyrddjwn o angyljon; i gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a'ſgrifennwyd yn y nefoedd, ac at Dduw, barnwr pawb, ac at ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithjwyd; ac at Jeſu cyfryngwr y teſtament newydd.* Joan xiv. 2, 3. xi. 51, 52. Eph. i. 10.

4. Mae happuſrwydd plant Duw yn Nheyrnas Nefoedd, yn y gwynfyd annhraethol ſy'n tarddu oddi wrth eu cymmundeb â Duw eu Tâd, ac yn eu llenwï o garïad, a gorfoledd, a chlôd tragywyddol iddo.

Eſay lxi. 7. *Yn lle eich cywilydd y cewch ddau ddyblyg, ac yn lle gw'radwydd lwy a lawenychant yn eu rhan:—llawenydd tragywyddol fydd iddunt.*

Dad. xv. 3. *A chanu y maent gân Moſes, gwaſanaethwr Duw, a chân yr Oen, gan ddywedud, Mawr a rhyfedd yw*

dy weithredoedd, O Arglwydd Dduw hollalluog; cyfiawn a chywir yw dy ffyrdd di, Brenin y ſaint. Dad. v. 13. 1 Joan iii. 2. Dad. xiv. 2, 3. Eſay xxv. 9.

5. Happuſrwydd plant Duw yn y nefoedd ſydd annherfynol, a hwyntau yn anfarwöl i'w fwynhâu ef.

Luc xx. 36. *Ni's gallant farw mwy; o blegid cyd'-ſtâd ydynt â'r angyljon.*

Pſalm xvi. 11. *Digonolrwydd llawenydd ſydd ger dy fron: ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd.*

Cw. Mawr jawn yn wîr yw gwynfyd etifeddïon Teyrnas Nefoedd. Mynegwch etto ym mhellach, pa fath yw'r etifeddïaeth hon; fel y gwypom gymmaint rhagorïaeth ſy rhwng rhan plant Duw a'r rhai y mae eu rhan yn y bŷd hwn.

Att. 1. Etifeddïaeth yw Teyrnas Nefoedd, ag ſy'n dyfod nid trwy waddoljaeth naturjol, eithr trwy adgenhedlïad yſbrydol a goruwchnaturjol.

1 Pedr i. 3, 4. *Bendigedig ſyddo Duw a Thâd ein Harglwydd Jeſu Griſt, yr hwn yn ôl ei fawr drugaredd a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywjol, i etifeddïaeth anllygredig.* Joan i. 13. Jago i. 18.

2. Etifeddïaeth briodol i blant Duw yn unig yw Teyrnas Nefoedd; eraill ſydd â'u rhan yn y llyn ſy'n lloſgi o dân a brwmſtan.

Rhuf. viii. 17. *O's plant, etifeddïon hefyd; ſef, etifeddïon i Dduw.*

Joan iii. 3. *Yn wîr, yn wîr, meddaf i ti, Oddïeithr geni dŷn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw.*

Salm xi. 6. *Ac yr annuwjoljon y glawja efe faglau, tân a brwmſtan, a phoethwynt yſtormus: dymma ran eu phiol hwynt.* Dad. xxi. 8. Math. xxiv. 40, 41.

3. Mae'r etifeddïaeth hon yn perthyn nid i rai, neu'r hynaf yn unig, yn ôl defod y bŷd hwn, eithr i bôb un o hôll blant Duw, er iſeled y bo eu graddau yn y bŷd.

Joan vi. 40. *A hyn yw ëwyllys yr hwn a'm hanfonodd i; cael o bôb un ſydd yn gweled y Mâb, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragywyddol; a myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dŷdd diweddaf.*

Jago ii. 5. *Gwrandêwch, fy mrodyr annwyl; Oni ddewiſodd Duw dlodïon y bŷd hwn, yn gyfoethogïon mewn ffŷd, ac yn etifeddïon y deyrnas, yr hon a addawödd efe i'r rhai ſydd yn ei garu ef?*

4. Mae

4. Mae hi'n etifeddïaeth oludog jawn a helaeth, yn cynnwys ynddi bôb peth dymunol.

1 Cor. iii. 22, 23. *Y mae pôb peth yn eiddo chwi; a chwithau yn eiddo Criſt; a Chriſt yn eiddo Duw.*

Eph. i. 18. *Wedi goleuo llygaid eich meddyljau; fel y gwypoch beth yw gobaith ei alwëdigaeth ef, a pheth yw golud gogoniant ei etifeddïaeth ef yn y ſaint.*

1 Cor. ii. 9. *Ni welodd llygad, ni chlywödd clûſt, ac ni ddaeth i gàlon dŷn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef.*

5. Mae'r etifeddïaeth hon yn rhŷdd oddi wrth y gofidjau terfyſgus ſy yng nglŷn wrth eiddo'r bŷd hwn, ac yn rhoddi gorphwyſfa felus i'r neb a'i meddïanno.

Dad. xiv. 13. *Gwyn eu bŷd y meirw y rhai ſy'n marw yn yr Arglwydd o hyn allan, medd yr Ysbryd, fel y gorphwyſont oddi wrth eu llafur; a'u gweithredoedd ſy yn eu canlyn hwynt.* Heb. iv. 9. 2 Theſ. i. 6, 7.

Etifeddïaeth yr annuwjol ar y ddaear ſy'n achos o drallod a gorthrymder blîn iddunt.

Mic. ii. 2. *Meuſydd a chwennychant, ac a ddygant trwy drais; a theïau, ac a'u dygant: gorthrymmant heſyd ŵr a'i dŷ, dŷn a'i etifeddïaeth.* 1 Dim. vi. 9, 10.

6. Mae hon yn etifeddïaeth ſanctaidd a pharhäus, ac yng nghadw'n ſicr i blant Duw, na's gellir bŷth eu 'sbeiljo o honi.

1 Pedr i. 3, 4, 5. *Bendigedig fyddo Duw a Thâd ein Harglwydd Jeſu Criſt, yr hwn yn ôl ei fawr drugaredd a'n hadgenhedlodd ni i obaith bywjol trwy adgyfodïad Jeſu Criſt oddi wrth y meirw, i etifeddïaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddifiannedig, ac yng nghadw yn y nefoedd i chwi, y rhai trwy allu Duw ydych gadwëdig trwy ffŷdd i jechydwrjaeth parod i'w dadguddjo yn yr amſer dïweddaf.* 2 Dim. iv. 18.

Cw. Pwy ddyledſwyddau a ddylech ddyſgu oddi wrth y Rhagorfraint fawr hon; ſef, *bod plant Duw yn etifeddïon Teyrnas Nefoedd?*

Att. 1. Ein dyledſwydd yw, caru Duw, a'i glodfori.

Col. i. 12. *Gan ddiolch i'r Tâd, yr hwn a'n gwnaeth yn gymmwys i gael rhan o etifeddïaeth y ſaint yn y goleuni.*

A chlodfori Duw a Chriſt, am Weinidogaeth yr Efengyl, *i agoryd ein llygaid, ac i'n troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddïant Satan at Dduw; fel y derbynjom faddeuant pechodau, a chyfran ym mŷſg y rhai a ſancteiddjwyd trwy y ffŷdd ſydd yng Nghriſt Jeſu.* Act. xxvi. 18, Heb. ix. 15.

2. Ein dyledſwydd yw, arferu pôb dyfalwch i feddu hawl ſicr yn Nheyrnas Nefoedd.

2 Pedr i. 10, 11. *O herwydd pa ham yn hytrach, frodyr, byddwch ddïwyd i wneuthur eich galwëdigaeth a'ch etholedigaeth yn ſicr:—canys felly yn helaeth y trefnir i chwi ſynedjad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Jeſu Griſt.* Math. vi. 33.

3. Ein dyledſwydd yw, llafurjo'n ofalus am wîr Sanctteiddrwydd; heb ba un ni ellir etifeddu Teyrnas Nefoedd.

Math. v. 20. *Canys meddaf i chwi, Oni bydd eich cyfjawnder yn helaethach nâ chyfiawnder y'ſgrifennyddjon a'r Phariſêaid, nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd.*

Heb. xii. 14. *Dilynwch heddwch â phawb, a ſanctteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd.* Mat. xiii. 41, 42. viii. 11, 12.—vii. 21.

4. Ein dyledſwydd yw, byw'n gyſſurus dan bôb trallodau a llymder yn y bŷd hwn; gan fod etifeddïaeth fawr ar ein medr yn y bŷd a ddaw. Nid gweddaidd fod plant y Brenin ac etifeddïon y Deyrnas yn athriſt.

Luc xii. 32. *Nac ofna, braidd bychan: canys rhyngodd bôdd i'ch Tâd roddi i chwi y deyrnas.* 2 Cor. iv. 16, 17.

Math. v. 3. *Gwyn eu bŷd y tlodïon yn yr yſbryd; canys eiddunt yw teyrnas nefoedd.* Phil. iv. 4. Eſay xl. 1. Deut. xxviii. 47, 48.

5. Ein dyledſwydd yw, ymwadu â ni ein hunain mewn pethau daearol, o ſerch ar etifeddïaeth well ag ſydd yn Nheyrnas Nefoedd.

Math. vi. 19—21. *Na thryſorwch iwch' dryſorau ar y ddaear, lle y mae gwyfyn a rhŵd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddjo trwodd ac yn lladratta: eithr tryſorwch iwch' dryſorau yn y nef, lle nid oes na gwyfyn na rhŵd yn llygru, a lle ni's cloddja lladron trwodd ac ni's lladrattant. Canys lle y mae eich tryſor, yno y bydd eich càlon hefyd.* Luc xviii. 28—30. Heb. x. 34.—xi. 24—26.

6. Ein dyledſwydd yw, mynych ymſynnïo ynghylch y pethau a berthyn i Dduw a Theyrnas Nefoedd, fel plant yn golygu'r etifeddïaeth a berthyn iddunt.

Phil. iii. 20. *Canys ein hymarweddïad ni ſydd yn y nefoedd; o'r lle hefyd yr ydym yn diſgwil yr Jachawdwr, yr Arglwydd Jeſu Griſt.*

Col. iii. 1, 2. *Am hynny o's cyd gyfodaſoch gyd â Chriſt, ceiſiwch*

ceiſiwch y pethau ſydd uchod, lle mae Criſt yn eiſtedd ar ddeheulaw Duw. Rhoddwch eich ſerch ar bethau ſydd uchod, ac nid ar bethau ſy ar y ddaear.

7. Ein dyledſwydd yw, dioddef yn ëwyllyſgar pa bethau bynnag y ddêl arnom yn achos Duwjoldeb.

Act. xiv. 22. *Trwy lawer o orthrymderau y mae'n rhaid i ni fyned i deyrnas Dduw.*

Luc vi. 22, 23. *Gwyn eich bŷd pan y'ch casâo dynjon, a phan y'ch didolant oddi wrthunt, ac y'ch gw'radwyddant, ac y bwrïant eich enw allan megis drwg, er mwyn Mâb y dŷn. Byddwch lawen y dŷdd hwnnw, a llemmwch; canys wele, eich gwobr ſydd fawr yn y nêf.*

Luc xxii. 28—30. *Chwychwi yw y rhai a arhoſaſoch gyd â mi yn fy mhrofedigaethau. Yr wyf fi yn ordeinjo i chwi deyrnas, megis yr ordienjodd fy Nhâd i minnau; fel y bwytaoch ac yr yfoch ar fy mwrdd i yn fy nheyrnas, ac yr eiſteddoch ar orſeddfeydd.* Math. x. 32, 33. 2 Cor. i. 7. 1 Pedr iv. 13.

8. Ein dyledſwydd yw, byw'n addas i'r Uchelfraint fawr hon; gan aſtudjo gwaſanaeth parchus i Dduw, nid ſlaf-waith y diafol. Anweddus yw i blant Duw, ac etifeddïon Teyrnas Nefoedd, ymlygru fel eraill yn llaid y ddaear.

Eph. iv 1. *Deiſyf gan hynny arnoch yr wyf fi,—ar rodio o honoch yn addas i'r alwëdigaeth y'ch galwyd iddi.*

1 Theſ. ii. 12. *Ac yn ymbil ar rodio o honoch yn deilwng i Dduw, yr hwn a'ch galwödd chwi i'w deyrnas a'i ogoniant.* Phil. i. 17. Col. i. 10.

9. Ein dyledſwydd yw, diſgwil yn ddieſgeulus am ddyfodjad Criſt yn ei Ogoniant; pan ddodir holl blant Duw, yn eu cyrph a'u heneidjau, mewn meddïant dragywyddol o Deyrnas Nefoedd.

Luc xii. 35—37. *Bydded eich lwynau wedi eu hamwregyſu, a'ch canhwyllau wedi eu goleuo: a chwithau yn debyg i ddynjon yn diſgwil eu Harglwydd, pa bryd y dychwel o'r neithjor; fel pan ddelo a churo, yr agoront iddo yn ebrwydd. Gwyn eu bŷd y gweiſion hynny, y rhai a gaiff eu Harglwydd, pan ddêl, yn neffro: yn wîr meddaf i chwi, efe a ymwregyſa, ac a wnâ iddunt eiſtedd i lawr i fwyta, ac a ddaw ac a waſanaetha arnunt hwy.*

Mal. iii. 18. *Yna y dychwelwch, ac y gwelwch ragor rhwng y cyfiawn a'r drygjonus, rhwng yr hwn a waſanaetho Dduw, a'r rhai ni's gwaſanaetho ef.* Eſay lxvi. 14. Dit. ii. 13. 1 Pedr i. 13.

10. Ein dyledſwydd yw, cydnabod mai nid trwy'n gweithredoedd na'n haeddïant ni y mae'r etifeddïaeth ſawr hon yn dyfod; ond trwy addewïdjon y Cyfammod Grâs, a wnaeth Duw â ni yng Nghriſt Jeſu.

Gal. iii. 18. *Canys o's o'r deddf y mae'r etifeddïaeth, nid yw hayach o'r addewïd: ond Duw a'i rhâdroddodd i Abraham trwy addewïd.* Trwy Râs Duw y'n cyfiawnheir, ac y'n gwnêir yn etifeddïon, yn ôl gobaith bywyd tragywyddol. *Dit.* iii. 7.

11. Fy nyledſwydd yw, edrych yn ofalus am gyflawni yr ammodau a addawödd fy Nhadau-bedydd a'm Mammau-bedydd droſof, pan y'm bedyddjwyd yn aelod i Griſt, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd Teyrnas Nefoedd.

Deut. iv. 23. *Ymgedwch arnoch rhag anghofio cyfammod yr Arglwydd eich Duw, yr hwn a ammododd efe â chwi.* Deut. xix. 5.

Cw. Pa beth a wnaeth dy Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd yr amſer hwnnw droſot ti?

Att. Hwy a addawſant ac a addunaſant dri pheth yn fy enw. Yn gyntaf, ymwrthod o honof y diafol a'i hôll weithredoedd; rhodres a gorwagedd y byd anwir hwn; a hôll bechadurus chwantau'r cnawd. Yn ail, bod i mi gredu hôll byngcjau ffŷdd Griſt. Ac yn drydydd, cadw o honof wynfydedig Ewyllys Duw a'i Orchymmynnïon, a rhodio ynddunt hôll ddyddjau fy mywyd.

Cw. Pa ſawl peth ſydd yn yr adduned hyn?

Att. Tri pheth. 1. Bod i mi ymwrthod â'm gelynjon ysbrydol. 2. Bod i mi gredu hôll byngcjau'r ffŷdd. Ac, yn 3. Bod i mi gadw gwynfydedig Ewyllys Duw a'i Orchymmynnïon; ſef, gwrthod yr hyn ſy ddrwg, credu'r hyn ſydd wîr, a gwneuthur yr hyn ſydd dda.

Cw. Pa ham y'ch dyſgir i ymwrthod â'r drwg yn flaenaf?

Att. O blegid ni's gallaf yn wirjoneddus ymarddel â dim ſy dda, nes ymwrthod â'r drwg yn gyntaf; am hynny gadael y drwg y mae Duw yn ei orchymmyn yn gyntaf.

Salm xxxiv. 14. *Cilja oddi wrth ddrwg, a gwnâ dda.*

Amos v. 15. *Caſêwch ddrygjoni, a hoffwch ddajoni.* Eſay i. 16, 17. Rhuf. xii. 9.

Cw.

Cw. Pa ham y'ch dyſgir i gredu, o flaen cadw Ewyllys Duw, ac ufuddhâu i'w Orchymmynnïon ef?

Att. O blegid heb ffŷdd, neu grêd yng Nghriſt, ni's gallaf ufuddhâu, na'm hufudd-dod i fod yn gymmeradwy.

Heb. xi. 4, 6. *Trwy ffŷdd yr offrymmodd Abel i Dduw aberth rhagorach nâ Chain.—Heb ffŷdd ammhoſſibl yw rhyngu bôdd Duw.*

Rhuf. xiv. 23. *A pheth bynnag nid yw o ffŷdd, pechod yw.*

Cw. Pa rai yw'r drygau neu'r gelynjon ysbrydol ſydd raid i chwi ymwrthod â hwynt?

Att. Y tri hyn.

1. Ymwrthod o honof y diafol a'i hôll weithredoedd.

1 Joan iii. 8. *I hyn yr ymddangoſodd Mâb Duw, fel y dattodai weithredoedd diafol.*

2. Ymwrthod o honof â rhodres a gorwagedd y bŷd anwir hwn.

1 Joan ii. 15. *Na cherwch y bŷd, na'r pethau ſy yn y bŷd. O chân neb y bŷd, nid yw carïad y Tâd ynddo ef.*

3. Ymwrthod â hôll chwantau pechadurus y cnawd.

Rhuf. viii. 13. *Canys o's byw yr ydych ar ôl y cnawd, meirw fyddwch; eithr o's ydych yn marweiddjo gweithredoedd y corph trwy'r ysbryd, byw fyddwch.*

Gal. v. 24. *A'r rhai ſydd yn eiddo Criſt, a groeſhoeljaſant y cnawd, a'i wynjau, a'i chwantau.*

Cw. Pa ham y dylech ymwrthod â'r diafol.

Att. 1. O blegid mai gelyn yw, a'r creulonaf o bôb gelynjon; ac y mae efe beunydd yn ceiſio fy niſtrywjo.

1 Pedr v. 8, 9. *Byddwch ſobr, gwiliwch: o blegid y mae eich gwrthwynebwr diafol, megis llew rhuaduy, yn rhodio oddi amgylch, gan geiſio y neb a allo ei lyngcu: yr hwn gwrthwynebwch yn gadarn yn y ffŷdd.* Jago iv. 7.

2. O blegid mai i'r diben hyn, ſef, i waredu pechadurjaid oddi wrth y gelyn hwn y diafol, yr anſonodd Duw, trwy Gariad anfeidrol, ei Fâb i'r bŷd.

Act. xxvi. 18. *I agoryd eu llygaid, ac i'w troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddïant Satan at Dduw.* Col. i. 13.

3. O blegid ar yr ammod hyn y'm derbynjer i gyfammod â Duw; ac oni bydd i mi ymwrthod â'r diafol, ni's gallaf fi bŷth gael rhan yng Nghriſt mwy nâ'r diafol ei hun.

2 Cor. vi. 14, 15. *Pa gymmundeb ſydd rhwng goleuni a thywyllwch? a pha gyſſondeb rhwng Criſt a Belial?*

Cw.

Cw. Pa ham y dylech ymwrthod â gweithredoedd y diafol?

Att. 1. O blegid y rhai a wnânt withredoedd y diafol, gweiſion y diafol ydynt.

Rhuf. vi. 16. *Oni wyddoch chwi mai i bwy bynnag yr ydych yn eich rhoddi eich hunain yn weiſion i ufuddhâu iddo, eich bod yn weiſion i'r hwn yr ydych yn ufuddhâu iddo, pa un bynnag ai i bechod i farwölaeth, ynte i ufudd-dod i gyfiawnder?* Joan viii. 34.

2. Y rhai a wnânt weithredoedd y diafol, plant y diafol ydynt.

Joan viii. 44. *O'ch tâd diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tâd a fynnwch chwi eu gwneuthur.* Actau xiii. 10.

3. Y rhai a wnânt weithredoedd y diafol, y maent ym meddïant y diafol, ac o hono ef.

Act. xxvi. 18. *I agoryd eu llygaid, ac i'w troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddïant Satan at Dduw.*

1 Joan iii. 8. *Yr hwn ſydd yn gwneuthur pechod, o ddiafol y mae: canys y mae diafol yn pechu o'r dechreuad.*

4. Y rhai a wnânt weithredoedd y diafol, y mae'r diafol ar waith ynddunt.

Eph. ii. 2. *Yn y rhai y rhodiaſoch chwi gynt, yn ôl hèlynt y bŷd hwn, yn ôl tywyſog llywodraeth yr awyr, yr ysbryd ſydd yr awr hon yn gweithjo ym mhlant yr anufudd-dod.*

5. Y rhai a wnânt weithredoedd y diafol, gyd â'r diafol y bydd eu rhan hwy yn dragywydd.

Math. xxv. 41. *Criſt a ddywed wrthunt, Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol ac i'w angyljon.* Dad. xxi. 8.

Cw. Pa rai yw gweithredoedd y diafol, ag y dylech ymwrthod â hwynt?

Att. Gweithredoedd y diafol yw pôb màth o bechodau; canys efe yw'r awdwr o bechod: Ei waith a'i ddigrifwch ef yw, gwrthryfel yn erbyn Duw: Efe a bechodd gyntaf, ac efe ſy'n hudo dynjon i bechu. Eithr ymma y meddyljer yn bennaf, wrth *weithredoedd y diafol*, y cyfryw bechodau ag a berthyn i'r diafol yn fwyaf enwëdigol; y rhai a gynhwyſir dan *rodres y bŷd*, a *chwantau'r cnawd*, er bod gan y diafol law ynddunt i gŷd.

Cw. Pa rai yw'r pechodau ag ſy'n fwyaf enwëdigol yn weithredoedd y diafol?

Att.

Att. Y cyfryw bechodau a gyfrifir i'r diafol yn fwyaf enwedigol yn yr Yſgrythur Lân; ſef,

1. Gwaith y diafol yw, llofruddjaeth; hynny yw, bod dynjon yn llâdd ac yn mwrddro eu gilydd.

Joan viii. 44.—*Trachwantau'ch tâd a fynnwch chwi eu gwneuthur. Lleiddjad dŷn oedd efe o'r dechreuad.*

2. Gwaith y diafol yw, eilunaddoliad.

1 Cor. x. 20. *Ond y pethau mae'r cenhedloedd yn eu haberthu, i gythreuljaid y maent yn eu haberthu, ac nid i Dduw.* Ni fynnwn i chwi fod yn gyfrannogjon â'r cythreuljaid. *Deut.* xxxii. 17. *Dad.* ix. 20.

3. Gwaith y diafol yw, fwynedigaeth, a dëwinjaeth, ac ymgynghori â chonfurwyr. Mae'r cyfryw yn cymmeryd y diafol yn dduw iddunt.

Eſay viii. 19. *A phan ddywedant wrthych, Ymofynnwch â'r fwynyddjon, ac â'r dëwinjaid, y rhai fy'n huſtyng, ac yn fibrwd: onid â'u Duw yr ymofyn pobl? dros y byw, at y meirw?*

Pan ymadawödd Ysbryd Duw oddi wrth *Saul*, a dyfod ysbryd drwg arno, efe a aeth yn ei gyfyngder i ymgynghori â dëwines; a thrwy gyfiawn farn Duw a laddodd ei hun drannoeth. 1 *Sam.* xxviii.

Deut. xviii. 10—12. *Na chaffer ynnot a wnelo i'w fâb, neu i'w ferch, fyned trwy'r tân, neu a arfero ddëwinjaeth; na planedydd, na daroganwr, na hudol, na fwynwr fwynjon; nac a geiſio wybodaeth gan gonfurjwr, neu frudjwr, nac a ymofynno â'r meirw. O herwydd ffieidd-dra gan yr Arglwydd yw pawb a wnelo hyn.* Lef. xx. 6. 2 Bren. xxii. 3.

4. Gwaith y diafol yw, erlid a charcharu dynjon o achos Duwjoldeb.

Dad. ii. 10. *Wele, y cythraul a fwrw rai o honoch chwi i garchar, fel y'ch profer; a chwi a gewch gyſtudd ddeng niwrnod.*

1 Joan iii. 12. *Nid fel Cain, yr hwn oedd o'r drwg* (ſef, o'r diafol) *ac a laddodd ei frawd. A pha ham y lladdodd ef? O blegid bod ei weithredoedd ef yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn dda.*

5. Gwaith y diafol yw, cenfigen, ymryſon, digofaint, malais, a chaſineb.

Jago iii. 14—16. *Od oes gennych gynfigen chwerw, ac ymryſon yn eich càlon, na fyddwch ffroſtwyr a chelwyddog yn erbyn y gwir-*

y gwirjonedd. Nid yw y doethineb hyn yn diſgyn oddi uchod; ond daearol, anjanol, cythreulig yw. Canys lle mae cynſigen ac ymryſon, yno y mae terfyſg, a phôb gweithred ddrwg. 1 Joan iii. 15.

Eph. iv. 26, 27. *Na fachluded yr haul ar eich digoſaint chwi; ac na roddwch le i ddiafol.*

6. Gwaith y diafol yw, dywedud celwydd; a phlant y diafol yw'r dynjon celwyddog.

Joan viii. 44. *Ni ſafodd efe yn y gwirjonedd, o blegid nid oes gwirjonedd ynddo ef. Pan yw yn dywedud celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn dywedud: canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo.*

Act. v. 3. *Pedr a ddywedodd, Ananïas, pa ham y llanwodd Satan dy gàlon di, i ddywedud celwydd wrth yr Ysbryd Glân?*

7. Gwaith y diafol yw, ymchwyddo o falchder; canys felly y ſyrthjodd y diafol ei hun i ddamnedigaeth.

1 Dim. iii. 6. *Nid yn newyddjan yn y ffŷdd; rhag iddo ymchwyddo, a ſyrthjo i ddamnedigaeth diafol.*

8. Gwaith y diafol yw, twyllo, a themtio dynjon i bechod. Temtiwr yw efe wrth ei ſwydd a'i enw.

1 Theſ. iii. 5. *Mi a ddanfonais i gael gwybod eich ffŷdd chwi; rhag darfod i'r temtiwr eich temtio chwi, a myned ein llafur ni yn ofer.* Math. iv. 1. 1 Cron. xxi. 1. 2 Cor. xi. 3.

9. Gwaith y diafol yw, rhwyſtro a gwrthwynebu Addoliad Duw.

Zech. iii. 1. *Ac efe a ddangoſodd i mi Joſua'r archoffeiriad yn ſefyll ger bron Angel yr Arglwydd, a Satan yn ſefyll ar ei ddeheulaw ef i'w wrthwynebu ef.* 1 Theſ. ii. 18. Jôb i. 6.

10. Gwaith y diafol yw, cynghorïon drwg, ac athrawjaeth gyfeiliornus, i ŵyro dynjon oddi wrth y Gwirjonedd.

Pan oedd *Elymas* y ſwynwr yn ceiſio gŵyrdroi *Sergius Paulus* y rhaglaw oddi wrth y Ffŷdd, *Paul* a ddywedodd wrth *Elymas*, *O gyflawn o bôb twyll, a phôb 'ſgelerder, tydi mâb diafol, a gelyn pôb cyfiawnder, oni pheidi di a gŵyro unjawn ffyrdd yr Arglwydd?* Act. xiii. 6—10.

Ysbryd celwyddog yng ngenau gau brophwydi *Ahab* a'i twyllodd ef i ddinyſtr. 1 *Bren.* xxii.

2 Cor. xi. 13—15. *Gau apoſtoljon ſy weithwyr twyllodrus, wedi ymrithjo yn apoſtoljon i Griſt. Ac nid rhyfedd: canys*

y mae

y mae Satan yntef yn ymrithjo yn angel goleuni. Gan hynny nid mawr yw, er ymrithjo ei weinidogjon ef fel gweinidogjon cyfiawnder, y rhai y bydd eu diwedd yn ôl eu gweithredoedd.

1 Dim. iv. 1. *Ac y mae'r Ysbryd yn eglur yn dywedud yr ymedy rhai yn yr amſeroedd diweddaf oddi wrth y ffŷdd, gan roddi coel i ysbrydjon cyfeiliornus, ac i athrawjaethau cythreuljaid.*

11. Gwaith y diafol yw, tynnu dŷn i fradychu ei broffes, ac i adel ffordd Duw: Felly y ſyrthjodd y diafol ei hun.

Jud. 6. *Yr angyljon heſyd y rhai ni chadwäſant eu dechreuad, eithr a adawſant eu trigfa eu hun, a gadwödd efe mewn cadwynau tragywyddol, i farn y dŷdd mawr.*

Y diafol a aeth i mewn i *Judas*, ac a oſododd yn ei gâlon ef i fradychu Criſt, ac i'w werthu am ddeg ar hugain o arian, *Joan* xiii. 2, 27.—A phan oedd *Pedr* yn perſwadio Criſt yn erbyn y gwaith mawr o blegid pa un y daeth efe i'r bŷd, *Criſt a drôdd ac ddywedodd wrth Pedr, Dôs yn ſy ôl i, Satan: rhwyſtr ydwyt ti i mi; am nad ydwyt yn ſynjed y pethau ſy o Dduw, ond y pethau ſy o ddynjon.* Mat. xvi. 23.

12. Gwaith y diafol yw, dallineb meddwl, anwybodaeth, a chaſineb i Air Duw.

2 Cor. iv. 3, 4. *Ac o's cuddjedig yw ein hefengyl ni, yn y rhai colledig y mae yn guddjedig. Yn y rhai y dallodd duw y bŷd hwn feddyljau y rhai digred, fel na thywynnai iddunt lewyrch efengyl gogoniant Criſt, yr hwn yw delw Dduw.*

2 Theſ. ii. 10. Mae'r diafol yn gweithjo gyd *â phôb dichell anghyfiawnder, yn y rhai colledig; am na dderbynjaſant garïad y gwirjonedd, fel y byddent gadwëdig.* Luc viii. 12.

13. Gwaith y diafol yw, rhegau a llwon.

Mat. v. 34, 37. *Yr wyf fi yn dywedud wrthych chwi, Na thwng ddim:—Eithr bydded eich ymadrodd chwi, Ië, ïe; Nag ê, nag ê; o blegid beth bynnag ſydd dros ben hyn, o'r drwg* (ſef, o'r ysbryd drwg, y diafol) *y mae.*

Jago v. 12. *O flaen pôb peth, fy mrodyr, na thyngwch, nac i'r nêf, nac i'r ddaear, nac un llw arall: Eithr bydded eich Ië chwi yn Ië; a'ch Nag ê, yn Nag ê; fel na ſyrthjoch i farnediga-eth.* Zech. v. 2, 3, 4.

Cw. Chwi a ddywedaſoch yn helaeth am weithredoedd y diafol, ag y ddylech ymwadu neu ymwrthod â hwynt; ac yn ddiau greſynus yw cyflwr y rhai ſy'n gyd-gyfrannog â'r diafol

yn

yn y gweithredoedd hyn, tra maent yn galw eu hunain ar Enw Criſt, ac yn gobeithjo am Deyrnas Nefoedd: Eithr bellach dywedwch, beth yw *rhodres a gorwagedd y bŷd anwir*; yr hyn yw'r ail beth y dylech ei wrthod.

Att. Rhodres a gorwagedd y bŷd anwir hwn (ag ſy'n llawn o bechodau ei breſwylwyr) yw, gwâg elw, gwâg orfoledd, a gwâg ogoniant y bŷd, a'r hôll bethau gweigjon a llygredig ag y mae chwantau a balchder dynjon pechadurus yn myned yn eu hôl.

1 Joan ii. 16. *Pôb peth a'r ſydd yn y bŷd, megis chwant y cnawd, chwant y llygaid, a balchder y bywyd, nid yw o'r Tâd, eithr o'r bŷd y mae.*

Cw. Pa ham y mae'n rhaid i chwi ymwrthod â rhodres a gwagedd y bŷd?

Att. Heb law ſy môd yn rhwym wrth Gyfammod ſy Medydd i wneuthur felly, ſe oſodir ger ſy mron yn yr Yſgrythur Lân lawer o yſtyrjaethau pwyſig ychwaneg, ag ſy'n dangos mai ſy nyled yw ymwrthod a gwagedd y bŷd anwir hwn.

1. Mi ddylwn ymwrthod â gwagedd y bŷd, o herwydd mai gwagedd a gorthrymder ysbryd yw; ac nad oes bûdd i'm henaid yn y pethau a gynhwyſir ynddo.

Preg. ii. 11, 20. *Yna mi a edrychais ar ſy hôll weithredoedd a wnaethai ſy nwylaw, ac ar y llaſur a lafurjais yn ei wneuthur; ac wele, hyn ôll oedd wagedd a gorthrymder yſbryd, ac nid oedd dim bûdd dan yr haul. Am hynny mi a droais i beri i'm calon anobeithjo o'r hôll lafur a gymmerais dan yr haul.* Preg. v. 10, 11. Diar. xi. 4.

2. Mi ddylwn ymwrthod â gwagedd y bŷd, o herwydd bod hôll bethau'r bŷd yn annilys; na's gellir eu mwynhâu yn hîr pe byddai lês gwirjoneddus ynddunt.

Luc xii. 19, 20, 21. Pan ddywedodd un wrth ei enaid, *Fy enaid, y mae gennyt ddâ lawer wedi eu rhoi i gadw dros lawer o ſynyddoedd: gorphwys, bwyta, ŷf, bydd lawen: Duw a ddywedodd wrtho, O ynfyd, y nôs hon y gofynnant dy enaid oddi wrthyt; ac eiddo pwy fydd y pethau a barotôaiſt? Felly y mae'r hwn ſydd yn tryſori iddo ei hun, ac nid yw gyfoethog tu ag at Dduw.* Diar. xxiii. 4, 5. Jago v. 2, 3. Dad. xviii. 14, 15. Mat. vi. 19.

3. Mi ddylwn ymwrthod â gwagedd y bŷd, o herwydd ſod cariad y bŷd yn peri i ddynjon angharu Duw.

1 Joan ii. 15. *Na cherwch y bŷd, na'r pethau ſy yn y bŷd.*

bŷd. O chârneb y bŷd, nid yw carïad y Tâd ynddo ef.

Luc xvi. 13. *Ni ddichon un gwâs wasanaethu dau arglwydd: canys naill ai efe a gasâ y naill, ac a gâr y llall; ai efe a lŷn wrth y naill, ac a ddirmyga'r llall. Ni ellwch wasanaethu Duw a Mammon.*

4. Mi ddylwn ymwrthod â gwagedd y bŷd, o herwydd mai o achos hyn y mae dynjon yn syrthjo dan ddigofaint a melldith Duw.

Esay lvii. 17. *Am anwiredd ei gybydd-dod ef y digjais, ac y tarewais ef: ymguddjais a digjais, ac efe a aeth rhagddo'n gildynnus ar hŷd ffordd ei gàlon.*

2 Ped. ii. 14. *A chanddunt gàlon wedi ymgynnefino â chybydddra; plant y felldith.*

5. Mi ddylwn ymwrthod â gwagedd y bŷd, o herwydd ei fod yn byddaru clustjau dynjon dan Air Duw, ac yn eu gwneuthur yn ddiystyr o hono.

Mat. xxii. 3, 5. *Efe a ddanfonodd ei weision i alw y rhai a wahoddasid i'r briodas; ac ni fynnent hwy ddyfod: Ac yn ddiystyr ganddunt, a aethant ymmaith, un i'w faes, ac arall i'w fasnach.*

Luc xvi. 14. *A'r Pharisêaid hefyd, y rhai oedd ariangar, a glywsant y pethau hyn ôll, ac a'i gwatwarasant ef.*

Ezec. xxxiii. 31. *Deuant attat fel y daw y bobl, ac eisteddant o'th flaen fel fy mhobl; gwrandawänt hefyd dy eirjau, ond ni's gwnânt hwy: canys â'u geneuau y dangosant garïad, a'u càlon sydd yn myned ar ôl eu cybydd-dod.* Mat. xiii. 22. Act. xvi. 19.

6. Mi ddylwn ymwrthod â gwagedd y bŷd, o herwydd ei fod yn dwyn llawer o ofid a blinder yn y bywyd hwn, ac yn y diwedd ddinystr tragywyddol.

1 Dim. vi. 9. *Y rhai sŷ'n ëwyllysio ymgyfoethogi, sydd yn syrthjo i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidjol, y rhai sy yn boddi dynjon i ddinystr a cholledigaeth.*

Diar. i. 18, 19. *A'r y maent hwy yn cynllwyn am eu gwaed eu hun; am eu heinioes eu hun y maent yn llechu. Felly y mae llwybrau y rhai ôll sydd chwannog i elw; yr hwn a ddwg einioes ei perchennogïon.*

7. Mi ddylwn ymwrthod â gwagedd y bŷd, o herwydd fod gorwagedd y bŷd yn achos o bechodau mawr mewn llawer, ac yn hudo rhai i wadu eu proffes, a chiljo oddi wrth Dduw, ar ôl bod yn ymarddel ag ef.

1 Dim.

1 Dim. vi. 10. *Canys gwreiddyn pôb drwg yw ariangarwch: yr hon a rhai yn chwannog iddi, hwy a gyfeiliornaſant oddi wrth y ffŷdd.*

Trachwant *Ahab* am winllan *Naboth*, fy achos o lwon anudon a llofruddjaeth, 1 *Bren.* xxi. Y prophwyd *Balaam* a garodd wobr anghyfiawnder, ac a geiſiodd felldigo pobl yr Arglwydd, 2 *Ped.* ii. 15. *Judas* yr Apoſtol am arian a fradychodd Criſt, ac ar ôl hynny eſe a aeth ac a ymgrogodd, *Mat.* xxvi. 14, 15. xxvii. 5. *Demas* a adawödd ei broffes, trwy garu'r bŷd preſennol, 2 *Dim.* iv. 10.

8. Mi ddylwn ymwrthod â gwagedd y bŷd, o herwydd fod Grâs jachuſol Duw yn dyſgu pawb a'i derbynjo i wneuthur felly. Dit. ii. 11, 12. *Canys ymddangoſodd grâs Duw, yr hwn ſydd yn dwyn jechydwrjaeth i bôb dŷn; gan ein dyſgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn ſobr, yn gyfiawn, ac yn ddduwjol yn y bŷd ſydd yr awron.*

9. Mi ddylwn ymwrthod â gwagedd y bŷd, o herwydd fod ſerch y bŷd hwn yn eilunaddoliad, ag ſy'n cau dynjon allan o Deyrnas Nefoedd.

Eph. v. 5. *Canys yr ydych chwi yn gwybod hyn, am bôb putteinwr, neu aflan, neu gybydd, yr hwn ſydd ddelwäddolwr, nad oes iddunt etifeddiaeth yn nheyrnas Criſt a Duw.*

Mat. xix. 23, 24. *Yr Jeſu a ddywedodd wrth ei ddiſgybljon, Yn wir y dywedaf i chwi, mai yn anhawdd yr â goludog i mewn i deyrnas nefoedd. A thrachefn meddaf i chwi, Haws yw i gamel fyned trwy grau y nodwydd ddûr, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw.*

Cw. Pa rai yn neillduol yw'r pethau hynny o eiddo'r bŷd hwn y ddylech chwi ymwadu neu ymwrthod â hwynt?

Att. 1. Meddiannau mawrjon a gwâg elw'r bŷd, ag y mae cymmaint o drachwant yng nghalon dŷn am danunt.

Jer. xlv. 5. *Ac a geiſi di fawrcdd i ti dy hun? Na chais.*

1 Dim. vi. 6, 7, 8. *Elw mawr yw duwjoldeb gyd â bodlonrwydd. Canys ni ddygaſom ni ddim i'r bŷd; ac eglur yw na allwn ddwyn dim allan chwaith. Ac o bydd gennym ymborth a dillad, ymfodlonwn ar hynny.* Heb. xiii. 5.

2. Pleſerau pechadurus, a gwag orfoledd neu ddiſyrwch y bŷd, ag ſy'n twyllo cynnifer.

Jôb xx. 4, 5, 6, 7. *Oni wyddoſt ti hyn erjôed, er pan oſodwyd dŷn ar y ddaear, mai byr yw gorfoledd yr annuwioljon; a llawenydd y rhagrithwyr dros funyd awr? Pe dyrchafai*

dyrchafai ei odidowgrwydd ef i'r nefoedd, a chyrhaeddyd o'i ben ef hyd y cwmhylau; efe a gollir yn dragywydd fel ei dom: y rhai a'i gwelsant a ddywedant, Pa le y mae efe?

Esay v. 12, 14. *Ac yn eu gwleddoedd hwynt y mae y delyn, a'r nabl, y tympan, a'r bibell, a'r gwîn; ond am waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred ei ddwylaw ef nid ystyrjant. Herwydd hynny'r ymehengodd uffern, ac yr agorodd ei safn yn anferth; ac yno y disgyn eu gogoniant, a'u lliaws, a'u rhwysg, a'r hwn a lawenycha ynddi.* Jôb xxi. 12—14.

3. Anrhydedd llygredig a gwâg ogoniant y bŷd, ag sy'n gymmaint o rwystr i Ffŷdd Grist.

Joan v. 44. *Pa fôdd y gellwch chwi gredu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan ei gilydd, ac heb geisio y gogoniant sydd oddi wrth Dduw yn unig?*

Joan xii. 42, 43. *Er hynny llawer o'r pennaethjaid hefyd a gredasant ynddo: ond o blegid y Pharisêaid ni chyffesasant ef, rhag eu bwrw allan o'r synagog. Canys yr oeddynt yn caru gogoniant dynjon yn fwy nâ gogoniant Duw.*

4. Trigfannau têg, a phethau gwychjon eraill y bŷd, ag sy'n tynnu barnau trymmion ar ddynjon yn y bŷd hwn.

Esay v. 8, 9. *Gwae y rhai sy yn cyssylltu tŷ at dŷ, ac yn cydjo maes at faes, hyd oni byddo eisiau lle, ac y trigoch chwi yn unig yng nghanol y tîr. Lle y clyweis y dywedodd Arglwydd y lluoedd, Yn ddiau bydd tai lawer, mawrjon, a thêg, yn anghyfannedd heb drigïannydd.*

Amos vi. 4, 5, 6, 7. *Gorwedd y maent ar welyau ifori, ac ymestyn ar eu glythau, a bwyta'r ŵyn o'r praidd, a'r lloi o ganol y cut; y rhai a ddatganant gyd â llais y nabl, dychymmygasant iddunt eu hun offer cerdd, megis Dafydd; y rhai a yfant wîn mewn phiolau, ac a ymirant â'r ennaint pennaf; ond nid ymofidjant am ddrylljo Joseph. Am hynny'r awr hon hwy a ddygir yn gaeth gyd â'r cyntaf a ddygir yn gaeth.*

5. Trwsiadau neu wisgoedd anweddus a choeglyd y bŷd.

1 Ped. iii. 3, 4. *Trwsiad y rhai bydded nid yr un oddi allan, o blethïad gwallt, ac amgylchosodïad aur, neu wisgad dillad; eithr bydded cuddjedig ddŷn y gâlon, mewn anllygredigaeth ysbryd addfwyn a llonydd, yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr.*

Esay xxxii. 5, 6. *Ni elwïr mwy y coegddyn yn fonheddig. Canys coegwr a draetha goegni, a'i gâlon a wnâ anwir-*

odd. 1 Dim. ii. 9. Eſay iii. 16—26. Zeph. i. 8.

6. Drwg-arferïon y bŷd.

Rhuf. xii. 2. *Na chyd-ymffurfiwch â'r bŷd hwn, eithr ymnëwidjwch trwy adnëwyddiad eich meddwl; fel y profoch beth yw dajonus, a chymmeradwy, a pherffaith ëwyllys Duw.*

Eſcod. xxiii. 2. *Na ddilyn liaws i wneuthur drwg.*

7. Cyfeillach lygredig pobl y bŷd.

Jago iv. 4. *Oni wyddoch chwi fod cyfeillach y bŷd yn elynjaeth i Dduw? Pwy bynnag gan hynny a ëwyllyſio fod yn gyfaill i'r bŷd, y mae yn elyn i Dduw.*

Eph. v. 11. *Na fydded i chwi gyd-gyfeillach â gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch, eithr yn hytrach argyoeddwch hwynt.* Sal. cxix. 63, 115. Diar. xiii. 20. xxii. 24, 25. 1 Cor. xv. 33.

Cw. Ym mhwy yſtyr y dylech ymwadu neu ymwrthod â meddïannau neu wâg olud y bŷd hwn?

Att. 1. Mi ddylwn ymwrthod â cheiſio neu chwennychu golud y bŷd mewn ffordd anghyfiawn.

Hab. ii. 9, 11. *Gwae a elwö elw drwg i'w dŷ, i oſod ei nŷth yn uchel, i ddiangc o law'r drwg: o herwydd y garreg a leſa o'r mûr, a'r trawſt a'i hettyb o'r gwaith coed.*

Jer. xvii 11. *Fel pettris yn eiſtedd, ac heb ddeor, yw'r hwn a heljo gyfoeth yn annheilwng: yn hanner ei ddyddjau y gedy hwynt, ac yn ei ddiwedd ynfyd fydd.* Jer. xxii. 13.

2. Mi ddylwn ochelyd bod yn awyddus i ymgyfoethogi ym mhethau cyfreithlon y bŷd.

Diar. xxiii. 4. *Na ymflina i ymgyfoethogi; dôd heibio dy ſynwyr dy hun.*

Diar. xxviii. 20, 22. *Gûr ffyddlon a fydd aml ei fendithjon; ond y neb a bryſuro i fod yn gyfoethog, ni bydd digerydd. Gûr drwg ei lygaid a bryſura i ymgyfoethogi; ond bychan y gŵyr efe y daw tlodi arno.*

3. Mi ddylwn wrthod rhoddi fy ſerch a'm cariad ar bethau'r bŷd ſy gennyf.

Col. iii. 2. *Rhoddwch eich ſerch ar bethau ſydd uchod, nid ar bethau ſy ar y ddaear.*

Sal. lxii. 10. *O's cynhydda golud, na roddwch eich calon arno.*

4. Mi ddylwn wrthod rhoddi fy hyder a'm gobaith ym mhethau'r bŷd.

Marc x. 24. *Yr Jeſu a attebodd drachefn, ac a ddywedodd*

odd wrthunt, O blant, mor anhawdd yw i'r rhai ſy â'u hymddiried yn eu golud, fyned i deyrnas Dduw!

1 Dim. vi. 17. *Gorchymmyn i'r rhai ſy oludog yn y bŷd ymma, na byddont uchel feddwl, ac na obeithjont mewn golud anwadal, ond yn y Duw byw, yr hwn ſydd yn helaeth yn rhoddi i ni bôb peth i'w mwynhâu.*

5. Mi ddylwn lwyr ymwrthod â phôb peth a feddwyf yn y bŷd er mwyn Criſt, pan na allwyf ddilyn Criſt heb hynny.

Luc xiv. 26, 33. *O's daw nêb attaf fi, ac ni chasâo ei dâd, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwïorydd, ïe a'i einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddiſgybl i mi. Felly hefyd pôb un o honoch chwithau, nid ymwrthodo â chymmaint ôll ag y feddo, ni all fôd yn ddiſgybl i mi.*

Phil. iii. 7, 8. *Eithr y pethau oedd elw i mi, y rhai hynny a gyfrifais i yn golled er mwyn Criſt. Ïe yn ddiammau, yr wyf hefyd yn cyfrif pôb peth yn golled o herwydd ardderchowgrwydd gwybodaeth Criſt Jeſu fy Arglwydd: er mwyn yr hwn y'm colledwyd ym mhôb peth, ac yr wyf yn eu cyfrif yn dôm, fel yr ennillwyf Griſt.*

6. Mi ddylwn ymwrthod â gofal gofidus ac anghymhedrol ynghylch môdd i fyw yn y bŷd, gan roddi fy ngofal ar Dduw, heb fôd yn eſgeulus yng ngwaith fy ngalwäd; canys nid i feithrin fy ſegurdra y mae Duw yn gofalu droſof.

1 Ped. v. 7. *Gan fwrw eich hôll ofal ar Dduw; canys y mae efe yn gofalu droſoch chwi.*

1 Theſ. iv. 11, 12. *Gan wneuthur eich gorchwyljon eich hunain, a gweithjo â'ch dwylaw eich hunain;—fel na byddo arnoch eiſiau dim.*

2 Theſ. iii. 10. *Hyn a orchymmynnaſom i chwi, O's byddai neb ni ſynnai weithjo, na chai fwyta chwaith.*

7. Mi ddylwn ymwrthod afradu meddïannau'r bŷd, neu eu treuljo ar chwantau pechadurus fy nghnawd; eithr eu jawn arferyd er gogonïant i Dduw, a'm llês fy hun.

1 Cor. vii. 29, 31. *A hyn yr ydwyf yn ei ddywedud, frodyr; fod i'r rhai a arferant y bŷd, megis heb ei gam arfer. Canys y mae dull y bŷd hwn yn myned heibio.*

Diar. iii. 9. *Anrhydedda'r Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth pennaf o'th hôll ffrwyth.*

Jago iv. 3. *Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn, o herwydd eich bod yn gofyn a'r gam, fel y galloch eu treuljo ar eich meluſchwantau.*

Cw. Pa fâth yw chwantau pechadurus y cnawd? Yr hyn yw'r peth arall ſydd i chwi ymwrthod, ac ymwadu ag ef.

Att. Mae chwantau pechadurus y cnawd o amryw fâth, na's gellir yn drefnus eu hadrodd.

1. Mae rhai o chwantau'r cnawd yn gyfryw, ag ſy'n tueddu dynjon i lîd a chynfigen, digaſedd a chaſineb i'w gilydd: Dan lywodraeth y rhai hyn mae dynjon yn byw cyn eu troedigaeth.

Dit. iii. 3. *Yr oeddym ninnau hefyd gynt yn annoethjon, yn anufudd, yn cyfeiliörni, yn gwaſanaethu chwantau ac amryw feluſwedd; gan fyw mewn drygjoni a chynfigen, yn ddigaſog, yn casâu ei gilydd.*

2. Mae rhai chwantau cnawdol yn tueddu dynjon i lythineb a meddwdod, meluſwedd a danteithrwydd, ag y mae Duw yn ei wahardd.

Luc xxi. 34. *Edrychwch arnoch eich hunain, rhag i'ch calonnau un amſer drymhâu trwy lythineb, a meddwdod, a gofalon y bywyd hwn; a dyfod y dŷdd hwnnw arnoch yn ddiſymmwth.*

Diar. xxiii. 1, 2, 3, 31, 32. *Pan eiſteddych i fwyta gyd â thywyſog, yſtyrja yn ddyfal beth ſydd ger dy fron: A goſod gyllell ar dy gêg, o's byddi dŷn blyſig. Na ddeiſyf ei ddanteithjon ef: canys bwyd twyllodrus ydyw.—Nac edrych ar y gwîn pan fyddo côch, pan ddangoſo ei liw yn y cwppan, pan ymgynhyrfo yn jawn. Yn y diwedd, efe a frâth fel ſarph, ac a biga fel neidr.*

3. Mae rhai chwantau cnawdol yn tueddu dynjon a fyddo'n proffeſu Crefydd, i rwygo Cymmundeb Eglwyſig; gan ymrafaeljo â'i gilydd, ac ymrannu'n bleidjau, dan enw *Cydwybod*, neu *Grefydd*, pan na fyddo ond llygredd y cnawd yn y gwraidd o honunt.

1 Cor. iii. 3, 4. *Cnawdol ydych chwi etto. Canys tra fyddo yn eich plith chwi gynfigen, a chynnen, ac ymbleidjo, onid ydych yn gnawdol, ac yn rhodio yn ddynol? Canys tra dywedo un, Myfi ydwyf eiddo Paul; ac arall, Myfi wyf eiddo Apôlos; onid ydych yn gnawdol?*

4. Mae chwantau'r cnawd yn tueddu dynjon i odineb ac aflendid, ac amryw weithredoedd drwg eraill, ag y mae'r Apoſtol yn eu henwi ynghŷd yng *Ngal.* v. 19, 20, 21. *Amlwg yw gweithredoedd y cnawd; y rhai yw, Tor-priodas, godineb, aflendid, anlladrwydd, delwäddoliaeth, ſwyngyfaredd, caſineb, cynhennau,*

cynhennau, gwynfydau, llîd, ymryſonau, ymbleidjo, hereſiau, cynfigennau, llofruddjaeth, meddwdod, cyfeddach; a chyffelyb i'r rhai hyn: Am y rhai yr wyf fi yn rhagddywedud wrthych, megis ac y rhagddywedais, na chaiff y rhai fy'n gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw.

Cw. Pwy yſtyrjaethau ychwaneg, heb law Adduned eich Bedydd, fy'n dangos y dylech chwi ymwrthod â chwantau pechadurus y cnawd?

Att. 1. Mi ddylwn ymwrthod â chwantau'r cnawd, o blegid eu bod yn tywys dŷn i bechod.

Jago i. 14, 15. *Canys yna y temtir pôb un, pan y tynner ef, ac y llithjer, gan ei chwant ei hun. Yna chwant, wedi ymddîwyn, a eſgor ar bechod: pechod hefyd, pan orphenner, a eſgor ar farwölaeth.*

2 Ped. i. 4. *Llygredigaeth ſydd yn y bŷd trwy drachwant.* 2 Ped. ii. 10. Epheſ. iv. 22.

A rhai dynjon a arweinir gan chwantau'r cnawd i frynti digyffelyb ym mhlîth anifeiljaid.

Rhuf. i. 27. *Y gwŷr ynghŷd â gwŷr yn gwneuthur brynti, ac yn derbyn ynddunt eu hunain y cyfryw dâl am eu cyfeiliorni ag ydoedd raid.*

2. Mi ddylwn ymwrthod â chwantau'r cnawd, o blegid eu bod o blaid y cythreuljaid, yn ymladd yn erbyn fy enaid.

1 Ped. ii. 11. *Annwylyd, yr wyf yn attolwg i chwi, megis dieithrjaid a phererinjon, ymgedwch oddi wrth chwantau cnawdol, y rhai fy yn rhyfela yn erbyn yr enaid.*

3. Mi ddylwn ymwrthod â chwantau'r cnawd, o herwydd eu bod yn gwrthwynebu Ysbryd Grâs Duw yn fy enaid, ac yn fy rhwyſtro i wneuthur y dajoni a ddymunwyf.

Gal. v. 17. *Y mae'r cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd: a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na allech wneuthur beth bynnag a ëwyllyſioch.*

Rhuf. vii. 23. *Yr wyf yn gweled deddf arall yn fy aelodau, yn gwrthryfela yn erbyn deddf fy meddwl, ac yn fy nghaethiwo i ddeddf pechod, yr hon ſydd yn fy aelodau.*

4. Mi ddylwn ymwrthod à chwantau'r cnawd, o blegid na's dichon neb fod yn eiddo Criſt heb wneuthur felly: Ac i'r diben hyn y dioddefodd Criſt drosof.

Gal. v. 24. *A'r rhai fy eiddo Criſt a groeſhoeljaſant y cnawd, a'i wynjau, a'i chwantau.*

1 Ped. iv. 1, 2. *Am hynny, gan ddioddef o Grist drosom yn y cnawd, chwithau hefyd byddwch wedi eich arfogi â'r un meddwl: o blegid yr hwn a ddioddefodd yn y cnawd, a beidiodd â phechod; fel na byddo mwyach fyw i chwantau dynjon, ond i ëwyllys Duw, dros yr amser sydd yn ôl yn y cnawd.*

5. Mi ddylwn ymwrthod â chwantau'r cnawd, o blegid fod cydsynnïo â chwant y cnawd yn fy ngwneuthur yn euog o bechod, cyn ei gyflawni'n weithredol.

Math. v. 28. *Yr ydwyf fi yn dywedud i chwi, fod pôb un sydd yn edrych ar wraig, i'w chwennychu hi, wedi gwneuthur eisoes odineb â hi yn ei gàlon.*

1 Joan iii. 15. *Pôb un sydd yn casâu ei frawd, lleiddjad dŷn yw.*

6. Mi ddylwn ymwrthod â chwantau'r cnawd, o blegid pan mae dynjon yn cael bodloni eu chwant, y mae er niwaid iddunt, a barn Duw weithjau yn dyfod arnunt pan font yn mwynhâu eu chwantau.

Sal. cvi. 14, 15. *Yr Juddewön a flysiasant yn ddirfawr yn yr anialwch; a themtiasant Dduw yn y diffeithwch. Ac efe a roddes eu dymuniad iddunt; eithr efe a anfonodd gulni i'w henaid.*

Sal. lxxviii. 30, 31. *Ni ommeddwyd hwynt o'r hyn a flysiasant: Er hynny, tra'r ydoedd y bwyd yn eu safnau, digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn hwynt, ac a laddodd y rhai brasaf o honunt, ac a gwympodd etholedigjon Israël.*

Zimri a *Chozbi* a laddwyd yn y weithred o odineb, *Num.* xxv. *Elah* a laddwyd yn ei feddwdod, 1 *Bren.* xvi. A *Belsassar* a gafodd wys angau yn ei loddest, *Dan.* v.

7. Mi ddylwn ymwrthod â chwantau'r cnawd, o blegid mai'r rhai'n fy'n peri cymmaint o derfysg yn y bŷd, ac yn gwneuthur dynjon mor flinderus i'w gilydd.

Jago iv. 1. *O ba le y mae rhyfeloedd ac ymladdau yn eich plith chwi? Onid oddi wrth hyn; sef, eich meluschwantau, y rhai sydd yn rhyfela yn eich aelodau?*

8. Mi ddylwn ymwrthod â chwantau'r cnawd, o blegid mai'r chwantau hyn fy'n gwneuthur gweinidogaeth Gair Duw yn ddiffrwyth; ïe hefyd, yn gwneuthur dynjon yn watwarwyr, ac yn eu cymhwyso i ddamnedigaeth yn nŷdd y Farn.

Marc iv. 19. *Y mae gofalon y bŷd hwn, a hudoliaeth golud, a chwantau*

a chwantau am bethau eraill, yn dyfod i mewn, ac yn tagu'r gair, a myned y mae yn ddiffrwyth.

2 Ped. iii. 3. *Gan wybod hyn yn gyntaf, y daw yn y dyddjau diweddaf watwarwyr, yn rhodio yn ôl eu chwantau eu hunain.*

2 Ped. ii. 10. *Y rhai fy'n rhodio ar ôl y cnawd mewn chwant afiendid, ac yn diyſtyru llywodraeth. Rhyfygus ydynt, cyndyn; nid ydynt yn arſwydo cablu urddas.*

9. Mi ddylwn ymwrthod â chwantau'r cnawd, o blegid bod yr annuwjol yn gwerthu eu hawl yng Nghyfammod Duw, a Chriſt, a Theyrnas Nefoedd, am borthïant eu blŷs a'u chwantau cnawdol.

Heb. xii. 16, 17. *Megis Eſau, yr hwn am un ſaig o fwyd a werthodd ei enedigaethfraint. Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hynny hefyd ei wrthod ef, pan oedd efe yn ëwyllyſio etifeddu y fendith: o blegid ni chafodd efe le ei edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaergeiſio hi.*

10. Mi ddylwn ymwrthod â chwantau'r cnawd, o blegid fod byw yn ôl chwant a ſynnïad y cnawd, yn nôd o farwölaeth dragywyddol, a gelynjaeth i Dduw.

Rhuf. viii. 6, 7. *Canys ſynnïad y cnawd, marwölaeth yw; a ſynnïad yr ysbryd, bywyd a thangnefedd yw. O blegid ſynnïad y cnawd ſydd elynjaeth yn erbyn Duw: canys nid yw ddaroſtyngedig i ddeddf Duw; o blegid ni's gall chwaith.*

Cau. Chwi a ddywedaſoch yn helaeth, allan o Air Duw, ynghylch y gelynjon ysbrydol ag y ddylech ymwrthod â hwynt; beth yw'r ail beth a ofynnir oddi wrthych yn y Cyfammod Bedydd?

Att. Yr ail beth a ofynnir gennyf yn y Cyfammod Bedydd yw, *bod i mi gredu holl Byngcjau Ffŷdd Criſt.* Yn yr hyn y cynhwyſir pump peth.

1. Y weithred ei hun; ſef, *credu.*

2. Pwy ſydd i wneuthur felly; ſef, bod i *mi fy hun gredu,* wedi dyfod i oedran a dyall; ac nid arall drofof.

3. Pa beth ſydd i mi gredu; ſef, *Pyngcjau'r Ffŷdd:* nid chwedlau gwrachaidd, na gwrthreſymmau dynjon cyfeiliornus.

4. Pa rai o honunt ſydd i mi gredu; ſef, *holl* Byngcjau'r Ffŷdd: Nid yn unig ryw nifer o honunt, ond i gŷd; megis eu dyſgir yn yr Yſgrythur, ac y cynhwyſir y ſwm o honunt yng Nghredo yr Apoſtoljon.

5. Ffŷdd pwy; ſef, *Ffŷdd Griſt:* nid ffŷdd ddynol, neu ffŷdd Eglwys *Rhufain:* Hynny yw, y Ffŷdd y mae Griſt yn wrthddrych o honi; y Ffŷdd y mae Criſt yn orchymmyn yn yr Eſengyl, ac yn ei ofyn ym mhawb a ſynno fod yn gadwedig trwyddo.

Cw. Pa ſawl mâth o Ffŷdd ſydd?

Att. Mae pedwar mâth o Ffŷdd.

1. Ffŷdd hiſtoriawl; hynny yw, credu gwirjonedd yr Yſgrythurau, fod hiſtori neu hanes y pethau ſydd ynddunt yn wîr. Y Ffŷdd hon ſydd gan lawer o ddynjon drwg, a chan yr hôll ysbrydjon drwg.

Jago ii. 19. *Credu yr wyt ti mai un Duw ſydd; da yr wyt ti yn gwneuthur. Y mae y cythreuljaid hefyd yn credu, ac yn crynu.* Marc i. 24.

2. Ffŷdd amſerol: trwy ba un y mae rhai yn credu ac yn proffeſu Creſydd dros drô; a chwedi hynny yn troi i'w hoſer ymarweddiad gynt.

Luc viii. 13. *Y rhai hyn nid oes ganddunt wreiddyn; y rhai ſydd yn credu dros amſer, ac yn amſer profedigaeth yn ciljo.*

3. Ffŷdd wyrthjol: trwy ba un y gwnaeth rhai dynjon ryfeddodau a gwyrthjau, heb fod mewn cyflwr cadwëdig, na dyfod bŷth i Deyrnas Nefoedd; canys hwynt-hwy a wrthodir gan yr Arglwydd yn nŷdd y Farn.

Math. vii. 22, 23. *Llawer a ddywedant yn y dŷdd hwnnw, Arglwydd, Arglwydd, oni phrophwydaſom yn dy enw di? ac oni fwriaſom allan gythreuljaid yn dy enw di? ac oni wnaethom wyrthjau lawer yn dy enw di? Ac yna yr addefaf iddunt, Ni's adnabûm chwi erjôed: ewch ymmaith oddi wrthyf, chwi weithredwyr anwiredd.* Luc ix. 1.

4. Ffŷdd jachuſol: trwy'r hon yn unig y rhoddir i mi hawl yng Nghriſt am jechydwrjaeth ſy enaid.

Act. xvi. 31. *A hwy a ddywedaſant, Crêd yn yr Arglwydd Jeſu Griſt, a chadwëdig fyddi.*

Joan iii. 36. *Yr hwn ſydd yn credu yn y Mâb, mae ganddo fywyd tragywyddol: a'r hwn ſydd heb gredu i'r Mâb, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.*

Cw. Pa fath yw Ffŷdd jachuſol, trwy'r hon yn unig y mae jechydwrjaeth?

Att. Ffŷdd jachuſol yw, rhôdd a gwaith Grâs Duw yn y galon; trwy weinidogaeth y Gair yn nerthu dynjon i dderbyn Criſt, ſel y mae efe yn cynnyg ei hun iddunt.

Eph.

Eph. ii. 8. *Canys trwy râs yr ydych yn gadwëdig trwy ffŷdd; a hynny nid o honoch eich hunain: rhôdd Duw ydyw.*

Rhuf. x. 10. *A'r gàlon y credir i gyfiawnder.*

1 Cor. iii. 5. *Pwy yw Paul, a phwy Apôlos, ond gweinidogion, trwy y rhai y credaſoch chwi, ac fel y rhoddes yr Arglwydd i bôb un?*

Joan i. 12. *Cynnifer ag a'i derbynjaſant ef, efe a roddes iddunt allu i fod yn feibjon i Dduw; ſef, i'r ſawl a gredant yn ei enw ef.*

Cw. Beth mae Ffŷdd jachuſol yn wneuthur, pan ddêl hi i mewn i gàlon dŷn?

Att. 1. Mae'n ſancteiddjo'r gàlon, ag oedd yn llawn halogrwydd ac aflendid o'r blaen.

Act. xv. 9. *Gan buro eu calonnau hwy trwy ffŷdd.*

2. Mae'n goleuo'r dyall i adnabod Criſt. Am y rhai ag oedd ganddunt Ffŷdd yn yr Arglwydd Jeſu y dywed yr Apoſtol eu bod *wedi goleuo llygaid eu meddyljau; fel y gwypent beth oedd gobaith ei alwëdigaeth ef.* Eph. i. 15, 18.

3. Mae'n daroſtwng ëwyllys dŷn, i'w wneuthur yn ufudd i Ewyllys Duw.

Sal. cx. 3. *Dy bobl a fyddant ëwyllyſgar yn nŷdd dy nerth, mewn harddwch ſancteiddrwydd o grôth y wawr.*

4. Mae'n adnëwyddu'r ſerchjadau i garu Criſt, ac i lawenychu ynddo.

1 Ped. i. 8. *Yr hwn, er na's gwelſoch, yr ydych yn ei garu; yn yr hwn, heb fod yr awron yn ei weled, ond yn credu, yr ydych yn mawrlawenhâu â llawenydd annrhaethadwy a gogoneddus.*

5. Mae'n peri i ddŷn ymwadu ag ef ei hun ym mhôb peth, er mwyn Criſt.

Luc xviii. 28. *A dywedodd Pedr, Wele, nyni a adawſom bôb peth, ac a'th ganlynaſom di.*

Cw. Ym mha fôdd y mae Grâs neu Ysbryd Duw yn gweithjo Ffŷdd trwy weinidogaeth y Gair?

Att. 1. Trwy'r ddeddf, neu â bygythjon Gair Duw, y dygir dŷn i wybod am ei bechod, ac i weled mor fawr a pheryglus yw.

Rhuf. iii. 20. *Canys trwy'r ddeddf mae adnabod pechod.* Gal. iii. 24.

2. Trwy leſerydd Gair Duw, y meddalhêir ac y daroſtyngir càlon dŷn, ag ſy wedi caledu mewn pechod.

2 Bren. xxii. 19. *O blegid i'th gàlon feddalhâu, ac i titbau ymoſtwng o flaen yr Arglwydd, pan glywaiſt yr hyn a lefarais yn erbyn y lle hwn, ac yn erbyn ei drigoljon.*

3. Trwy ei Air y mae Duw yn dwysbigo dŷn pechadurus, ac yn llenwi ei gydwybod â dychryn, i beri iddo ymofyn am ymwared.

Act. ii. 37. *Hwythau, wedi clywaid hyn, a ddwysbigwyd yn eu càlon; ac a ddywedaſant wrth Bedr a'r apoſtoljon eraill, Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?*

4. Mae Grâs Duw, a'i Air ef, yn peri i ddŷn gydnabod mor ddiles yw pôb peth iddo, tra fyddo ei enaid mewn cyflwr colledig.

Math. xvi. 26. *Canys pa lesâd i ddŷn, o's ynnill efe yr hôll fŷd, a cholli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dŷn yn gyfnëwid am ei enaid?*

5. Mae'n peri i ddŷn weled ei bechod a'i golledigaeth mor fawr, na's dichon efe ei hun, nac un creadur arall, ei waredu ef.

Rhuf. vii. 24. *Yſ truan o ddŷn wyf fi! pwy a'm gwared oddi wrth gorph y farwölaeth hon?*

6. Trwy Air Duw, a'i Râs, y dygir dŷn i ymofyn am Griſt, ac i ymoſtwng iddo; gan gredu ei fod efe yn Waredwr abl: ac yna mae Criſt yn ei dderbyn ef yn garedig.

Luc v. 12, 13. *A bu fel yr oedd efe mewn rhyw ddinas, wele ŵr yn llawn o'r gwahanglwyf: a phan welodd efe y Jeſu, efe a ſyrthjodd ar ei wyneb, ac a ymbiljodd ag ef, gan ddywedud, O Arglwydd, o's ëwyllyſi, ti a elli fy nglanhâu. Yntef a eſtynnodd ei law, ac a gyffyrddodd ag ef, gan ddywedûd, Yr wyf yn ëwyllyſio; bydd lân. Ac yn ebrwydd y gwahanglwyf a aeth ymmaith oddi wrtho.*

7. Ar ôl i enaid dŷn brofi Carïad Criſt, y mae yn ymofyn yn ei ôl yn ddyfalach, ac yn ymwrthod â phôb peth, i orphwys ei hun ar Gyfiawnder Criſt, trwy Ffŷdd yn unig.

Can. iii. 2. *Codaf yn awr, ac âf o amgylch y ddinas, trwy'r heolydd a'r 'ſtrydoedd; ceiſiaf yr hwn a hoffa fy enaid.*

Phil. iii. 8, 9. *Yr wyf yn cyfrif pôb peth yn golled, o herwydd rhagoldercbowgrwydd gwybodaeth Criſt Jeſu fy Arglwydd: er mwyn yr hwn y'm colledwyd ym mhob peth, ac yr wyf yn eu cyfrif yn dom, fel yr ennillwyf Griſt; ac y'm caer ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun, yr hwn ſydd o'r gyfraith, ond yr hwn ſydd trwy ffŷdd Griſt, ſef y cyfiawnder ſydd o Dduw trwy ffŷdd.*

Cw.

Cw. Pa'm y mae Ffŷdd yng Nghrift yn angenrheidjol?

Att. 1. O blegid megis ag yr ydym, trwy dorri'r Cyfammod Gweithredoedd, wedi ein cau allan o ffafr Duw yn dragywydd: Ffŷdd yng Nghrift yw'r Ammod ar ba un y'n derbynjir i heddwch â Duw dracheſn, ac i obaith bywyd tragywyddol trwy'r Cyfammod Grâs.

Joan iii. 16, 18, 36. *Canys felly y carodd Duw y bŷd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fâb, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol. Yr hwn ſydd yn credu ynddo ef, ni ddemnir: eithr yr hwn nid yw yn credu, a ddamnwyd eiſoes; o herwydd na chrededd yn enw uniganedig Fâb Duw. Yr hwn ſydd yn credu yn y Mâb, y mae ganddo fywyd tragywyddol: a'r hwn ſydd heb gredu i'r Mâb, ni wêl fywyd; eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.* Gal. iii. 11.

2. Ffŷdd yw'r gwaith a'r gorchymmyn y mae Duw yn ei roddi dan yr Efengyl, i broſi ffyddlondeb ei bobl.

Joan vi. 29. *Hyn yw gwaith Duw; credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe.*

1 Joan iii. 23. *A hwn yw ei orchymmyn ef, gredu o honom yn enw ei Fâb ef Jeſu Griſt.*

3. Trwy Ffŷdd yng Nghrift y cyfiawhêir ac y maddeuir pechodau y rhai a gredant.

Act. xiii. 38, 39. *Am hynny bydded hyſbys i chwi, ha wŷr frodyr, mai trwy hwn* (ſef, Criſt) *yr ydys yn pregethu i chwi ſeddeuant pechodau: A thrwy hwn y cyfiawnhêir pôb un ſydd yn credu, oddi wrth yr hôll bethau, y rhai ni allech trwy gyfraith Moſes gael eich cyfiawnhâu oddi wrthunt.*

Gal. ii. 16. *Gan wybod nad ydys yn cyfiawnhâu dŷn trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy ffŷdd Jeſu Griſt.* Gal. iii. 11.

4. Y rhai nid oes ganddunt Ffydd yng Nghrift, nid ydynt yn eiddo Criſt.

Joan x. 26. *Ond chwi nid ydych yn credu: canys nid ydych chwi o'm defaid i; fel y dywedais i chwi.*

5. Trwy Ffŷdd yng Nghrift yn unig y gwrandewïr ein Gweddïau, yn y pethau y fo'm yn geiſio gan Dduw wrth ein hangen.

Math. xxi. 22. *A pha beth bynnag a ofynnoth mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i derbynjwch.*

Jago i. 6, 7. *Eithr goſynned mewn ffŷdd, heb ammau dim. Canys yr hwn ſydd yn ammau, ſydd gyffelyb i dôn y*

môr.

môr a chwelir ac a deflir gan y gwynt. Canys na feddyljed y dŷn hynnw y derbyn efe ddim gan yr Arglwydd. Eph. iii. 12.

6. Ffŷdd yng Nghrift ſy'n gwneuthur dynjon yn ffrwythlon yn ffyrdd yr Arglwydd, ac yn gwneuthur moddjon Grâs yn ſuddjol iddunt.

Jer. xvii. 7, 8. *Bendigedig yw'r gŵr a ymddirïedo yn yr Arglwydd, ac y byddo'r Arglwydd yn gymmorth iddo. Canys efe a ſydd megis pren wedi ei blannu wrth y dyfroedd, ac a eſtyn ei wraidd wrth yr afon; ac ni ŵyr oddi wrth ddyfod gwrês: ei ddeilen fydd îr, ac ar flwyddyn ſychder ni ofala, ac ni phaid â ffrwytho.*

Heb. iv. 2. *Canys i ninnau y pregethwyd yr efengyl, megis ag iddunt hwythau: eithr y gair a glybüwyd ni bu ſuddjol iddunt hwy, am nad oedd wedi ei gyd-dymheru â ffŷdd yn y rhai a'i clywſant.*

7. Trwy Ffŷdd yng Nghrift, y mae'r duwjol yn cyflawni Addolïad Duw mewn môdd cymmeradwy.

Heb. xi. 4, 6. *Trwy ffŷdd yr offrymmodd Abel i Dduw aberth rhagorach nâ Chain. Heb ffŷdd ammhoſſibl yw rhyngu ei fôdd ef.*

Rhuf. xiv. 23. *Eithr yr hwn ſydd yn petruſo, o's bwyty, efe a gondemnwyd, am nad yw yn bwyta o ffŷdd. A pheth bynnag nid yw o ffŷdd, pechod yw.*

8. Trwy Ffŷdd yng Nghrift, y mae gorchſygu profedigaethau'r bŷd a Satan.

1 Joan v. 4. *O blegid beth bynnag a aned o Dduw, y mae yn gorchfygu'r bŷd: a hon yw'r oruchafiaeth ſydd yn gorchfygu'r bŷd; ſef, ein ffŷdd ni.*

Eph. vi. 16. *Uwch law pôb dim, wedi cymmeryd tarian y ffŷdd; â'r hwn y gellwch ddiffoddi hôll biccellau tanllyd y fall.* 1 Ped. v. 8, 9.

9. Mae amryw ddyledſwyddau mewn Creſydd, na's gellir eu cyflawni heb Ffŷdd yng Nghrift.

Luc xvii. 4, 5. *Ac o's pecha* (dy frawd) *yn dy erbyn ſeithwaith yn y dŷdd, a ſeithwaith yn y dŷdd droi attat, gan ddywedud, Y mae yn edifar gennyf; maddau iddo. A'r apoſtoljon a ddywedaſant wrth yr Arglwydd, Anghwanega ein ffŷdd ni.*

Luc xiv. 26, 27. *O's daw neb attaf fi, ac ni chasâo ei dâd, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwïorydd,*

ïe a'i einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddiſgybl i mi. A phwy bynnag ni ddycco ei groes, a dyfod ar ſy ôl i, ni all efe fod yn ddiſgybl i mi.

10. Trwy Ffŷdd yng Nghriſt y mae cyſſur y Criſtjon dan drallodau'r bŷd a blinderau.

Joan xiv. 1. *Na thralloder eich càlon: yr ydych yn credu yn Nuw; credwch ynnof finnau hefyd.*

Rhuf. v. 2, 3. *Trwy yr hwn* (ſef, trwy Griſt) *y cawſom ddyfodfa trwy ffŷdd, i'r grâs hyn, yn yr hwn yr ydym yn ſefyll, ac yn gorfoleddu dan obaith gogonïant Duw. Ac nid felly yn unig, eithr yr ydym yn gorfoleddu mewn gorthrymderau.* Nah. i. 8. Rhuf. ix. 33.

11. I'r rhai a ymddirïedant yn Nuw trwy Ffŷdd, y mae efe yn parotôi pethau annrhaethadwy.

Eſay lxiv. 4. *Ac erjôed, ni chlywſant, ni dderbynjaſant â chluſtjau, ac ni welodd llygad, Oh Dduw, ond tydi, yr hyn a ddarparodd efe i'r neb a ddiſgwil wrtho.*

Sal. xxxi. 19. *Mor fawr yw dy ddaïoni a roddaiſt i gadw i'r ſawl a'th ofnant; ac a wnaethoſt i'r rhai a ymddirïedant ynnot, ger bron meibjon dynjon!* 2 Theſ. i. 10.

12. Y diffyg o Ffŷdd, ſef anghredinïaeth, a gyffrôdd ddigllonedd Duw yn erbyn y bobl a gymmerodd efe, yn eu dŷdd, yn bobl neillduol iddo ei hun, gorûwch hôll genhedlaethau'r ddaear.

Sal. lxxviii. 21, 22. *Am hynny y clybu'r Arglwydd, ac a ddigjodd: a thân a ennynnodd yn erbyn Jacob, a digofaint hefyd a gynneuodd yn erbyn Iſräel; am na chredent yn Nuw, ac na obeithjent yn ei jechydwrjaeth ef.*

Rhuf. xi. 20. *Trwy anghredinïaeth y torrwyd hwynt ymmaith; a thithau ſydd yn ſefyll trwy ffŷdd. Na fydd uchelfryd; eithr ofna.*

Cw. A ydyw'n angenrheidjol tu ag at jechydwrjaeth, i bawb feddu yr un feſur o gryfdwr Ffŷdd, fel na's gall neb gael jechydwrjaeth heb gymmaint o Ffŷdd a'r Seintjau cryfaf?

Att. Pwy gryfaf y bo'n Ffŷdd, mwyaf y gogoneddwn yr Arglwydd; mwyaf fydd ein nerth mewn profedigaethau mawrjon a dyledſwyddau trymjon; a mwyaf fydd ein cyſſur yn nŷdd ein trallod. Eithr, rhag i'r rhai egwan anobeithjo, nid yw'r meſur o Ffŷdd ag fydd yn y Seintjau cryfaf yn angenrheidjol i jechydwrjaeth, fel na's gellir bod yn gadwëdig heb dynny.

1. O blegid yn ddiammau fod graddau mewn Grâs yn y bŷd hwn, megis y mae graddau mewn Gogoniant yn y bŷd a ddaw.

1 Cor. xv. 41, 42. *Canys mae rhagor rhwng ſeren a ſeren mewn gogoniant. Felly hefyd y mae adgyfodiad y meirw.*

Eph. iv. 7. *Eithr i bôb un o honom y rhoed grâs, yn ôl meſur dawn Criſt.*

Rhuf. xii. 3. *Fel y rhannodd i bôb un feſur ffŷdd.* Dan. xii. 3. 1 Cor. iii. 8. 2 Cor. ix. 6.

2. Mae'r Yſgrythur yn llefaru am rai gwŷr enwog yn y Grâs o Ffŷdd, megis rhai ag oedd yn rhagori ar Seintjau eraill; yr hyn ni allaſai fod, pe buaſai angenrheidrwydd anhepgorol tu ag at jechydwrjaeth am yr un meſur o Ffŷdd ym mhawb a'i gilydd.

Felly y ſonjer am gryfdwr rhagorol y Grâs hwn yn *Abraham*, ei fod yn ddiegwan o Ffŷdd, gan gredu mewn gobaith yn erbyn gobaith, heb ammau Addewid Duw trwy anghredinïaeth: Am hynny y rhoddodd Duw anrhydedd rhagorach iddo ef nag i Seintjau crediniol eraill; Tâd y ffyddlonjaid, a Chyfaill Duw, y galwyd ef. *Rhuf.* iv. 18, 19, 20. *Jago* ii. 23.

Am y canwrïad y dywedodd Criſt, *Ni chefais gymmaint Ffŷdd, na ddo yn yr Iſräel.* Yr oedd rhai ychwaneg y prŷd hynny yn *Iſräel* yn meddu Ffŷdd, eithr nid cymmaint. *Math.* viii. 10. Wrth y wraig o *Ganaan* y dywedodd Criſt, *Ho wraig, mawr yw dy ffŷdd.* Yr oedd rhai gwragedd eraill trwy Ffŷdd yn canlyn Criſt, ac yn gweini iddo; er na roddwyd cymmaint clôd i'w Ffŷdd hwy. *Math.* xv. 28.

3. Er mwyn annogaeth i'r gweinjon, nid er rhyfyg i neb, mae'r Yſgrythur yn tyſtjo, fod ofn ac amheuaeth, neu feſur o anghredinïaeth, yn ymddangos weithjau yn Ffŷdd y ffyddlonjaid, ag fydd mewn 'ſtâd o Râs a Jechydwrjaeth.

Pwy fel *Moſes*, yr hwn y llefarodd Duw wrtho wyneb yn wyneb, ac a gaſwyd yn ffyddlon yn hôll dŷ Dduw? *Num.* xii. 7, 8. Etto y *Moſes* digyffelyb hwn a geryddwyd gan Dduw, am ei anghredinïaeth, *Num.* xx. 12.

Yr oedd *Zacharïas* a'i wraig ill dau yn gyfiawn ger bron Duw; ac wele'r gŵr cyfiawn hwnnw a darawyd yn fûd, am na chredaſai yr hyn a lefaraſid wrtho gan Angel Duw, *Luc.* i. 6, 20.

Yr Arglwydd Jeſu a ddywedodd wrth ei Apoſtoljon, yn y ſtorom ar y môr, *Pa ham yr ydych yn ofnus, O chwi o ychydig ffŷdd?*

ffŷdd? Yn ddiammau eu bôd mewn 'ſtâd o jechydwrjaeth; canys yr oedd ganddunt Fſŷdd, er nad oedd ond ychydig. Ac ni wnaethai Criſt hwy'n Apoſtoljon, cyn eu gwneuthur yn wîr Griſtjonogjon yn gyntaf. Ac heſyd am danunt hwy y dywedodd Criſt, *y cewch chwi, y rhai a'm canlynaſoch i yn yr adenedigaeth, eiſtedd ar ddeuddeg gorſedd, yn barnu deuddeg-llwyth Iſräel.* Math. viii. 24, 25, 26. xix. 28.

Mae rhai o'r Seintjau weithjau, pan dybjont eu hunain gryfaf mewn Ffŷdd, yn ſyrthjo ym mhen ychydig, ſe allai cyn pen awr, trwy ryw brofedigaeth neu gilydd, i ofn mawr ac amheuaeth. Felly mewn tymmeſtl arall, *Pedr* a gredodd yn hyderus y gallai eſe rodio at Griſt ar wyneb y môr, ond iddo gael gorchymmyn Criſt am hynny: Eithr *Pedr* yn ebrwydd a ddechreuodd ſuddo i'r dyfnder, gan ofni, a chrochlefain am help; a'r Arglwydd à ddywedodd wrtho, *Tydi o ychydig ffŷdd, pa ham y petruſaiſt?* Math. xiv. 28—31.

Mae amryw o reſtr y Seintjau enwög am eu Fſŷdd, yn yr unfed ar ddeg o'r *Hebreaid*, yn gyfryw ag y ceir, dan eu hanes yn yr Hên Deſtament, nodau rhyw feſur o anghrediniaeth ynddunt ar brydjau.

Rhuf. xv. 4. *Pa bethau bynnag a'ſgrifennwyd o'r blaen, er addyſg i ni y'ſgrifennwyd hwynt; fel trwy ammynedd a diddanwch yr yſgrythurau y gallem gael gobaith.* Felly mae achlyſur i'r gwîr Griſtjon gwannaf obeithjo, ac i'r rhai cryfaf ddywedud, *Arglwydd, chwanega ein ffŷdd ni,* Luc xvii. 4.

4. Mae amryw yſtyrjaethau cyffelybïaethol yn profi, nad yw'r un meſur o ſicrwydd a grymmuſdra Ffŷdd ag ſydd gan rai, yn anhepgorol i bawb; fel nad yw boſſibl i'r gwan gael jechydwrjaeth byth, oddïeithr bod ganddo yr un gryfder dieg-wan o Ffŷdd ag *Abraham.*

Canys y mae yn nheulu'r Ffŷdd, fel teuluoedd eraill, amryw raddau, mewn grym ac oedran; ſef, cryfion a gweinjaid, plant, wŷr jeuainge, a thadau: fel y ſonja *Joan* yr Apoſtol, 1 *Joan* ii. 12, 13. Y rhai nid ydynt i gŷd wedi tyfu i fynu *yn wŷr perffaith, at* yr un *feſur o oedran cyflawnder Criſt,* Eph. iv. 13.

Mae aelodau o amryw raddau yn perthyn i Gorph ysbrydol Criſt, fel y mae yng nghorph naturjol dŷn; rhai yn uwch, a rhai yn gryfach: ac etto'r gwannaf a'r iſelaf yn eiddo Criſt, fel eraill.

1 Cor. xii. 15, 16. *O's dywed y troed, Am nad wyf law, nid wyf o'r corph; ai am hynny nid yw efe o'r corph? Ac o's dy-*

wed

wed y clûſt, Am nad wyf lygad, nid wyf o'r corph; ai am hynny nid yw hi o'r corph?

Mae golwg Ffŷdd, fel golwg y llygaid, yn gryfach mewn rhai, ac yn wannach mewn eraill. Yn ddiammau, nid oedd golwg pobl *Iſräel* o'r un gryfder yn yr hên a'r jeuaingc; ſef, ym mhawb o honunt i gŷd: Ac, er hynny, y gwannaf ei olwg, ag a edrychai ar y Sarph brês, a dderbynjai rinwedd effeithjol oddi wrthi i'w jachâu oddi wrth frathïadau marwöl y ſeirph tanllyd. Felly ni bydd farw'n dragywydd, pwy bynnag, y gwannaf mwy nâ'r cryfaf ei Ffŷdd, a gredo yng Nghrift Jeſu.

Joan iii. 14, 15. *Megis y dyrchafodd Moſes y ſarph yn y diffeithwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mâb y dŷn: fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.*

5. Er mwyn gweini achlyſur i'r gweinjon i gryfhâu, y mae'r Arglwydd yn dangos tiriondeb a charueiddwch mawr iddunt, i'w hannog i obeithjo a diſgwil wrtho.

Eſay l. 10. *Pwy yn eich mŷſg ſydd yn ofni yr Arglwydd, yn grandaw ar lais ei wâs ef, yn rhodio mewn tywyllwch, ac heb lewyrch iddo? gobeithjed yn enw'r Arglwydd, ac ymddiriëded yn ei Dduw.*

Math. xii. 20. *Corſen yſſig ni'i tyrr, a llîn yn mygu ni'i diffydd; hyd oni ddygo efe allan farn i fuddugoliaeth.*

Rhuf. xiv. 1, 4. *Yr hwn ſydd wân yn y ffŷdd, derbynjwch attoch, nid i ymrafaelïon rheſymmau. Efe a gynhelir; canys ſe all Duw ei gynnal ef.*

Heb. xii. 12. *O herwydd pa ham cyfodwch i fynu y dwylau a laeſaſant, a'r glinjau a ymollyngaſant.* Heb. x. 35. Marc i. 40, 41. ix. 22—24.

Cw. Pa fodd y dylech wneuthur, pan fyddoch yn ofidus o blegid lleſgedd ac amheuaeth eich Ffŷdd?

Att. Gan mai rhôdd a gweithredïad Duw yw Ffŷdd, m ddylwn ddiſgwil wrth Dduw am chwanegu fy Ffŷdd yn y ffyrd y mae efe yn dyſgu i mi.

1. Mi ddylwn ddiſgwil yn ddyfal wrth Dduw dan weinido gaeth ei Air ef.

1 Ped. ii. 2. *Fel rhai bychain newydd eni, chwennychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynhyddoch trwyddo ef.*

Rhuf. x. 17. *Am hynny ffŷdd ſydd trwy glywaid, a chlywaid tru y air Duw.* Joan xx. 31.

2. M

2. Mi ddylwn godi fy llêf at Dduw mewn Gweddi, pan wyf yn ofidus o blegid gwendid fy Ffŷdd, ac anobaith yn gwaſgu arnaf.

Salm xxxi. 22. *Mi a ddywedais yn fy ffrwſt, Fe'm bwrïwyd allan o'th olwg: er hynny ti a wrandewaiſt lais fy ngweddïau pan lefais arnat.*

Salm xxxiv. 6. *Y tlawd hwn a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu, ac a'i gwaredodd o'i hôll drallodau.*

3. Mi ddylwn droi wyneb fy enaid at yr Arglwydd Jeſu, i edrych am yr Jechydwriaeth y mae efe yn ei addo.

Eſay xlv. 22. *Trowch eich wynebau attaf fi, hôll gyrrau'r ddaear, fel y'ch achuber: canys myfi wyf Dduw; ac nid neb arall.*

Salm xxxiv. 5. *Edrychaſant arno, a hwy a oleüwyd, a'u hwynebau ni chywilyddjwyd.*

4. Mi ddylwn yn fynych ac yn barchus gyfarfod â Chriſt yn Swpper yr Arglwydd, i gael fy nilwytho o'm hofn a'm hamheuaeth flinderus: Canys yno y mae yn ſicrhâu ac yn ſeljo i mi gymmundeb ag ef yn ei Gorph a'i Waed, ac yn ganlynol o'r hôll Ddonjau a bwrcaſodd; fel y gallwyf yn ddiamheuus eu cymhwyſo attaf fy hun, a dywedud, Wele, Criſt a'*m carodd i*, a fu farw droſof fi, a dywalldodd ei Waed i'm golchi i; ac wele, y mae efe yn awr yn byw bŷth ar ddeheulaw Duw i eirjol droſof fi.

1 Cor. x. 16. *Phiol y fendith yr hon a fendigwn, onid cymmun gwaed Criſt ydyw? Y bara yr ydym yn ei dorri, onid cymmun corph Criſt yw?*

Math. xi. 28. *Deuwch attaf fi bawb ag y ſydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a eſmwythâaf arnoch.*

5. Mi ddylwn yſtyrjaid yn hyddyſg y Cyfammod Grâs a wnaed â mi yng Nghyfryngdod Criſt; lle mae y Duw mawr yn ymrwymo am fy jechydwrjaeth; ac yn yr hwn y mae plant Duw yn cael cyſſur yn eu horjau dïweddaf a'u hamgylchïadau mwyaf gofidus.

2 Sam. xxiii. 1, 5. *Dymma eirjau dïweddaf Doſydd. Efe a ddywedodd, Er nad yw fy nhŷ i felly gyd â Duw; etto cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei lunjaethu yn hollol, ac yn ſicr: canys fy hôll jechydwrjaeth, a'm hôll ddymunïad yw, er nad yw yn peri iddo flaguro.*

6. Mi ddylwn (er mwyn chwanegu fy Ffŷdd yn Nuw) yſtyrjaid Dajoni a Ffyddlondeb, Trugaredd a Gwirjonedd Duw;

yn enwëdigol, anghyfnëwidjoldeb ei Garïad ef i'w bobl, a'r ſicrwydd y mae Duw yn ei roddi, trwy lw, nad yw efe yn ëwyllyſio marwölaeth pechadur.

Heb. vi. 17, 18, 19. *Yn yr hyn, Duw yn ëwyllyſio yn helaethach ddangos i etifeddïon yr addewïd ddianwadalwch ei gyngor ef, a gyfryngodd trwy lw: fel trwy ddau beth dianwadal* (ſef, dianwadalwch ei Garïad, a'i Lw) *yn y rhai yr oedd yn ammhoſſibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cyſſur crŷf, y rhai a ffoiſom i gymmeryd gafael yn y gobaith a oſodwyd o'n blaen: yr hwn ſydd gennym ni megis angor yr enaid, yn ddiogel ac yn ſicr.* Joan xiii. 1. Ezec. xxxiii. 11.

7. Mi ddylwn yſtyrjaid eſamplau'r pechadurjaid mawrjon y trugarhâodd Duw wrthunt, a'u profïad hwy o Ddajoni Duw, er eſampl ac annogaeth i'n Ffŷdd ni.

1 Dim. i. 15, 16. *Gwîr yw'r gair, ac yn haeddu pôb derbynjad, ddyfod Criſt Jeſu i'r bŷd i gadw pechadurjaid; o ba rai pennaf ydwyf fi. Eithr o achos hyn y ceſais drugaredd, fel y dangoſai Jeſu Griſt ynnof fi yn gyntaf, bôb hîr oddef, er ſiampl i'r rhai a gredant rhag llaw ynddo ef i fywyd tragywyddol.*

Sal. xxii. 4, 5. *Ein tadau a obeithjaſant ynnot: gobeithjaſant, a gwaredaiſt hwynt. Arnat ti y llefaſant, ac achubwyd hwynt: ynnot yr ymddirïedaſant, ac ni's gwaradwyddwyd hwynt.*

8. Mi ddylwn chwilio am fy mhechod, fy'n achos o amheuaeth fy Ffŷdd; ac i'w gyffeſu'n oſtyngedig ger bron Duw; fel y caffwyf obaith cyſſurus fod Duw yn ei faddau.

Sal. xxxii. 3, 4, 5. *Tra y tewais, heneiddïodd fy eſgyrn, gan fy rhuad ar hŷd y dŷdd. Canys trymhâodd dy law arnaf ddŷdd a nôs: fy irder a dröwyd yn ſychder hâf. Addefais fy mhechod wrthyt, a'm hanwiredd ni chuddjais: dywedais, Cyffeſaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd; a thi a faddeuaiſt anwiredd fy mhechod.* Diar. xxviii. 13. 1 Joan i. 9, 10.

9. Mi ddylwn fyw yn ôl cymmaint o Ffŷdd ag ſydd gennyf; ac iddi gael ei pherffaith waith ynnof: felly yr adnabyddwyf fod gennyf Ffŷdd fywjol yn wîr: Canys bywyd pôb creadur a ymddengys yn ei weithredïad; a phôb Grâs fy'n cynhyddu yn y deunyddïad o hono. Yr hwn a farchnattâodd a'i bùm talent, a ennillodd bùm talent eraill attunt. *Math.* xxv. 16. *Diar.* xi, 24. *Marc* iv. 25.

Cw.

Cw. Pa rai yw gweithredïadau neu arwyddjon Ffŷdd, wrth ba rai y mae i chwi adnabod pa un a oes gennych wîr Ffŷdd?

Att. 1. Mae gwîr Ffŷdd yn gweithjo ymddaroſtyngïad mewn dŷn am ei bechod yn erbyn Duw.

Jon. iii. 5. *A gwŷr Nineveh a gredaſant î Dduw, ac a gyhoeddaſant ympryd, ac a wiſgaſant ſachlïain, o'r mwyaf, hyd y lleïaf o honunt.*

2. Mae gwîr Ffŷdd yn gweithjo mewn dŷn i farw gyd â Chriſt i bechod, ac na byddo ſyw iddo mwyach.

Rhuf. vi. 6. *Gan wybod hyn, ddarfod croeſhoeljo ein hen ddŷn ni gyd ag ef, er mwyn dirymmu corph pechod; fel rhag llaw na waſanaethom bechod.*

3. Mae gwîr Ffŷdd yn ſancteiddjo'r dŷn oddi mewn.

Act. xv. 9. *Gan buro eu calonnau hwy trwy ffŷdd.*

1 Joan iii. 3. *Mae pôb un ſydd ganddo y gobaith hyn yndda ef, yn ei buro ei hun, megis y mae yntef yn bûr.*

4. Lle mae gwîr Ffŷdd, y mae yno lawer o wîr Oſtyngeiddrwydd.

Math. viii. 8, 10. *Y canwrïad a ddywedodd, Nid ydwyf fi deilwng i ddyfod o honot dan fy nghronglwyd.—A'r Jeſu a attebodd, Yn wîr meddaf i chwi, Ni chefais gymmaint ffŷdd, na dda yn yr Iſraël.*

5. Mae gwîr Ffŷdd yn gweithjo mewn dynjon i gyffeſu eu gweithredoedd drwg, ac i lwyr ymwrthod â hwynt, er cymmaint elw ſydol ſo'n dyfod oddi wrthunt.

Act. xix. 18, 19. *A llawer o'r rhai a gredaſant, a ddaethant, ac a gyffeſaſant, ac a ſynegaſant eu gweithredoedd. Llawer hefyd o'r rhai a fuaſai yn gwneuthur rhodreſwaith, a ddygaſant eu llyfrau ynghŷd, ac a'u lloſgaſant yng ngŵydd pawb: A hwy a fwrïaſant eu gwerth hwy, ac a'u cawſant yn ddengmil a deugain o ddarnau arjan.*

6. Mae gwîr Ffŷdd yn gweithjo mewn dynjon i wîr addoli Duw.

Joan ix. 35, 38. *Y Jeſu a ddywedodd* wrth y dŷn a fuaſai'n ddall, *A wyt ti yn credu ym Mâb Duw? Yntef a ddywedodd, Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd. Ac efe a'i haddolodd ef.*

7. Mae gwîr Ffŷdd yn gweithjo mewn dŷn Ufudd-dod parod i Ewyllys Duw.

Heb. xi. 7, 8. *Trwy ffŷdd, Nöe, wedi ei rybuddjo gan Dduw am y pethau ni's gwelſid etto, gyd â pharchedig ofn a ddarparodd*

arch i achub ei dŷ. Trwy ffŷdd, Abraham, pan ei galwyd, a ufuddhâodd, gan fyned i'r màn yr oedd efe i'w dderbyn yn etifeddïaeth; ac a aeth allan, heb wybod i ba le yr oedd yn myned. Gal. i. 15, 16.

8. Mae gwîr Ffŷdd yn gweithjo carïad brawdol, ac awydd mawr i weithredoedd da.

Jago ii. 17. Canys *ffŷdd, oni bydd ganddi weithredoedd, marw ydyw, a hi yn unig.*

2 Thef. i. 3. *Diolch a ddylem i Dduw yn waſtadol droſoch, frodyr, fel y mae yn addas, o blegid bod eich ffŷdd chwi yn mawr gynnyddu, a charïad pôb un o honoch ôll tu ag at ei gilydd yn chwanegu.*

Dit. iii. 8. *Gwîr yw'r gair; ac am y pethau hyn yr ëwyllyſiwn i ti fod yn daer, fel y byddo i'r ſawl a gredaſant i Dduw ofalu ar ſlaenori mewn gweithredoedd da.*

9. Mae gwîr Ffŷdd yn gweithjo parch mawr a charïad i'r Arglwydd Jeſu; gan ei gyfrif ef yn werthfawr.

1 Pedr ii. 7. *I chwi gan hynny, y rhai ydych yn credu, y mae yn urddas.*

1 Pedr i. 8. *Yr hwn, er na's gwelſoch, yr ydych yn ei garu.*

Heb. xi. 24, 26. *Trwy ffŷdd, Moſes, wedi myned yn fawr, a wrthodes ei alw yn fâb merch Pharao; gan farnu yn fwy golud ddirmyg Criſt, nâ thryſorau yr Aipht.*

10. Mae Ffŷdd yn ſeljo eneidjau'r ffyddlonjaid ag Yſbryd Mabwyſiad, ag ſy'n eu dyſgu i weddïo Duw, â'i garu.

Eph. i. 13, 14. *Wedi i chwi gredu, y'ch ſeiljwyd trwy Lân Yſbryd yr addewïd; yr hwn yw ernes ein hetifeddïaeth ni, hyd bryniad y pwrcas, i fawl ei ogoniant ef.*

Gw. Beth yw'r trydydd peth a ofynnir gennych yn y cyfammod Bedydd?

Att. Y trydydd peth a ofynnir gennyf yn y Cyfammod Bedydd yw, *cadw o honof wynfydedig Ewyllys Duw a'i Orchymmynnïon, a rhodio ynddunt hôll ddyddjau fy mywyd.* Yn yr hyn y cynhwyſir pedwar peth.

1. Mai nid yn ôl fy ëwyllys fy hun, neu ëwyllys dynjon, y mae i mi fyw yn y bŷd; eithr *Ewyllys a Gorchymmynnïon Duw* raid fod rheol fy mywyd.

2. Mai *Ewyllys gwynfydedig* yw Ewyllys Duw, a'm tywys i wynfyd tragywyddol; lle mae fy ëwyllys fy hun yn llygredig, ac yn tywys i drueni tragywyddol.

3. Bod i mi fyned yn fy mlaen, a chynhyddu; ſef, *rhodio yng ngwynfydedig Ewyllys a Gorchymmynnïon Duw*: nid ſefyll yn llonydd, neu orphwys yn yr un màn.

4. Fe gynhwyſir ymma, fy nyledſwydd i barhâu yn fy Ufudd-dod i Ewyllys gwynfydedig a Gorchymmynnion Duw hyd y dïwedd; ſef, *rhodio yn yr unrhyw hôll ddyddjau fy mywyd.*

Cw. Pwy fath ufudd-dod a ddyſgir i chwi yng Ngair Duw?

Att. 1. Ufudd-dod gwirjoneddus ac ëwyllyſgar o'r gàlon yn y dŷn oddi mewn, ac nid oddi allan yn unig.

Rhuf. vi. 17. *Ufuddhâu o honoch o'r gàlon i'r ffurf o athrawjaeth a draddodwyd i chwi.*

Rhuf. vii. 22. *Canys ymhyfrydu yr wyf yng nghyfraith Duw yn ôl y dŷn oddi mewn.* Sal. ciii. 1.

2. Ufudd-dod awyddus a gwreſog; nid bod o honof yn ddiflas ac yn glaïar yng Ngwaſanaeth Duw.

Sal. cxix. 40. *Wele, awyddus ydwyf i'th orchymmynnïon: gwnâ i mi fyw yn dy gyfiawnder.*

Dad. iii. 16 *Am dy fod yn glaïar, ac nid yn oer nac yn frŵd, mi a'th chwydaf di allan o'm genau.* Rhuf. xii. 11. Sal. cxix. 20.

3. Ufudd-dod llwyrymröus ac egnïol; fel na byddwyf eſgeulus ynddo, nac yn hawdd fy nhynnu oddi wrtho; gan yſtyrjaid, nad oes ond ychydig rhyngwyf ag angau.

Preg. ix. 10. *Beth bynnag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwnâ â'th holl egni; canys nid oes na gwcith, na dychymmyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bêdd, lle yr wyt ti yn myned.*

Sal. cxix. 34. *Gwnâ i mi ddyall, a chadwäf dy gyfraith: ïe, cadwäf hi â'm hôll gàlon.*

4. Ufudd-dod cyflawn; gan gadw, orau ag allwyf, yn hôll ffyrdd a Gorchymmynnïon Duw: ac nid rhwygo Cyfreithjau'r Arglwydd, fel rhagrithwyr, i ymlynu wrth rai, ac ymwrthod ag eraill.

Joan xv. 14. *Chwychwi yw fy nghyfeilljon, o's gwnewch pa bethau bynnag yr wyf yn eu gorchymmyn i chwi.*

Jago ii. 10. *Canys pwy bynnag a gadwö'r gyfraith i gŷd ôll, ac a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl.* Sal. cxix. 6, 128. Luc i. 6. Num. xxxii. 11, 12.

5. Ufudd dod cyſſon a dyſal; nid weithjau yn gwaſanaethu Duw, ac weithjau eraill yn gwaſanaethu'r diafol, y bŷd, a'r cnawd.

Sal. cxix. 4, 93, 117. *Ti a orchymmynnaiſt gadw dy orchymmynniön yn ddyfal. Bŷth nid anghofiaf dy orchymmynniön; canys â hwynt y'm bywhêaiſt. Cynnal fi, a diangol fyddaf; ac ar dy ddeddfau yr edrychaf yn waſtadol.* Jôb xxvii. 8, 10.

6. Ufudd-dod buan; heb ymgynghori â chig a gwaed, nac oedi'n hwyrfrydig i fyned yn ei gylch, fel pe na fyddai gennyf ẽwyllys iddo.

Sal. cxix. 60. *Bryſiais, ac nid oedais gadw dy orchymmynniön.*

Marc i. 18. *Ac yn ebrwydd, gan adel eu rhwydau, y canlynaſant ef.*

Gal. i. 16. *Paul* a ddywedodd, *Pan ddadguddjodd Duw ei Fâb ynnof fi, fel y pregethwn ef ym mhlîth y cenhedloedd; yn y ſân nid ymgynghorais â chîg a gwaed.*

7. Ufudd-dod hunan-ymwadol; na ryfygwyf dybjaid fod teilyngdod haeddïannol mewn dim a wnelwyf.

Luc xvii. 10. *Gwedi i chwi wneuthur y cwbl ôll ag a orchymmynnwyd i chwi, dywedwch, Gweiſion anfuddjol ydym; o blegid yr hyn a ddylaſem ei wneuthur, a wnaethom.*

8. Ufudd-dod credinïol; ſef, Ufudd-dod ſy'n tarddu o Ffŷdd yng Nghriſt, fel y gwraidd a'r egwyddor o hono, ac a gyflawnir yn nerth y Grâs a roddir trwy Ffŷdd i mi, ac a ddeirbynjir, trwy Ffŷdd yng Nghriſt Jeſu, yn gymmeradwy ger bron Duw.

Rhuf. i. 5. *Trwy'r hwn y derbynjaſom râs i ufudd-dod ffŷdd.*

Rhuf xvi. 26. *Dirgelwch carïad Duw yng Nghriſt a eglurwyd, a thrwy yſgrythurau'r prophwydi, yn ôl gorchymmyn y tragywyddol Dduw, a gyhoeddwyd ym mhlîth yr hôll genhedloedd, er mwyn ufudd-dod ffŷdd,*

Heb. xi. 6. *Eithr heb ffŷdd ammhoſſibl yw rhyngu ei fôdd ef.* 1 Ped. ii. 5. Rhuf. xiv. 23. Dit. i. 15.

9. Ufudd-dod i jawn ddiben; ſef, bod i mi, yn fy hôll Ddyledſwyddau yſbrydol, ac yn hôll weithredoedd cyffredin y bywyd hwn, gyflawni pôb rhan o'm hufudd-dod i'r Arglwydd ei hun yn bennaf, ac er parch a gogonïant iddo.

Col. iii. 23. *A pha beth bynnag y wneloch, gwnewch o'r gàlon, megis i'r Arglwydd, ac nid i ddynjon.*

1 Pedr iv. 11. *O's llefaru a wnâ neb, llefared megis geirjau Duw; o's gweini y mae neb, gwnaed megis o'r gallu y mae Duw*

yn

yn ei roddi; fel ym mhôb peth y gogonedder Duw trwy Jeſu Griſt.

1 Cor. x. 31. *Pa un bynnag, gan hynny, ai bwyta ai yfed ai beth bynnag a wneloch, gwnewch bôb peth er gogoniant i Dduw.*

10. Ufudd-dod cydſynniol ag Ewyllys dadguddiedig Duw yn yr Yſgrythurau; heb bwyſo ar y llaw ddehau na'r aſlwy yn ôl ſy meddyljau tueddol fy hun, na dychymmygion camſynniol dynjon eraill; eithr cadw at y Rheol a oſododd Duw.

Gal. vi. 16. *A chynnifer ag a rodiant yn ôl y rheol hon, tangnefedd arnunt a thrugaredd, ac ar Iſräel Duw.*

Eſay viii. 20. *At y gyfraith, ac at y dyſtjolaeth: oni ddywedant yn ôl y gair hwn, hynny ſydd am nad oes oleuni ynddunt.*

Phil. iii. 16. *Cerddwn wrth yr un rheol, ſynjwn yr un peth.*

Cw. Pwy wahaniaeth ſy rhwng yr Ufudd-dod dyledus dan y Cyfammod Grâs, a'r Ufudd-dod oedd Duw yn ei ofyn dan y Cyfammod Gweithredoedd?

Att. 1. Yn y Cyfammod Gweithredoedd yr oedd dŷn i dalu Ufudd-dod i Dduw yn ei nerth ei hun a dderbynjatai yn ei greadigaeth; eithr Ufudd-dod y Cyfammod Grâs ſydd i'w gyflawni trwy Râs yr Arglwydd Jeſu.

Phil. iv. 13. *Yr wyf yn gallu pôb peth trwy Griſt, yr hwn ſydd yn fy nerthu i.*

Joan xv. 5. *O blegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.*

2. Ufudd dod perffaith, dibechod, heb droſeddu'r Ddeddf, neu Gyfraith Duw, gymmaint ac unwaith mewn dim, oddi fewn nac oddi allan, trwy wneuthuriad nac ommeddiad, mewn meddwl, na gair, na gweithred, oedd ddyledus yn y Cyfammod Gweithredoedd, dan berygl melldith a marwölaeth dragywyddol, *Gal.* iii. 10. Eithr y mae yn y Cyfammod Grâs faddeuant am Anufudd-dod y rhai edifarus a chredinïol, a derbynjad cymmeradwy o'u Hufudd-dod ëwyllyſgar yn ôl eu gallu, er fod lleſgedd a diffygjon ynddo.

2 Cor. viii. 12. *Canys o's bydd parodrwydd meddwl o'r blaen, yn ôl yr hyn ſydd gan un y mae yn gymmeradwy, nid yn ôl yr hyn nid oes ganddo.*

3. Ufudd-dod y dŷn ei hun, oedd ei fywyd a'i gyfiawnhâad ef ger bron Duw, yn y Cyfammod Gweithredoedd; a'r Cyfammod hwnnw, ar ôl ei droſeddu, nid yw yn cyfiawnhâu

neb, eithr yn condemno pawb. Trwy Ffŷdd yng Nghrist, gan hynny, y mae addewïd o gyfiawnhâad yn y Cyfammod Grâs; a'n Hufudd-dod ni yw ffrwyth a thyſtjolaeth y Ffŷdd honno. Gal. iii. 9, 22. *Felly gan hynny y rhai ſy o ffŷdd, a fendithjir gyd ag Abraham ffyddlon. Eithr cydgaeodd yr yſgryt'hur hôb peth dan bechod; fel y rhoddid yr addewïd, trwy ffŷdd Jeſu Criſt, i'r rhai ſy'n credu.* Gal. ii. 16. Rhuf. iii. 21, 22, 23. — iv. 13, 14, 15.

4. Ufudd-dod i'r Gyfraith foeſol a 'ſgriſennaſai Duw yng nghâlon dŷn ei hun (a dywyllwyd yn fawr trwy'r Cwymp) oedd ddyledus dan y Cyfammod Gweithredoedd; eithr Ufudd-dod i'r Athrawjaeth Efangylaidd (y mae Criſt, trwy ei Air a'i Yſbryd, yn ei ddyſgu) a ofynnir yn y Cyfammod Grâs.

Luc ix. 35. *A daeth llêf allan o'r cwmmwl, gan ddywedud, Hwn yw fy Mâb annwyl; gwrandêwch ef.*

Act. iii. 22, 23. *Canys Moſes a ddywedodd wrth y tadau, Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi Brophwyd o'ch brodyr, megis myfi: arno ef y gwrandêwch ym mhôb peth a ddywetto wrthych. A bylld, pêb enaid ni wrandawä ar y Prophwyd hwnnw, a lwyrddifethir o blith y bobl.*

Gw. Pwy yſtyrjaethau mae'r Yſgrythur yn ei oſod o'ch blaen i annog eich Ufudd-dod?

Att. Mae'r Yſgrythur yn annog Ufudd-dod i Dduw yn rymmus; trwy ddangos, mai i'r dynjon ufudd y mae Donjau Criſt a Bendithjon Duw yn perthyn; nid trwy rinwedd neu haeddïant eu Hufudd-dod eu hunain, eithr trwy Gyfryngdod Criſt: Etto Ufudd-dod Ffŷdd yn waſtad yw nôd y rhai y mae'r Breintjau hyn yn eiddo iddunt. Megis,

1. Y rhai ufudd ſy'n bobl annwyl i'r Arglwydd Jeſu. Joan xv. 14. *Chwychwi yw fy nghyfeilljon, o'r gwnewch pa bethau bynnag yr wyf yn eu gorchymmyn i chwi.* Joan viii. 31. — x. 27. Luc vi. 46.

2. Y rhai ufudd ſy'n meddu adnabyddïaeth jachuſol o Dduw. 1 Joan ii. 3, 4. *Ac wrth hyn y gwyddom yr adwaenom ef, o'r cadwn ni ei orchymmynnïon ef. Yr hwn ſydd yn dywedud, Mi a'i hadwaen ef, ac heb gadw ei orchymmynnïon ef, celwyddog yw, a'r gwirjonedd nid yw ynddo.*

3. Y rhai ufudd ſydd berffaith yng Nghariad Duw. 1 Joan

1 Joan ii. 5. *Eithr yr hwn a gadwö ei air ef, yn wîr yn hwn y mae cariad Duw yn berffaith. Wrth hyn y gwyddom ein bod ynddo ef.* 1 Joan iii. 24.

4. Y rhai ufudd a weddïant, ac a gânt yr hyn ôll y maent yn ei geiſio gan Dduw.

1 Joan iii. 22. *A pha beth bynnag a ofynnom, yr ydym yn ei dderbyn gandda ef; o blegid ein bod yn cadw ei orchymmynnïon ef, ac yn gwneuthur y pethau ſydd yn rhyngu bôdd yn ei olwg ef.* Joan ix. 31.

5. Heb Ufudd dod, ni bydd ſy Ngweddïau, a'm hôll ddyledſwyddau eraill, ond aberthau chwydog yng ngolwg Duw Diar. xxviii. 19. *Y neb a dry ei glûſt ymmaith rhag gwrando'r gyfraith, ſydd ffiaidd ei weddi hefyd.* 1 Sam. xv. 22, 23.

6. Y rhai a gadwänt Air Duw, a gedwïr gan Dduw yn amſer profedigaeth.

Dad. iii. 10. *O achos cadw o honot air ſy ammynedd i, minnau a'th gadwäf di oddi wrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr hôll ſyd, i brofi y rhai ſydd yn trigo ar y ddaear.*

7. Y rhai a gadwö'n ſanylaidd Orchymmynnïon Duw, Duw hefyd a geidw'n ofalus eu heinioes hwyntau.

Diar. vii. 2. *Cadw fy ngorchymmynnïon, a bydd fyw; a'm cyfraith fel cannwyll dy lygad.*

Deut. xxxii. 10. Duw a gafodd *Jacob mewn tîr anial, a chadwödd ef fel cannwyll ei lygad.* Zech. ix. 2. Jer. xxxviii. 20. Diar. xix. 6.

8. I'r rhai a gadwänt Orchymmynnïon Duw, y bydd heddwch.

Eſay xlviii. 18, 22. *O na wrandawſit ar fy ngorchymmynnïon! Yna y buaſai dy heddwch fel afon, a'th gyfiawnder fel tonnau'r môr. Nid oes heddwch, medd yr Arglwydd, i'r rhai annuwiol.* Rhuf. ii. 8. Eph. v. 6.

9. Y rhai ufudd a fendithjir, a'r anufudd a felldithjir.

Deut. xxviii. 2, 13. *A'r hôll fendithjon hyn a ddaw arnat, ac a'th oddiweddant, o's grandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw. A'r Arglwydd a'th wnâ di yn ben, ac nid yn gynffon; hefyd, ti a fyddi yn uchaf yn unig, ac nid yn iſaf; o's gwrandewi ar orchymmynnïon yr Arglwydd dy Dduw, — i'w cadw ac i'w gwneuthur.*

10. Y rhai ufudd a daenellir â gwaed y Cyfammod, a dywalldwyd er maddeuaut pechodau.

Ecſod.

Ecſod. xxiv. 7, 8. *Ac efe a gymmerth lyfr y cyfammod, ac a'i darllenodd lle y clywai'r bobl: a dywedaſant, Ni a wnawn, ac a wrandâwn yr hyn ôll a leſarodd yr Arglwydd. A chymmerodd Moſes y gwaed, ac a'i taenellodd ar y bobl, ac a ddywedodd, Wele, waed y cyfammod yr hwn a wnaeth yr Arglwydd â chwi, ar ôl yr hôll eirjau hyn.*

11. Y rhai ufudd i Orchymmynnïon Criſt, a gânt fraint ym Mhren y Bywyd, a myned i mewn i Deyrnas Nefoedd.

Dad. xxii. 14. *Gwyn eu bŷd y rhai ſy yn gwneuthur ei orchymmynnïon ef; fel y byddo iddunt fraint ym mhren y bywyd, ac y gallont fyned i mewn trwy'r pyrth i'r ddinas.*

Joan xiii. 7. *O's gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich bŷd o's gwnewch hwynt.*

12. Y rhai anufudd a ddiſethir gan yr Arglwydd Jeſu â thân fflamllyd yn ei Ddyfodïad y dŷdd olaf.

2 Theſſ. i. 7, 8. Canys *yr Arglwydd Jeſu a ymddengys o'r nef, gyd â'i angyljon nerthol, â thân fflamllyd, gan roddi dial i'r ſawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhâu i efengyl ein Harglwydd Jeſu Griſt.*

Cw. Chwi a ddywedaſoch yn helaeth ynghylch Breintjau'r Cyfammod, ac ynghylch yr Ammodau a wnaeth eich Tadau a'ch Mammau-bedydd droſoch:

Onid wyt ti yn tybjaid dy fod yn rhwymedig i gredu, ac i wneuthur, megis ag yr addawſant hwy droſot ti?

Att. Ydwyf yn wîr; a thrwy nerth Duw felly y gwnâf. Ac ydd wyf fi yn mawr ddiolch i'n Tâd nefol, am iddo fy ngalw i gyfryw 'ſtâd Jechydwrjaeth, trwy Jeſu Griſt ein Jachawdwr. Ac mi a attolygaf i Dduw roddi i mi ei Râd, modd y gallwyf aros ynddo hôll ddyddjau fy einioes.

Cw. Pa ſawl peth y ddylech ddàl ſulw arnunt yn yr atteb hwn?

Att. Mi a ddylwn ddàl ſulw yn gydwybodol ar y naw peth hyn.

1. Fy Nghyfaddefïad o'r Ddyledſwydd ſydd arnaf i gyflawni'r Ammodau hynny: Canys dywedud yr wyf, fy mod *yn wîr yn rhwymedig.*

Sal.

Sal. lvi. 12. *Arnaf fi, O Dduw, y mae dy addunedau: talaf i ti foliant.*

2. Fy Addewïd i'w cyflawni hwynt, yn y geirjau hyn; *Felly y gwnâf:* Ac felly y dylwn wneuthur yn ebrwydd

Sal. cxvi. 14. *Fy addunedau a dalaf i'r Arglwydd yn awr, yng ngŵydd ei hôll bobl ef.*

Deut. xxiii. 21. *Pan addunedech adduned i'r Arglwydd dy Dduw, nac oeda ei thalu: canys yr Arglwydd dy Dduw gan ofyn a'i gofyn gennyt; a byddai yn bechod ynnot.*

3. Yr wyf yn mynegi ym mha fôdd y cyflawnaf hwynt; nid yn fy ngallu fy hun, ond *trwy nerth Duw felly y gwnâf.*

2 Cor. iii. 5. *Nid o herwydd ein bod yn ddigonol o honom ein hunain, i feddwl dim megis o honom ein hunain; eithr ein digonedd ni ſydd o Dduw.*

4. Fy nyled yw, *diolch i'm Tâd nefol, am iddo fy ngalw i'r cyfryw 'ſtâd.*

1 Theſ. v. 18. *Ym mhôb dim diolchwch: canys hyn yw ëwyllys Duw yng Nghriſt Jeſu tu ag attoch chwi.* Eph. v. 20. Col. i. 12, 13.

5. Yr wyf ymma yn cydnabod pwy a'm galwödd; ſef, *fy Nhâd nefol.*

Joan vi. 44, 45. *Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, oddieithr i'r Tâd, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynnu ef: a myfi a'i hadgyfodaf ef y dydd diweddaf. Y mae yn 'ſgrifennedig yn y prophwydi, A phawb a fyddant wedi eu dyſgu gan Dduw Pôb un gan hynny a glywödd gan y Tâd, ac a ddyſgodd, ſydd yn dyfod attaf fi.*

6. Yr wyf yn enwï ymma i bwy 'ſtâd y'm galwyd; ſef, *i 'ſtâd Jechydwrjaeth.*

Rhuf. viii. 30. *A'r rhai a raglunjodd efe, y rhai hynny hefyd a alwödd efe; a'r rhai a alwödd efe, y rhai hynny hefyd a gyfiawnhâodd efe; a'r rhai a gyfiawnhâodd efe, y rhai hynny hefyd a ogoneddodd efe.*

7. Yr wyf yn mynegi ymma trwy bwy y'm galwyd i'r 'ſtâd hon o Jechydwrjaeth; ſef, *trwy Jeſu Griſt ein Jachawdwr.*

Act. iv. 12. *Ac nid oes jechydwrjaeth yn neb arall; canys nid oes enw arall dan y nef wedi ei roddi ym mhlith dynjon, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwëdig.*

8. Yr wyf ymma yn addo i weddïo am gymmorth yn y 'ſtâd hon o Jechydwrjaeth; ſef, *i attolwg i Dduw am ei Râs,*

Sal.

Sal. xxxii. 6. *Am hynny y gweddïa pôb duwjol arnat ti yn yr amſer y'th geffir: yn ddiau yn llifeirïant dyfroedd mawrjon, ni chânt nesâu atto ef.*

Jer. x. 25. *Tywallt dy lid ar y cenhedloedd y rhai ni'th adnabuant, ac ar y teuluoedd ni alwäſant ar dy enw.*

9. Yr wyf yn hyſbyſu o herwydd pa ham y mae i mi weddïo am Râs Duw; ſef, *modd y gallwyf aros yn yr* unrhyw 'ſtâd o Jechydwriaeth *hôll ddyddjau fy einioes.*

Luc i. 74, 75. Canys Criſt a ddaeth i'*n rhyddhâu o law ein gelynjon, i'w waſanaethu ef yn ddiofn, mewn ſanctteidd wydd a chyfiawnder ger ei fron ef, hôll ddyddjau ein bywyd.*

Cw. Pwy fôdd yr ydych chwi yn rhwymedig i gyflawni'r Cyfammod a addawödd eraill drofoch chwi?

Att. Yr wyf yn rhwymedig i gyflawni Addunedau fy Medydd; o blegid, pa un bynnag ai fy rhieni eu hunain, neu eraill ar eu deiſyfiad hwy, a'm dygodd dan rhwymau 'r Cyfammod, gweithred fy rhieni ydoedd: Ac y mae yn ddiammau, yn ôl Ordinhâad Duw, fod gan y rhieni, fydd yn y Cyfammod eu hunain, hawl, neu feddïant, i ddwyn eu plant dan rhwymau'r Cyfammod gyd â hwynt. Am hynny y bedyddjwyd amryw, a'u teuluoedd gyd â hwynt yr un prŷd; ac *Abraham* ac *Iſmäel* ei fâb a enwaedwyd yr un dŷdd, *Gen.* xvi. 26. Fel na feiddïaf, yn ddiberygl, ddirmygu neu wadu'r rhwymedigaeth a roddwyd arnaf yn ôl treſn Duw.

2. Yr wyf yn rhwymedig i gyflawni Addunedau fy Medydd; o blegid fod y grym a'r rhwymau o honunt yn parhâu; ac na fyn Duw, heb jawn, bŷth faddau fy nhroſedd o honunt, er jeuenged oeddwn pan ddodwyd fi dân yr Addunedau hyn.

Pan fyddai neb o bobl *Iſräel* (yn hên neu'n jeuange) trwy Addunedneillduol wedi eu cyflwyno i Dduw, yn rhyw ran o waith y Cyflegr, eiddo'r Arglwydd yn y cyfryw waith oeddrhaid iddunt fôd; oddïeithr eu rhyddhâu trwy'r prîs oedd Duw yn bwyntjo i'r Offeiriad.

Lef. xxvii. 2, 6. *Llefara wrth feibjon Iſräel, a dywed wrthunt, Pan addunedo neb addunedneillduol, y dynjon fydd eiddo'r Arglwydd yn dy brîs di. A bydded hefyd dy brîs am wrryw, o fâb miſyriad hyd fâb pùm mlwydd, bùm ſicl o arjan; ac am fenyw dy brîs fydd tri ſicl o arjan.*

Pa fôdd na fuaſent hwy yn rhŷdd oddi wrth yr Addunedau a wnaethai eraill droſdunt, pan oeddynt hwy yn blant miſyriad,

neu

neu fabanod bychain, heb dalu prîs, oni buaſai fod gan eraill hawl i'w rhwymo, ac arnunt hwythau, pan ddelent mewn oedran, rwymedigaeth i gyflawni'r Addunedau hynny a wnaed pan oeddynt yn fach, ac heb ddyall i wybod y prŷd hynny am danunt? O's torraf fi, gan hynny, yr Adduned trwy ba un y'm cyflwynwyd yn blentyn miſyriad, ſef yn faban bychan, i waith a gwaſanaeth Duw, pa fôdd y diangaf, oddïeithr i mi, ar fy edifeirwch, gael rhan yn y prîs a dalodd Criſt fy Archoffeiriad droſwyf?

3. Yr wyf yn rhwymedig i gyflawni fy Addunedau Bedydd; canys fe'm ſeljwyd, yn ôl trefn y 'Sgrythur, dan Gyfammod â Duw pan y'm bedyddjwyd.

Yn *Gen.* xvii. 7, 11. mae Duw yn gwneuthur Cyfammod tragywyddol ag *Abraham* ac â'i hâd (ſef, ei blant) y byddai efe yn Dduw iddo ef, ac iddunt hwythau hefyd; ſef, yr un Cyfammod o Râs, yn y ſylwedd yſbrydol o hono, ag fy'n awr mewn grym dàn yr Efengyl: Canys nid oes un Cyfammod tragywyddol arall trwy ba un y mae Duw yn Dduw i ni, a ninnau'n bobl i Dduw. Y Cyfammod hwn a wnaeth Duw ag *Abraham* a'i hâd, ac a orchymmynnodd yr Enwaedïad yn sêl o hono i blant yn wyth niwrnod oedd: Ac *inſel cyfiawnder y Fŷdd*, ag ſydd yn y Cyfammod Grâs, yw'r Enwaediad, *Rhuf.* iv. 11. Eithr Criſt a nëwidjodd sêl y Cyfammod hwn, megis y nëwidjodd Ordinhadau eraill hefyd, dan oruchwiliaeth yr Efengyl, heb gyfnëwid y Cyfammod tragywyddol ei hun, na chondemnïo plant, mewn un màn ôll trwy'r hôll 'Sgrythur, oddi wrth eu rhan yn y Cyfammod hwnnw. A chan fod gan blant y ffyddlonjaid hawl ym mraint a sêl y Cyfammod gwynfydedig hwn o Râs, pa fôdd, yn ddiberygl, yr ymwadaf â'r Cyfammod hwn, y'm ſeljwyd dàn y rhwymedigaeth o hono trwy Fedydd? Canys Bedydd a ordeiniodd Criſt yn lle'r Enwaedïad: A'r ddau, ſef Bedydd ac Enwaedïad, fy'n arwyddocâu yr un peth yſbrydol, na's gall dwylaw dynjon eu gwneuthur; ſef, ymddioſg oddi wrth weithredoedd y cnawd; gan fod yn gladdedig gyd â Chriſt i bechod, a chyfodi gyd ag ef i Gyfiawnder, trwy'r Ffŷdd y mae Duw yn ei weithjo.

Col. ii. 11, 12. *Yn yr hwn* (ſef, yng Nghriſt, yn ôl ei Râs ef, a threfn yr Efengyl) *y'ch enwaedwyd, ag enwaediad nid o waith llaw, trwy ddioſg corph pechodau y cnawd, yn enwaediad Criſt: Wedi eich cydgladdu ag ef yn y bedydd; yn yr hwn hefyd*

y'ch

y'ch cydgyfodwyd trwy ffŷdd gweithredïad Duw, yr hwn a'i cyfodes ef o feirw.

4. Yr wyf yn rhwymedig i gyflawni fy Addunedau Bedydd; canys y mae Duw yn gorchymmyn i blant, fel eraill, gadw'r Cyfammod y mae Duw yn ei wneuthur â hwy.

Yn *Deut.* xxix. (o'r 9 wers hyd y 13) yr wyf yn darllain, fod pobl *Iſräel*, dan weinidogaeth *Moſes*, yn dyfod ynghŷd i ymgyfammodi â Duw, ac yn dwyn eu plant hefyd i Gyfammod Duw gyd â hwynt: A *Moſes* a ddywaid wrthunt, fod yr Arglwydd y dŷdd hwnnw yn gwneuthur Cyfammod â hwy, i'w ſicrhâu yn bobl iddo ei hun, ac i fod o hono yntef yn Dduw iddunt hwy; iddunt hwy ôll yn ddïwahanïaeth, i'r tadau a'r plant hefyd; ac yn gorchymmyn iddunt hwy ôll, i'w gadw, a'i wneuthur (ſef, y tadau a'r plant hefyd) pan ddelent i oedran. Ac yn nïwedd hyn, y mae *Moſes* yn dangos petygl y dŷn a ymwadai â'r Cyfammod hwnnw yn rhyfygus, gan ddywedud (20, 21.) *Ni fyn yr Arglwydd faddau iddo; canys yna y myga digllonedd yr Arglwydd a'i eiddigedd yn erbyn y gŵr hwnnw; a'r holl felldithjon ſydd 'ſgrifennedig yn y llyfr hwn, a orwedd arno ef; a'r Arglwydd a ddilea ei enw ef oddi tàn y nefoedd. A'r Arglwydd a'i neilldua ef oddi wrth hôll lwythau Iſräel, i gael drwg. yn ôl hôll felldithjon y cyfammod a 'ſgrifennwyd yn llyfr y gyfraith hon.*

Oddi wrth yr hyn ôll y dylwn gydnabod, pe buaſid yn fy nghau allan o'r Cyfammod dan y Teſtament Newydd, pan oedd plant pobl Dduw yn cael eu derbyn i'r Cyfammod dan yr Hên Deſtament, yna y buaſai Efengyl Criſt yn greulonach i blant nâ Chyfraith *Moſes*: A phe buaſai fy rhieni heb fy nwyn dàn Gyfammod Duw gyd â hwynt yn fy mebyd, yna y buaſent yn gwneuthur yn waeth nâ'r *Juddëwon*. O's finnau a ddirmygaf fy Nghyfammod â Duw yn fy Medydd, gwae fydd i mi; gan fy mod felly yn dirmygu Breintjau Criſt i'w bobl.

Heb. x. 28, 29. *Yr un a ddirmygai gyfraith Moſes, a fyddai farw heb drugaredd, dan ddau neu dri o dyſtjon: Pa faint mwy cosbedigaeth (dybygwch chwi) y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fâb Duw, ac a farnodd yn afian waed y cyfammod, trwy'r hwn ſancteiddjwyd ef, ac a ddifenwodd Ysbryd y grâs?*

5. Yr wyf yn rhwymedig i gyflawni fy Addunedau Bedydd; canys trwy'r Ordinhâad hon y'm rhoddwyd i Grist, ac yn aelod o'i Eglwys ef: O blegid y mae Criſt ei hun, yn y x. Bennod

o *Farc*,

o *Farc*, y 13 Wers a'r 14, yn gorchymmyn, â'i enau ei hun, i ddwyn plant bychain atto ef: yr hwn ni ddichon neb bŷth ei gael allan o'r Cyfammod; o blegid yn y Cyfammod yn unig y mae Criſt yn Awdwr Jechydwrjaeth dragywyddol. Y mae eſe yn anſodloni i'r rhai a fynnai gadw plant bychain oddi wrtho, ac yn dywedud, mai eiddo'r cyfryw rai yw Teyrnas Nefoedd; ſef, Eglwys Criſt ar y ddaear: yr un ag yw Eglwys Criſt, neu Deyrnas Nefoedd, mewn Gogoniant; oddigerth nad yw Eglwys Criſt ar y ddaear ond y rhan leïaf, a'r râdd iſelaf, lle mae goruchwiliaeth y Cyfammod Grâs, a Grâs y Cyfammod, ſef Jechydwrjaeth, a phôb peth a berthyn iddi, yn cael eu gweini i'r rhai a'i derbynjo: Fel pe buaſid yn ſy nghau allan o Gyfammod ac Eglwys Griſt, neu fod i mi ymwrthod â Chyfammod Criſt a'i Eglwys, ni byddai i mi obaith am Jechydwrjaeth bŷth.

Act. ii. 47. *A'r Arglwydd a chwanegodd beunydd at yr eglwys y rhai a ſyddent cadwëdig.*

Dad. xxii. 15. *Oddi allan y mae'r cŵn, a'r ſwyngyfareddwyr, a'r putteinwyr, a'r llofruddjon, a'r eulynaddolwyr, a phôb un ag ſy yn caru ac yn gwneuthur celwydd.*

Am hynny yr wyf yn gweled ſy hun yn rhwymedig i gyflawni Ammodau ſy Medydd, pan y'm rhoddwyd dan weinidogaeth y Cyfammod, ac y'm gwnaethpwyd yn aelod i Griſt; ſef, o'i Eglwys; yr hon yw ei Gorph ef.

6. Y cyfryw Gyfammodau dynol, lle dodir rhwymau ar blant cyn y medront wybod am danunt, ni's gallant wrthod y cyfryw rwymau pan ddelont i oedran, heb fforffettu'r Etifeddïaeth y fo'n ſefyll amunt: A pha fôdd na chollaf finnau ſy hôll hawl ym mreintjau'r Cyfammod hwn, oni chyflawnaf yr Ammodau o hono?

Gal. iii. 15. *Y brodyr, dywedud yr wyf ar wêdd ddynol, Cyd na byddo ond ammod dŷn, wedi y cadarnhäer, nid yw neb yn ei ddirymmu, neu yn rhoddi atto.*

7. Y mae perygl echrydus i dorri'r Cyfammod neu'r Addunedd a wnelo eraill â Duw drоſom ni, er na bo ond ynghylch pethau cyffredin. *Saul*, brenin *Iſräel*, a addunedodd, i bwyo bynnag y fwytâi fwyd hyd yr hŵyr, y byddai'r cyfryw yn ſelldigedig. Er bod hon yn adduned gyfeiliornus, ac na throſeddodd neb yr adduned onid un yn unig, ſef *Jonathan* mâb *Saul*,

Saul, ac yntef yn ddiarwybod, cyn clywëd am dani; er hynny Duw a ddigjodd wrth hôll *Iſräel*. 1 Sam. xv.

Daeth tair blynedd o nëwyn olynol ar *Iſräel*, yn nyddjau y Brenin *Dafydd*, am iddunt yn nyddjau *Saul* dorri'r cyfammod a wnaethai eu hynafiaid hwy â'r *Gibeonjaid* gannoedd o flynyddoedd cyn eu geni: A pha fôdd y diangaf finnau, o'm torraf y Cyfammod a wnaethpwyd â Duw drofof pan y'm bedyddjwyd? (Cymharwch y vii. o *Joſua* â 2 *Sam.* xxi. 1.) Canys nid bychan y perygl i droſeddu Cyfammod yr Arglwydd â'n tadau.

Jer. xi. 3, 4, 11, 14. *Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Iſräel: Melldigedig fyddo'r gŵr ni wrendy ar eirjau'r cyfammod hwn; yr hwn a orchymmynnais i'ch tadau chwi. Am hynny, fel hyn y dywed yr Arglwydd; Wele fi yn dwyn drwg arnunt, yr hwn ni's gallant fyned oddi wrtho: yna y gwaeddant arnaf, ac ni wrandawäf hwynt. Am hynny na weddïa dros y bobl hyn, ac na chyfod waedd neu weddi droſtunt: canys ni wrandawäf yr amſer y gwaeddant arnaf o herwydd eu drygfyd.*

8. O's cydſynnïaf yn ffyddlon ag Ammodau'r Cyfammod trwy'r hwn y rhoddwyd fi gan fy rhieni i Dduw, y mae gennyf obaith yr edrych Duw arnaf fel un o'i blant cyfammodol. Rhai o'r cenhedloedd a offrymment eu plant i gythreuljaid; ac ni amheua neb, nad oedd y diafol yn chwannog i'w derbyn: Onid yn hytrach o lawer y derbyn Duw y rhai a addunedir iddo ef?

Hanna a addunedodd i roddi ei mâb *Samuel* i'r Arglwydd, cyn ei lunjo ef yn y grôth; a'r Arglwydd a'i cymmerodd, ac a fu gyd â *Samuel*. 1 Sam. i. 11. — iii. 19.

Onid oes melldithjon yn perthyn i'r annuwjol a'u plant, wrth y rhai y dywed Duw, *Melldigedig fyddi di a ffrwyth dy fru?* Ac onid oes bendithjon yn perthyn i bobl gyfammodol Duw a'u plant, wrth y rhai y dywed, *Bendigedig fyddi di a ffrwyth dy fru?* Deut. xxviii. 3, 4, 16, 18.

A pha fôdd y buaſai yn cyfatteb, i'n rhieni cyntaf a'u hâd fod dan fygythïad marwölaeth yn y Cyfammod Gweithredoedd, pe na buaſai i rieni crediniol a'u hâd obaith yn addewidjon bywyd y Cyfammod Grâs? Canys fel hyn y dywedodd yr Yſbryd Glân, *Act.* ii. 39. *I chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant.*

Amlw

Amlwg yw, fod *plant yr Juddewön*, ynghŷd â'u tadau, dàn y Cyfammod Grâs. A phan ddaeth yr amſer i'r cenhedloedd (ar dorriad yr *Juddewön* ymmaith) gael eu *himpjo i mewn yn eu plîth* (neu yn eu lle hwynt) i fod *yn gyfrannog o'r gwreiddyn, a braſder yr olewydden*, mae'n ddiammau fod i blant cenhedloedd credinïol dderbynniad i'r Cyfammod gyd â'u tadau, megis ac yr oedd i blant yr *Juddewön*: Canys ni wnaed y Cyfammod yn gyfyngach i'r cenhedloedd nag yr oedd i'r *Juddewön*, pan himpjwyd y cenhedloedd i mewn yn eu lle hwy. *Rhuf.* xi. 17.

Ac yn gymmaint a bod i blant y ffyddlonjaid obaith am ran yng Nghyfammod Duw, mae arnaf fi ac eraill ddyled i gyflawni Addunedau fy Medydd, pan y'm dodwyd dàn oruchwiliaeth y Cyfammod hwnnw; gan fod yn hyderus, onid ymwrthodaf fi â Duw, na ymwrthod Duw â finnau. 2 Cron. xv. 2. *Yr Arglwydd ſydd gyd â chwi, tra ſyddoch gyd ag ef; ac o's ceiſiwch ef, chwi a'i cewch ef: ond o's gwrthodwch chwi ef, yntef a'ch gwrthyd chwithau.*

9. Yr wyf yn rhwymedig i gyflawni Addunedau fy Medydd, pe na buaſai neb erjôed wedi addo felly drofof fi. Canys oni ymwrthodaf â'r diafol a'i hôll weithredoedd, y bŷd anwir a'i rodres, ac â'r cnawd a'i chwantâu pechadurus; oni chredaf hôll Byngcjau Ffŷdd Griſt; ac oni chadwäf wynſydedig Ewyllys Duw a'i Orchymmynniion; mae'n ddiammau, na allaf fi fod mewn 'ſtad o Jechydwrjaeth bŷth: Canys, *heb ſancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd*, Heb. xii. 14.

Cw. Moeſwch i mi glywed eich meddwl ynghylch 'ſtad Jechydwrjaeth y'ch galwyd iddi yn y Cyfammod trwy'r Arglwydd Jeſu.

Att. 1. Yr wyf yn meddwl, mai mewn 'ſtad o golledigaeth y genir dŷn; o blegid mai trwy Alwäd Duw y'n dygir i 'ſtâd o Jechydwrjaeth.

Rhuf. v. 18. *Trwy gamwedd un* (ſef *Adda*, y dŷn cyntaf) *y ddaeth barn ar bôb dŷn i gondemniad.*

2. Yr wyf yn meddwl, nad yw pawb a alwyd oddi allan i'r 'ſtâd hon o Jechydwrjaeth, yn etifeddu Jechydwrjaeth neu Fywyd tragywyddol.

Math. xxii. 14. *Canys llawer ſy wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dëwis.*

3. Yr wyf yn meddwl, mai goruchwiljaeth Ordinhadau'r Cyfammod, a gweinidogaeth yr Eſengyl yn yr Eglwys weledig,

i'r hon y'n derbynjir trwy Fedydd, a ſeddylir ymma yn gyffredinol wrth *'ſtad o Jechydwrjaeth:* Yn yr hon 'ſtâd y mae Jechydwrjaeth i'w chael, a phôb peth ag ſydd trwy Ffŷdd yn ddigonol i'r diben hynny; er bod llawer yn eu gwrthod, ac felly'n golledig.

Rhuf. i. 16. *O blegid gallu Duw yw'r efengyl, er jechydwrjaeth i bâb un a'r ſydd yn credu.*

4. Yr wyf yn meddwl, mai 'ſtâd wynfydedig yw 'ſtâd o Jechydwrjaeth i'r ffyddlonjaid ſy'n gywir yng Nghyſammod Duw; ac felly yn meddu yn wîr ar y Jechydwrjaeth honno: Canys lle'r oeddynt yn elynjon mewn meddwl, ac yn blant digoſaint, y maent yn blant annwyl ac yn bobl briodol i Dduw; lle'r oeddynt wedi eu colli, ac yn feirw, hwy a gafwyd, ac a aethant yn fyw; lle'r oeddynt yn dlawd ac yn druain, hwy a gawſant y perl gwerthfawr, a meddïant o'r maes lle mae'r tryſor gwerthfawr yn guddjedig. *Math.* xiii. Lle'r oeddynt yn halogedig ac yn ffiaidd, hwy a lanhäwyd, *a ſanctteiddjwyd,* ac *a gyfiawnhäwyd, yn enw yr Arglwydd Jeſu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni,* 1 Cor. vi. 11. A dedwydd fyddant yn eu diwedd.

Luc ii. 29, 30. *Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy wâs mewn tangnefedd, yn ôl dy air: Canys fy llygaid a welſant dy jechydwrjaeth.*

Dad. xiv. 13. *Gwyn eu bŷd y meirw y rhai ſy yn marw yn yr Arglwydd o hyn allan, medd yr Ysbryd, fel y gorphwyſont oddi wrth eu llafur; a'u gweithredoedd ſy yn eu canlyn hwynt.*

Cw. Pa fôdd y gwybyddwch pa un a ydych yn wîr yn y 'ſtâd wynfydedig hon o Jechydwrjaeth, ac yn meddu rhan yn y Cyfammod Grâs?

Att. 1. Wrth fy nghydffurfiad ag Ammodau'r Cyfammod. Canys o's wyf fi yn wîr yn ymwrthod â'r diafol a'i hôll weithredoedd; o's wyf fi yn wîr yn ymwrthod â hôll chwantau pechadurus y cnawd; o's wyf fi yn wîr yn credu hôll Byngcjau Ffŷdd Criſt; ac o's wyf fi yn wîr ymröus i gadw o honof wynfydedig Ewyllys Duw a'i Orchymmynnïon, ac i rodio yn yr unrhyw hôll ddyddjau fy mywyd: yna gallaf obeithjo fy mod yn wîr yn aelod i Griſt, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd Teyrnas Nefoedd; ac felly yn 'ſtâd o Jechydwrjaeth yn ddiammau.

2. O's wyf yn ëwyllyſgar i ymadel â phôb elw anghyfiawn, a chyfrannu o'r meddïant fy gennyf mewn gweithredoedd o drugaredd,

drugaredd, ac yn barod o'm càlon i dderbyn Criſt yn awyddus pan y mae yn ſy ngalw, yr hwn yw Awdwr ſy Jechydwrjaeth, a Chyfryngwr y Cyfammod; yna'r wyf yn gobeithjo ſy mod yn wîr yn y Cyfammod, ac yn 'ſtâd Jechydwrjaeth.

Zachëus, pan alwödd Criſt arno, a ddaeth atto *ar frŷs, ac a'i derbynjodd yn llawen*; a *roddodd hanner ei ddâ i'r tlodion*; a pha beth bynnag a ddygaſai oddi ar *neb trwy gamachwyn*, a dalodd efe yn ôl *ar ei bedwerydd*. Ac yna'r *Jeſu a ddywedodd wrtho, Heddyw y daeth jechydwrjaeth i'r tŷ hwn*. Luc xix. 5—9.

3. O's wyf fi yn gweled Graſau'r Cyfammod ynnof ſy hun, yn ſy adnëwyddu yn y dŷn oddi mewn; ſef, càlon newydd ac yſbryd nëwydd, yn ſy nghymmell i lynu wrth Ddeddfau Duw, i'w gwneuthur hwynt a'u cadw; yna gallaf obeithjo am ran yn Jechydwrjaeth y Cyfammod newydd: Canys ſelly mae addewid y Cyfammod.

Ezec. xxxvi. 26, 27. *A rhoddaf i chwi gàlon newydd; yſbryd newydd hefydd a roddaf o'ch mewn chwi; a thynnaf y gàlon garreg o'ch cnawd chwi, ac mi a roddaf i chwi gàlon gîg. Rhoddaf hefyd fy Yſbryd o'ch mewn, a gwnâf i chwi rodio yn fy neddfau, a chadw fy marnedigaethau, a'u gwneuthur.*

Cw. Pa beth a wnewch pan weloch y'ch bod wedi byw yn wrthwyneb i'ch Cyfammod â Duw dros yr amſer a aeth heibio?

Att. 1. Mi ddylwn ryfeddu Hirymaros a Dajoni Duw, na ddarfu am danaf yn y cyflwr echrydus hynny; ac onid ê, buaſwn yn ddiobaith yn golledig bŷth bythoedd.

Gal. iii. 22. *Trugareddau'r Arglwydd yw na ddarfu am danom ni; o herwydd ni phalla ei doſturïaethau ef.*

2. Mi ddylwn ddyfal geiſio Duw mewn aml Weddïau; canys y mae efe yn ſy annog i wneuthur ſelly, ar ôl troſeddu yn ei derbyn.

Jer. xxix. 12, 13, 14. *Yna y gelwch chwi arnaf, ac yr ewch, ac y gweddïwch arnaf fi, a minnau a'ch gwrandawaf. Ceiſiwch fi hefyd, a chwi a'm cewch, pan y'm ceiſiocch â'ch hôll gàlon. A mi a adawaf i chwi ſy nghael, medd yr Arglwydd, a mi a ddychwelaf eich caethiwed.*

3. Mi ddylwn yn bruddaidd ymoſtwng ger bron Duw, a chyffeſu ſy mhechodau; canys ſelly y rhoddir gobaith o faddeuant.

1 Joan i. 9. *O's cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac y'n glanhâo oddi wrth bôb anghyfiawnder.*

4. Mi ddylwn, gyd â mawr ofid a thriſtwch càlon, edifarhâu am ſy mhechodau, ac ymchwelyd oddi wrthunt at Dduw.

Jöel ii. 13. *Rhwygwch eich càlon, ac nid eich dillad; ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw: o herwydd graſlawn a thrugarog yw efe, hwyrfrydig i ddigofaint, a mawr ei drugaredd, ac edifeirjol am ddrwg.*

Act. iii. 19. *Edifarhêwch gan hynny, a dychwelwch, fel y d'leer eich pechodau.*

5. Mi ddylwn yn ddioed, yn ewyllyſgar, yn gydwybodol, ac yn barchus, adnëwyddu ſy Nghyfammod â Duw yng Nghyfryngdod Criſt Jeſu, gan gymmeryd ei jau ef arnaf o'r newydd; canys y mae efe yn ſy ngalw.

Math. xi. 29. *Cymmerwch fy jau arnoch, a dyſgwch gennyf; canys addfwyn ydwyf a goſtyngedig o gàlon: a chwi a gewch orphwyſdra i'ch eneidjau.*

Eſay lv. 3. *Gogwyddwch eich clûſt, a deuwch attaf; gwrandêwch, a bydd byw eich enaid: a mi a wnâf gyfammod tragywyddol â chwi; ſef, ſicr drugareddau Dafydd.*

2 Chron. xxix. 10. *Yn awr y mae yn ſy mrŷd i wneuthur cyfammod ag Arglwydd Dduw Iſräel; fel y trô ei ddigofaint llidjog ef oddi wrthym ni.*

Cw. Pa beth a wnewch pan wybyddoch y'ch bod trwy Griſt yn 'ſtâd yr Jechydwrjaeth a gynhwyſir yn y Cyfammod?

Att. 1. Y mae i mi, yn gyntaf, fawr ddiolch i'm Tâd nefol, yr hwn a'm galwödd i'r cyfryw 'Stâd wynfydedig.

Col. i. 12, 13. *Gan ddiolch i'r Tâd, yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymmwys i gael rhan o etifeddïaeth y ſaint yn y goleuni: Yr hwn a'n gwaredodd ni allan o feddïant y tywyllwch, ac a'n ſymmudodd i deyrnas ei annwyl Fâb.*

2. Mi ddylwn, yn ail, ddyſal ymholi, rhag i wag hyder ſy nhwyllo.

Gal. vi. 3, 4. *O blegid o's tybja neb ei fod yn rhyw beth, ac yntef heb fod yn ddim, y mae efe yn ei dwyllo ei hun. Eithr profed pôb un ei waith ei hun; ac yna y caiff orfoledd ynddo ei hun yn unig, ac nid mewn arall.*

3. Mi ddylwn arferyd pôb moddjon buddjol am barhâad hyd y diwedd; yn enwëdig, gweddïo Duw er i'm cymmorth fod yn grŷf yng Nghriſt Jeſu, fel na lithrwyf oddi wrtho.

Sal.

Sal. lxxx. 17, 18. *Bydded dy law dros ŵr dy ddeheulaw; a thros fâb dŷn yr hwn a gadarnhêaiſt i ti dy hun. Felly ni chiliwn yn ôl oddi wrthyt ti: bywhâ ni, a ni a alwn ar dy enw.*

Cw. Pwy foddjon ſydd ſuddjol i chwi arferu tu ag at barhâu yn 'ſtâd o Jechydwrjaeth hyd y diwedd?

Att. 1. Mi ddylwn roddi pôb diwydrwydd i ſicrhâu ſy hawl yng Nghriſt; canys pan fwyf fuſgrell a diofal, y mae'r gelyn yn cael ſwyaf o fantais yn ſy erbyn.

2 Ped. i. 10. *O herwydd pa ham yn hytrach, frodyr, byddwch ddïwyd i wneuthur eich galwëdigaeth a'ch etholedigaeth yn ſicr: canys tra f'och yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrwch chwi ddim bŷth.*

2. Mi a ddylwn ddyfal ddiſgwil wrth Dduw yn nyledſwyddau Creſydd, cyhoedd a dirgel; fel y chwanegir ſy nerth yn erbyn ſy ngelynjon yſbrydol o ddŷdd i ddŷdd.

Diar. viii. 34, 35. *Gwyn ei ſŷd y dŷn a wrandawö arnaf, ac a wilio yn ddyfal beunydd wrth fy nryſau, gan warchod wrth bŷſt fy mhyrth i. Canys y neb a'm caffo i, a gaiff fywyd, ac a feddïanna ëwyllys da gan yr Arglwydd.* Heb. x. 25, 26.

3. Mi ddylwn ochelyd cymdeithas dynjon cyſeiliornus ac annuwjol.

2 Ped. iii. 17. *Ymgedwch rhag eich arwain ymmaith trwy amryfuſedd yr annuwjol, a chwympo o honoch oddi wrth eich ſicrwydd eich hun.*

Sal. cvi. 35. *Iſräel a ymgymmyſgaſant â'r cenhedloedd, ac a ddyſgaſant eu gweithredoedd hwynt.*

1 Cor. xv. 33. *Na thwyller chwi; y mae ymddiddanjon drwg yn llygru moeſau da.*

4. Mi ddylwn ochelyd pôb hunan-hyder a balchder yſbryd; gan ymddiried yn Nuw, ac ymddwyn yn oſtyngedig: Canys y beilchjon a'r hunan-hyderus a ſyrthjant, a'r gweinjon goſtyngedig a gynhelir.

1 Ped. v. 5. *O blegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchjon, ac yn rhoddi grâs i'r rhai goſtyngedig.*

Diar. xvi. 18. *Balchder ſydd yn myned o flaen dinyſtr; ac uchder yſbryd o flaen cwymp.*

Rhuf. xi. 20. *Trwy anghrediniaeth y torrwyd hwynt ymmaith, a thithau ſydd yn ſeſyll trwy ffŷdd. Na fydd uchelfryd, eithr ofna.*

5. Mi ddylwn atteb pôb profedigaeth y fo'n fy nhemtio i wrthgiliad megis *Jephtha*, Barn. xi. 35. *Myfi a agorais fy ngenau wrth yr Arglwydd; ac ni allaf gilio.* Ac fel *Dafydd*,

Sal.

Sal. cxix. 106, 111. *Tyngais, a chyflawnaf, y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder. Cymmerais dy orchymmynnïon yn etifeddiaeth dros byth; o herwydd llawenydd fy nghalon ydynt.*

Cw. Pwy yſtyrjaethau fy'n eich cymmell i lafurïo am barhâad yn y ſtâd o ſechydwrjaeth?

Att. 1. Oni pharhâaf yn ſtâd ſechydwrjaeth, collaf ffrwyth yr hôll boen a gymmerais, a'r hôll amſer a dreulïais ynghylch Crefydd erjôed; fel adeiladaeth dreulfawr yn myned yn ofer o eiſiau ei gorphen.

2 Joan 8, 9. *Edrychwch arnoch eich hunain, fel na challom y pethau a wnaethom, ond bod i ni dderbyn llawn wobr. Pôb un ag ſy yn troſeddu, ac heb aros yn nyſgeidiaeth Criſt, nid yw Duw ganddo ef. Yr hwn ſydd yn aros yn nyſgeidiaeth Criſt, hwnnw y mae'r Tâd a'r Mâb ganddo.*

2. Mae'r rhai a wrthgiliant oddi wrth Grefydd o'u bôdd, yn ſyrthio i golledigaeth (yn gyffelyb i gwymp Satan, yr hwn *a adawödd ei drigfa ei hun*, Jud. 6.) yn fwy eu bai a'u barn, ac yn anhawſach i'w dychwelyd, nâ chyn iddunt adnabod Duw gyntaf erjôed.

Rhuf. xi. 22. *Gwêl am hynny ddajoni a thoſter Duw; ſef, i'r rhai a gwympaſant, tôſter; eithr dajoni i ti, o's arhoſi yn ei ddajoni ef: o's amgen, torrir dithau hefyd ymmaith.*

2 Ped. ii. 20, 21, 22. *Canys o's, wedi iddunt ddiangc oddi wrth halogedigaeth y bŷd, trwy adnabyddiaeth yr Arglwydd a'r Achubwr Jeſu Criſt, y rhwyſtrir hwy drachefn â'r pethau hyn, a'u gorchfygu, aeth diwedd y rhai hynny yn waeth nâ'u dechreuad. Canys gwell fuaſai iddunt, fod heb adnabod ffordd cyfiawnder, nag wedi ei hadnabod, troi oddi wrth y gorchymmyn ſanctaidd, yr hwn a draddodwyd iddunt. Eithr digwyddodd iddunt yn ôl y wîr ddiareb, Y cî a ymchwelodd at ei chwydïad ei hun; a'r hwch, wedi ei golchi, i'w hymdreiglfa yn y dom.*

Heb. vi. 4, 5, 6. *Canys ammhoſſibl yw i'r rhai a oleüwyd unwaith, ac a brofaſant y rhôdd nefol, ac a wnaethpwyd yn gyfrannogjon o'r Yſbryd Glân, ac a brofaſant ddajonus air Duw, a nerthoedd y bŷd a ddaw, ac a ſyrthjant ymmaith, ymadnewyddu drachefn i edifeirwch; gan eu bod yn ailgroeſhoeljo iddunt eu hunain Fâb Duw, ac yn ei oſod yn watwor.*

Heb. x. 26—29. *Canys o's o'n gwirfodd y pechwn, ar ôl derbyn gwybodaeth y gwirjonedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adel mwyach; eithr rhyw ddiſgwil ofnadwy am farnedig-*

aeth

aeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr. Yr un a ddirmygai gyfraith Moſes, a fyddai farw heb drugaredd, dan ddau neu dri o dyſtjon: Pa faint mwy cosbedigaeth (dybygwch chwi) y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fâb Duw, ac a farnodd yn aflan waed y cyfammod, trwy'r hwn y ſancteiddjwyd ef, ac a ddifenwodd Ysbryd y grâs?

3. I'r rhai a barhâant, yn unig, y bydd Jechydwrjaeth.

Math. x. 22. *Yr hwn a barhâo hyd y dïwedd, efe fydd cadwëdig.*

Dad. ii. 10. *Bydd ffyddlon hyd angau, a mi a roddaf i ti goron y bywyd.*

Dïwedd y RHAN Gyntaf.

BRITISH
16 DE 85
MUSEUM